

**MODEL AML-ASiantaeth Cyfannol
AR Gyfer Ataliaeth i Bobl Ifanc
Mewn Perygl yn Ne Cymru**



**rhywun i wrando
rhywbeth i'w wneud**



Sut mae Hygyrchu mwy o Gymorth ac Arweiniad

Byddwch gystal ag ystyried rhoi adborth o ran eich barn ar y model arfer a amlinellwyd yn y papur hwn. Mae eich barn, eich awgrymiadau ac enghreifftiau o arfer lleol o ddiddordeb, fel y mae eich barn fwy cyffredinol ynghylch defnyddioldeb y cyhoeddiad hwn o ran helpu i ddatblygu neu lunio gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn eich ardal chi.

Os oes gennych ddiddordeb mewn defnyddio'r egwyddorion a amlinellwyd yn y papur hwn ac fe hoffech gael cymorth i roi'r model ar waith yn eich ardal leol, eich cymdogaeth neu'ch cymuned, mae cyngor, cymorth pellach ac arweiniad ar gael oddi wrth:

Keith Towler
Achub y Plant DU
2il Lawr
Tŷ Ffenics
8 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ
Rhif ffon: 029 2039 6838
Ebost: k.towler@savethechildren.org.uk

Os oes diddordeb gennych mewn derbyn help, cyngor ac arweiniad ar gyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc, gallwch gysylltu â:

Anna Skeels
Uned Cyfranogiad
Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru
d/o Amddiffyn y Plant
2il Lawr
Tŷ Ffenics
8 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ
Rhif ffon: 029 2039 6838
Ebost: a.skeels@savethechildren.org.uk

Rhagair ar y Cyd

Peter Clarke,
Comisiynydd Plant Cymru
Barbara Wilding QPM,
Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

Ryw ddeunaw mis yn ôl, fe wnaethom ni gyfarfod i drafod sut gallai Heddlu De Cymru a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru gydweithio'n well i gefnogi pobl ifanc, yn enwedig y rhai diamddiffyn a'r rheiny sydd â'r angen mwyaf. Esgorodd y cyfarfod hwnnw ar y ddogfen hon, yr ydym yn awr wrth ein bodd yn ei rhannu gyda chi.

Roeddem yn deall bod Cymru wedi datblygu nifer o strategaethau gwyb a pholisïau allweddol ym maes cefnogi plant a phobl ifanc, a bod sylfeini cadarn yn cael eu gosod er mwyn medru cyflwyno gwasanaethau gwell. Roeddem hefyd yn ymwybodol o ymrwymiad a phroffesiynoldeb aruthrol, ochr yn ochr ag awydd gwirioneddol i wneud gwahaniaeth.

Roeddem yn llai sicr ynghylch effeithiolrwydd ein hasiantaethau o ran cysylltu ag eraill, a throsi'r strategaethau a'r polisïau hyn yn weithredu rheng flaen. O'n profiadau, a gadarnhawyd yn ddiweddarach gan adborth amrywiaeth eang o gyfranwyr, roeddem yn gwybod bod llawer o weithgaredd ar y gweill, ond bod hynny'n aml yn ynysig; ac weithiau bod cystadlu uniongyrchol. Teimlem ni, yn wyneb y pwysau ariannol a wynebir gan y rhan fwyaf o gyrff statudol a gwirfoddol, y gallai fod ffordd well o gydlynu'n hymdrechion, gan herio'n dull o weithredu gyda'n gilydd; ac wrth wneud hynny gyflwyno gwell gwasanaeth i gynulleidfau ehangach.

I brofi'r ddamcaniaeth hon, fe wnaethom ni gyfarfod â nifer o "gyfeillion beirniadol", a oedd yn cynnwys prif weithredwyr o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, uwch swyddogion y llywodraeth ac ymarferwyr profiadol o'r rheng flaen. Credai'r mwyafrif yn bendant y byddai ymagwedd fwy cyfannol yn cael ei chroesawu, ynghyd â chyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o droi gair yn weithred ymarferol yn y maes.

Er mwyn hysbysu'r drafodaeth ehangach, comisiynwyd Keith Towler i baratoi'r papur hwn. Rydym yn ddyledus i Keith, nid yn unig am ei egni a'i angerdd ynghylch y gwaith sydd dan law, ond hefyd am y gonestrwydd a'r hygredded a ddaw i'r cynnyrch gorffenedig yn ei sgîl.

Wrth ysgrifennu'r papur hwn, mae Keith wedi ymgynghori'n bell ac agos, ac adlewyrchir canlyniadau hynny yn y cynnwys. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ddarllen drafftiau niferus y papur hwn ac a helpodd i'w lunio. Diolch yn arbennig i'r Athro Howard Williamson am dderbyn rôl y cyfaill "hynod feirniadol" ac am yr adrannau penodol hynny a ysgrifennwyd ganddo ef yn bersonol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghorol hwnnw, cawsom ein synnu o weld cwmipas a lefel cysondeb y gefnogaeth i'r egwyddorion a'r arweiniad. Roedd hynny'n syndod, ond hefyd yn rhoi sicrwydd.

Wrth gyflwyno'r papur hwn i gynulleidfau ehangach, gobeithiwn symbylu trafodaeth bellach, ac yn arbennig, gobeithiwn greu cysylltiad gweithredol ag eraill yn y gwaith o ddatblygu modelau ymarferol go iawn a fydd yn gwneud gwahaniaeth.

Diolchiadau

Mae'r papur hwn wedi bod yn destun cyfnod ymgynghori sylweddol.

Diolch i'r holl blant a phobl ifanc a roddodd o'u hamser i drafod y syniadau a amlinellir yn y papur hwn.

Diolch hefyd i bawb a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig, a ddaeth i gyfarfodydd i drafod y model, a gyflwynodd syniadau, a ddarparodd ddeunydd ymchwil, a gynorthwyodd yn yr ymgynghori â phobl ifanc, a gyflwynodd enghreifftiau ymarferol ac a dreuliodd amser yn prawfddarllen yr amrywiol ddrafftiau.

Mae gormod o gyfranwyr unigol i'w rhestru, ond gobeithiwn fod y gwaith a gwblhawyd gennym mewn ymateb wedi gwneud cyfiawnder â'ch ymroddiad a'ch gweledigaeth.

Awduron:

Keith Towler, Ymgynghorydd Annibynnol
Y Athro Howard Williamson, Prifysgol Morgannwg
Maria Battle, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
DCC David Francis, Heddlu De Cymru

	Rhif y dudalen
Crynodeb	3
Cyflwyniad	5
Pennod Un: Cyd-destun a Chefndir:	6
Ymestyn Hawliau	
Deddf Plant 2004	
Deddf Dysgu a Sgiliau 2000	
Pennod Dau: Plant a Phobl Ifanc – Negeseuon Allweddol	10
Pennod Tri: Egwyddorion Allweddol Ymagwedd Aml-asiantaeth:	14
Rôl Asiantaethau Allweddol	
Amlinellu Egwyddorion Allweddol Ymagwedd Aml-asiantaeth	
Model Arfer Cyfannol Integredig	
Pennu Ardal neu Ffin	
Ardaloedd Cystyrau Ysgolion	
Ymagwedd Hyblyg	
Ffactorau Risg ac Amddiffynnol	
Plant a Phobl Ifanc a’u Teuluoedd	
Amrywiaeth	
Cyfranogiad Gweithredol Plant a Phobl Ifanc	
Pennod Pedwar: Y Model Arfer – Gwneud Gwahaniaeth:	27
Chwe Cham Allweddol	
Ymagwedd Pedwar Cam	
Prosiect Bethl’wWneud - Enghraifft o’r Model Arfer	
Pedair Haen Gwasanaethau a Chefnogaeth	
Cynllun Cyflwyno Enghreifftiol	
Enghreifftiau o Arfer	
Pennod Pump: Gwasanaethau Cyffredinol, wedi’u Targedu ac Unigol:	62
Ail-gyflunio Gwasanaethau Presennol	
Pennod Chwech: Monitro a Gwerthuso	67
Atodiad 1: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn	69
Atodiad 2: Y Saith Nod Craidd	71
Atodiad 3: Y Deg Hawl	72
Llyfryddiaeth a Chyfeiriadaeth	73

Mae gwaith partneriaeth effeithiol a sefydlu model cyfannol integredig o gefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn dibynnu ar i ba raddau y gellir cydlynu gwasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol mewn unrhyw ardal unigol. O ystyried yr ystod o ymyraethau ac asiantaethau (statudol, gwirfoddol ac annibynnol) sydd â diddordeb uniongyrchol neu anuniongyrchol yng nghyflwyniad y gwasanaethau hynny, daw maint y dasg o gydlynu’r gweithgaredd hwnnw mewn ymagwedd gydlynus a chyfannol i’r amlwg. Yn yr ymgynghori cyn y papur hwn cydnabuwyd bod angen herio arfer presennol ac y gallai rheoli adnoddau, o’i drin yn iawn, arwain at newid cadarnhaol mwy hirhoedlog. Mae’r papur hwn yn dadlau mai’r unig ffordd ystyrlon o fynd i’r afael ag ymdrech o’r fath yw dull amlasiantaeth, gan sicrhau cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc, oddi mewn i ffiniau daearyddol penodol.

Dylid canolbwyntio ar gyflwyno gwasanaethau cyffredinol, gan ddefnyddio gwasanaethau wedi’u targedu a rhai unigol yn ôl y galw. Mewn llawer o achosion bydd hyn yn gwyrddroi’r trefniadau presennol, sydd yn rhoi blaenoriaeth i ymyrraeth arbenigol neu argyfwng, weithiau ar draul y gwasanaethau cyffredinol.

Mae’r papur yn cymryd yn ganiataol y rhoddir y brif flaenoriaeth i gysylltu a gweithio gydag unigolion a grwpiau risg uchel, neu’r rhai anoddaf eu cyrraedd, neu’r rhai nad ydynt yn ymwneud â’r ysgol, clwb ieuenctid na darpariaeth amser hamdden arall strwythuredig.

Bu’r model arfer yn amlinellu eiriolwyr yn gweithio yn ardaloedd grwpiau clwstwr ysgolion, gan nodi ac ymateb i’r risg a ffactorau amddiffynnol mewn cynllun gweithredu lleol sy’n dibynnu’n drwm ar gyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc oddi mewn i bartneriaeth amlasiantaeth ystyrlon.

Crynodeb Gweithredol – Rhywbeth i’w Wneud (Model Bethl’wWneud)

1. Mabwysiadu ymagwedd gyfannol amlasiantaeth.
2. Datblygu model integredig ar gyfer gwasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol.
3. Sicrhau cyfranogiad gweithredol pobl ifanc.
4. Edrych ar sut gellir ail-gyflunio gwasanaethau presennol ac ystyried y materion sy’n codi o ran cyllid ac adnoddau.
5. Sicrhau bod y ffeithiau’n gywir cyn dechrau newid pethau.
6. Sicrhau cefnogaeth y gymuned leol a’i chynnwys.
7. Cytuno a gweithredu cynllun lleol ar y cyd, sy’n ymateb i’r risg a’r ffactorau amddiffynnol.
8. Datblygu ystod o weithgareddau a gwasanaethau difyr, addysgiadol, amgylcheddol, cefnogol a chadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.
9. Datblygu cyfres o ymatebion wedi’u targedu at risgiau neu broblemau penodol megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, lefelau triwantiaeth, camddefnyddio sylweddau ac ati.
10. Gofalu eich bod yn monitro a gwerthuso pob gweithgaredd a phroses fel bod modd olrhain cynnydd i fwydo i ddatblygiadau’r dyfodol.



Cyflwyniad

Mae’r **Model Arfer Bethl’wWneud** yn darparu pedair haen o wasanaethau a gweithgareddau:

- Haen Un**
Gwaith blynyddoedd cynnar a chefnogaeth a chymorth i blant oed ysgol wedi oriau’r ysgol
- Haen Dau**
Gweithio mewn modd allgymorth i gyrraedd plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion gyda’r nod o ddatblygu cynllun cefnogi unigol
- Haen Tri**
Darparu hyfforddiant galwedigaethol sy’n cyd-fynd yn agos â’r gwasanaethau cyflogaeth ieuenctid a’r colegau ac yn diwallu anghenion cyflogwyr lleol a’r gymuned leol
- Haen Pedwar**
Mynediad i wasanaethau unigol yn ôl y galw

Y prif bwynt yw bod angen cyflunio gwahanol ymagweddau ar gyfer pob ardal neu gymuned gan ddefnyddio’r egwyddorion a amlinellwyd yn y model arfer. Mae ymagwedd sy’n seiliedig ar angen yn galw am fwy o ymdrech ond ceir mwy o fudd nag yn achos ymagwedd sy’n mynd ati’n syml i ail-greu rhywbeth sydd wedi gweithio’n dda mewn man arall.

Mae’r papur hwn yn disgrifio’r model yn fwy manwl:

Pennod Un – yma amlinellir y cyd-destun a’r cefndir.

Pennod Dau – yma amlinellir yr hyn a ddywedwyd gan blant a phobl ifanc am y pwyntiau lle ceir newid allweddol yn eu bywydau a pha wasanaethau cefnogi fyddai o gymorth.

Pennod Tri – mae hon yn edrych ar egwyddorion allweddol gwaith amlasiantaeth ac yn archwilio rôl asiantaethau unigol.

Pennod Pedwar – mae hon yn disgrifio’r model arfer cyfannol integredig.

Pennod Pump – mae hon yn diffinio gwasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol ac yn nodi sut gall ail-gyflunio’r gwasanaethau hynny greu canlyniadau.

Pennod Chwech – mae hon yn edrych ar fonitro a gwerthuso a dulliau o gofnodi cynnydd a dysg i fwydo i ddatblygiadau’r dyfodol.

Plant a Phobl Ifanc

Ffocws y papur hwn ar arfer yw amlinellu datblygiad model integredig a chyfannol o gyflwyno gwasanaeth i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau eu hunain. Nid yw’r papur yn ymddiheuro o gwbl am ganolbwyntio ar anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc.

Mae’r amgylchiadau y mae rhai o’n plant a’n pobl ifanc yn eu hwynebu wrth dyfu i fyny yn haeddu sylw arbennig os ydym i helpu pob un ohonynt i gyflawni eu potensial llawn. O wneud hyn bydd manteision eraill tymor hir i’r gymuned wrth i bobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd a gwneud cyfraniadau cadarnhaol fel dinasyddion gweithredol.

Bydd y model a ragwelwn nid yn unig yn cynnig gwell gwasanaethau a chefnogaeth i blant a phobl ifanc, bydd hefyd yn ffrwyno’u hegni a’u potensial i gyflwyno gwelliannau ymarferol go iawn yn y cymunedau lle maent yn byw. At ddibenion y ddogfen hon, plant a phobl ifanc yw pawb rhwng 0 a 25 oed yn unol ag ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.¹

Diben:

Er nad yw’n honni ei fod yn medru ateb popeth, nod y papur arfer hwn yw:

- Amlinellu egwyddorion allweddol ymagwedd aml-asiantaeth gyfannol oddi mewn i ardal ddaearyddol benodedig sy’n gosod cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc yn y canol.
- Archwilio sut y gellir integreiddio gwasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol i greu’r effaith orau.
- Rhoi gwybodaeth glir ac ymarferol ar yr hyn y gellid ei wneud i gysylltu â’r plant a’r bobl ifanc sy’n wynebu’r risg mwyaf a darparu gwasanaethau ar eu cyfer.
- Darparu model arfer ar gyfer De Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg) y gellid ei addasu i ddiwallu anghenion penodol ardaloedd lleol boed y rheiny’n drefol, yn gymoedd, yn wledig neu’n lled-wledig.

Cynulleidfa:

Anelir y papur hwn at yr asiantaethau hynny sy’n gweithio o fewn y Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a’r Timau Troseddau Ieuenctid, yn ogystal â’r asiantaethau a oedd yn darparu gwasanaethau statudol a gwirfoddol i blant a phobl ifanc. Fe’i hanelir at ymarferwyr a rheolwyr canol yn ogystal â phrif swyddogion yr asiantaethau hynny. Mae hefyd yn ceisio hysbysu a chynorthwyo Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal ag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth sydd â diddordeb uniongyrchol yng Nghymru, sef y Swyddfa Gartref, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Troseddwyr, yr Adran Addysg a Sgiliau, Canolfan Byd Gwaith, Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, yr Adran Materion Cyfansoddiadol, a’r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Gobeithio bydd llunwyr polisïau a strategwyr yn cael yr wybodaeth strategol a chyd-destunol o ddefnydd a gallant ddefnyddio’r papur i hysbysu eu hymagweddau eu hunain. Gobeithio bydd y papur, yn ogystal â’r enghreifftiau o arfer a barn y bobl ifanc, o ddiddordeb i ymarferwyr.

Gobeithiwn y bydd y papur hwn yn adnodd defnyddiol ar gyfer llawer o’r rheiny sy’n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc ac y bydd yn cael ei ddefnyddio mewn llawer o ffyrdd gwahanol gan y rheiny sy’n gweithio mewn cymunedau lleol ar draws De Cymru.

Gobeithiwn y bydd y papur hefyd o ddefnydd i gydweithwyr ledled Cymru ac y bydd darllenwyr unigol yn cael hyd i rywbeth yn y papur hwn a all gynorthwyo i hysbysu eu harfer eu hunain. Rydym yn dal yn awyddus i glywed barn pobl ar y model arfer.

¹ Gweler dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau*. Ionawr 2004. ISBN 0 7504 98765. *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth*. 30 Medi 2005
Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Ymestyn hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru*. Medi 2000. ISBN: 0 7504 2466 4
Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Plant 2004

Pennod Un:

Cyd-destun a Chefndir

Mae llawer o bobl ifanc yn aml yn dweud nad oes ganddynt unman i fynd iddo nac unrhyw beth i'w wneud pan ofynnwch iddynt pam maent yn aros ar gorneli strydoedd neu'n ymgasglu mewn arcedau peiriannau chwarae. Gall llawer o bobl mewn cymunedau lleol deimlo dan fygythiad o weld grwpiau o bobl ifanc yn llercian o gwmpas ac yn fwy aml na pheidio nid yw'r bobl ifanc eu hunain yn sylweddoli effaith eu hymddygiad ar eraill. Mewn amgylchiadau eraill, pan fydd difflastod yn troi'n ymddygiad y byddai rhai o bosib yn ei ystyried yn wrthgymdeithasol neu'n droseddol, a phan gaiff pobl ifanc eu denu i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, gall problemau waethygu'n gyflym iawn. Mae'r papur arfer hwn a'r model a amlinellir ganddo yn ceisio cynnig dull o weithio sy'n darparu ymagwedd ataliol a chynhwysol, ond ar yr un pryd yn darparu **Rhywun i Wrando, Rhywbeth i'w Wneud** ar gyfer pobl ifanc mewn perygl.

Er eu bod yn cydnabod y mentrau cadarnhaol niferus sydd yn cael eu datblygu yn Ne Cymru, yr amlinellir rhai ohonynt yn y papur hwn, mae llawer o ymarferwyr yn teimlo y gellid cyflawni llawer mwy. Er enghraifft, pa fanteision ddeuai yn sgîl gwell gallu ymhlith gwasanaethau i gydlynu neu integreiddio'r amrywiaeth mawr o weithgaredd sydd ar gael ar hyn o bryd? A oes modd edrych ar yr holl weithgaredd statudol, preifat, gwirfoddol a grwpiau cymunedol gydag ac ar gyfer pobl ifanc a datblygu ymagwedd fwy cyfannol? Model sy'n cynnig dewis eang o wasanaethau a chefnogaeth, sy'n cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o wella'r cymunedau lle maent yn byw; ac sy'n golygu bod darparwyr gwasanaethau'n cydweithio yn hytrach na chystadlu.

Yn Ne Cymru, mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Tros gynnal² eisoes wedi dechrau datblygu ei syniadau'n strategol yn y maes hwn wedi iddo gomisiynu gwaith ar ddatblygu model ar gyfer gwaith ataliol ar draws ardal De Cymru gyda phlant 4-11 oed.

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru gwelwyd nifer o ddatblygiadau polisi cadarnhaol a mentrau strategol yn canolbwyntio ar yr ystod o wasanaethau a hawliau y dylai plant a phobl ifanc yng Nghymru eu derbyn.³ O ran gwasanaethau i'r plant a'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig, mae'r sylw'n fwyaf amlwg yn y gwaith yn edrych ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, atal troseddau ieuenctid, troseddu ieuenctid a gwaith y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, y Partneriaethau Plant a'r Partneriaethau Pobl Ifanc. Yn yr holl feysydd hyn mae'n rhaid cael ystod eang o gyfranogiad gan asiantaethau. Er bod cylch gorchwyl llawer o'r asiantaethau hynny'n cyd-redeg yn hwylus â chyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, nid yw hyn yn wir ym mhob achos. Ar adegau gall hyn achosi anhawster, yn enwedig pan na fydd y targedau a osodwyd ar lefel Cymru a Lloegr yn cydweddu â chyd-destun polisi cymdeithasol Cymru. Mae'n amlwg bod mwyafrif yr asiantaethau'n croesawu nifer o ddatblygiadau diweddar yn y maes hwn (er enghraifft Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan), ond y prawf hollbwysig sydd bellach yn wynebu llawer o asiantaethau yw'r ffordd orau o roi'r cyfleoedd polisi sy'n hanu o Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Swyddfa Gartref, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, ac adrannau eraill y Llywodraeth, ar waith mewn modd mwy cydlynus ac integredig yn eu gwaith ar lawr gwlad.

Cynigir y papur hwn fel model arfer i helpu i gyflawni'r ymrwymadau polisi a fframwaith strategol hynny. O ddatblygu'r syniadau arfer yn lleol, rhaid i'r gwaith adeiladu ar y strwythurau sefydledig hyn a bod wedi'i gysylltu'n glir â hwy os ydyw i lwyddo.

Mae'n werth nodi na fwriedir i'r model arfer a gynigir gael ei ystyried fel model ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol neu atal troseddau. Daw nifer o fanteision yn sgîl y gwaith o edrych ar sut gall yr holl asiantaethau weithio'n fwy effeithiol gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu rhan.

Gallai gostyngiad yn yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc fod yn un o'r rhain, ond hefyd gellid cael enghraifft megis datblygu mwy o bethau cadarnhaol i bobl ifanc eu gwneud, cynyddu hyder a gallu ymhlith plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, mwy o gyfranogiad gan bobl ifanc a thrigolion lleol mewn gweithgareddau cymunedol cadarnhaol, gwell cydlynu o ran gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc, gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol a darparu cyfleoedd ar gyfer adfywio economaidd.

Mae'n iawn ystyried plant a phobl ifanc fel ein hased mwyaf gwerthfawr, ac eto mewn cynifer o ffyrdd mae ein deddfwriaeth, a'n hymatebion sydyn o ran polisi, yn datgelu angen i reoleiddio a rheoli gweithredoedd pobl ifanc, a all mor rhwydd eu mogi yn hytrach na rhoi cyfle i'w potensial. Mae deddfwriaeth ddiweddar, yn enwedig y mesurau ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn mynd ati i gosbi pobl ifanc a'u trin yn giaidd. Nid yw'r papur hwn a'r model a geir ynddo yn ceisio ymdrin â'r ddadl honno'n benodol. Yn hytrach, mae'r papur yn cynnig dull o weithio a fyddai, o'i roi ar waith ar draws De Cymru, yn gwneud llawer i helpu atal plant a phobl ifanc mewn perygl rhag cael eu tynnu i mewn i ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol ac felly ddod yn destun achos llys sifil neu droseddol.

Nid yw'r papur hwn yn archwilio costau ariannol a manteision ymagwedd ataliol gan fod hyn wedi derbyn sylw helaeth mewn mannau eraill. Yn y tymor hwy, gallai'r arbedion i'r pwrs cyhoeddus fod yn eithaf sylweddol petai rhai o'r ymatebion mwyaf ymwithiol i ymddygiad plant a phobl ifanc (yn fwyaf nodedig costau rhai dedfrydau cymunedol, dedfrydau o garchar a'r costau cysylltiedig â'r system o dderbyn gofal) yn cael eu disodli gan wasanaethau ataliol effeithiol a oedd yn cyfyngu ar yr angen am opsiynau drutach.

Mae'r model arfer yn ceisio ymateb i nifer o heriau neu gwestiynau, y mae angen ateb pob un ohonynt os yw'r dyheadau a geir yn y papur hwn i gael eu gwireddu'n ymarferol:

- Sut gall egwyddorion cyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn⁴ gael eu hintegreiddio i'r gwaith?
- Sut gall plant a phobl ifanc ddod yn weithredol yn eu cymunedau eu hunain i wella eu cyfleoedd bywyd eu hunain ac i wella'r cymunedau lle maent yn byw yn fwy cyffredinol?
- Sut gellir gwireddu egwyddorion cyfranogiad wrth ddatblygu'r gwaith?
- Sut gellir alinio amcanion asiantaethau'n well fel eu bod yn gweithio tuag at yr un canlyniadau?
- Sut gellir cefnogi gwaith cyrff gwirfoddol a chymunedol fel bod eu cyfraniad yn gweithio ochr yn ochr â'r ddarpariaeth statudol mewn amgylchedd sy'n croesawu ac yn meithrin eu cyfranogiad?
- Sut gallwch chi drefnu cytundebau ynghylch sut i symud ymlaen pan fo gweithgaredd un neu fwy o asiantaethau'n dyblygu neu'n gwrthweithio rôl un arall?
- A oes modd cynllunio, cyllidebu ac yna integreiddio darpariaeth gwasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac unigolion ar sail aml-asiantaeth, gan gynnal y gwasanaethau presennol ar yr un pryd?
- Sut gallwch chi ddatblygu gwasanaethau presennol neu rai newydd neu gefnogaeth mewn ardal i ymateb i ddiffyg arfer mewn modd cydweithredol, yn hytrach na chystadleuol?

I grynhoi, mae'r cwestiynau uchod yn arwain at y cwestiwn sylfaenol, sef a oes modd yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol llunio model sy'n integreiddio ymdrech yn well? Model yn troi o amgylch creu ymagwedd gyfannol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, troseddwr ifanc a'r rheiny mewn perygl, mewn prosiectau gwella cymdogaeth a leolir yn y gymuned. Mae cyhoeddi'r papur hwn, sydd wedi elwa o ymgynghori ag amrywiaeth o asiantaethau a grwpiau o bobl ifanc, yn awgrymu bod cyfle ar gyfer ymagweddiad o'r fath.

² Mae Grŵp Arweinyddiaeth Tros gynnal De Cymru yn cyfarfod bob chwarter. Mae'r aelodau'n cynnwys y Prif Gwnstabl, Prif Swyddog Prawf, Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol De Cymru, Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yn ardal Heddlu De Cymru; cynrychiolydd Rheolwyr TTI; Prif Swyddog Tân; Cyfarwyddwr Troseddau HO Cymru; Cyfarwyddiaeth Diogelwch Cymunedol LICC; Pennaeth Carchardai Cymru; Rheolwr Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru; Yr Eglwys yng Nghymru.

³ Gweler Atodiadau 2 a 3 am y saith nod craidd a'r deg hawl sy'n ganolog i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc.

⁴ Gweler Atodiad 1.

Ymestyn Hawliau

Pan gyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ymestyn *Hawliau*, buont yn nodi'r tasgau allweddol wrth gefnogi pobl ifanc yng Nghymru, ac yn awgrymu'n gywir bod:

...Cysylltiadau cryf rhwng iechyd a lles cymdeithasol pobl ifanc a'u gallu i gyflawni, datblygu sgiliau a chyfrannu trwy waith ac fel dinasyddion a rhieni. I gyflawni'r weledigaeth o Gymru fwy ffyniannus a theg mae angen i ni wella o ran sicrhau bod pob person ifanc yn cael mynediad i'r gefnogaeth angenrheidiol i lwyddo yn eu bywydau. Yn achos y rhan fwyaf o bobl ifanc darperir y gefnogaeth hon yn bennaf gartref, gan deulu, ffrindiau a'r ysgol. Ond lle na cheir y gefnogaeth hon, mae dyletswydd ar y gymdeithas i lenwi'r bwlch – os na wnaiff hynny bydd yn methu yn achos y bobl ifanc hynny ac yn arwain at gostau llawer uwch i wasanaethau cyhoeddus yn ddiweddarach. Y model a awgrymwyd gan lawer sy'n gweithio gyda phobl ifanc yw y dylem wneud mwy i gryfhau'r ffensys sy'n cadw pobl rhag syrthio dros y dibyn – yn hytrach na darparu mwy o ambiwlansys a faniau heddlu ar ôl iddynt gwympo...⁵

Yn y bôn, cychwynnodd Ymestyn *hawliau* o'r dybiaeth syml nad oedd ots pwy neu beth fyddai'n cyflwyno'r deg hawl i blant a phobl ifanc cyhyd â'u bod yn cael eu goruchwyllo gan grŵp monitro gweithredu amlddisgyblaeth ac yn cael eu cyflwyno mewn modd diogel, grymusol a galluogol mewn amgylchedd lle ceir:

- Ffocws cadarnhaol ar gyflawniad cyffredinol a'r hyn sydd gan bobl ifanc i'w gyfrannu
- Ffocws ar gynyddu gallu pobl ifanc i ddod yn annibynnol, gwneud dewisiadau, a bod yn rhan o'r broses ddemocrataidd, a
- Dathlu llwyddiannau pobl ifanc

Byddai rhai'n dadlau, er gwaethaf y bwriadau gorau, nad yw hyn eto wedi cael effaith mor bellgyrhaeddol ag y gobeithiwyd. Byddai eraill yn dadlau ei bod hi'n dal yn *gynnar* a bod arwyddion cynnydd go iawn yn dechrau cael eu gweld yng ngwaith y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, y Partneriaethau Plant a'r Partneriaethau Pobl Ifanc.

Nid yw eraill, megis y gwasanaethau tân ac achub sydd â diddordeb uniongyrchol mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r partneriaethau hyn ac maent heb gael eu cynnwys eto. Beth bynnag yw'r sefyllfa wirioneddol, mae'n amlwg bod llawer o waith cadarnhaol yn digwydd, bod arolygiadau Estyn o Bartneriaethau Pobl Ifanc wedi canfod tystiolaeth o ymagweddau llwyddiannus, a bod llawer o waith caled yn digwydd. Er hynny, mae hefyd yn amlwg bod llawer o'r rheiny sy'n gweithio o fewn y trefniadau partneriaeth yn gweld yr angen am welliant ar sail aml-asiantaeth, os yw'r arfer ar lawr gwlad i esgor ar y math o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc y byddai pawb yn hoffi eu gweld.

Deddf Plant 2004

Deddf Plant 2004 yw'r system gynllunio ganolog ar gyfer yr holl wasanaethau i blant a phobl ifanc ac mae'n cynnwys nifer o ofynion sy'n angenrheidiol i integreiddio cyflwyno gwasanaethau ar draws sefydliadau gan gynnwys; cynllunio a chomisiynu ar y cyd, rhannu gwybodaeth, gweithdrefnau asesu cyffredin a chyfuno cyllidebau.

Mae'r gofynion penodol a geir yn Neddf Plant 2004 yn cynnwys:

- Adran 25 – dyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol, lechyd ac asiantaethau partner allweddol a chyrrff perthnasol eraill (gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a chymunedol) i ddatblygu a chynnal trefniadau cydweithredu i wella lles plant a phobl ifanc.
- Adran 26 – paratoi a chyhoeddi un cynllun neu fframwaith o gynlluniau ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc erbyn mis Mawrth 2008.
- Adran 27 – penodi Cyfarwyddwr Arweiniol o fewn yr Awdurdod Lleol a lechyd ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, gyda chyfrifoldeb am gydlynw a goruchwyllo'r trefniadau a wnaed yn Adran 25 ac Adran 26.

Er bod Deddf Plant 2004 yn gosod y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc mewn man canolog a statudol, nid yw rolau'r holl bartneriaid allweddol eraill a'r asiantaethau perthnasol a'u cyfraniadau wedi cael eu hegluro.

Mae swyddogion yn y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn paratoi arweiniad, ond mae'n amlwg bod nifer o Bartneriaethau Fframwaith eisoes yn dechrau gweithio ar sut i fynd ati gyda'r trefniadau ar gyfer cynllunio sengl.

Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn darparu sylfaen ar gyfer gweithredu Ymestyn *hawliau* a chyflwynwyd ei Gyfarwyddiadau ac Arweiniad, deddfwriaeth eilaidd, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2002. Mae tair partneriaeth sy'n gweithio i roi'r *Cyfarwyddiadau ac Arweiniad* ar waith, y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, y Partneriaethau Plant a'r Partneriaethau Pobl Ifanc.

Wrth gyflwyno'r weledigaeth hon ar gyfer ymagwedd integredig a chyfannol, wedi'i seilio ar ail-gyflunio'r ddarpariaeth bresennol i newid y pwyslais presennol ar gyflwyno gwasanaethau ymyrraeth arbenigol ar draul gwasanaethau cyffredinol, mae'r papur hwn yn ceisio dangos bod rôl gan bob darparwr gwasanaeth i'w chwarae. Bod modd cyflawni newid parhaol a chadarnhaol drwy weithio ar y cyd â phlant a phobl ifanc fesul ardal neu ar sail ddaearyddol, a bod yr egwyddorion a fynegwyd yn Ymestyn *Hawliau* yn gyfredol i bob asiantaeth.

⁵ Ymestyn *hawliau*: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Medi 2000. ISBN: 0 7504 2466 4. Hefyd, gweler y *Cyfarwyddiadau ac Arweiniad*, yr ail ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2002 a *Deddf Dysgu a Sgiliau* 2000.

Pennod Dau:

Plant a Phobl Ifanc – Negeseuon Allweddol

Newidiadau Mawr Bywyd

Mae tystiolaeth ddiamheuol bod bywyd bellach yn fwy cymhleth a heriol i blant a phobl ifanc. Wrth gwrs, mae'r heriau a'r cymhlethdod hwn yn fwy i rai nag eraill ac yn effeithio ar unigolion ar wahanol adegau. Ond nid oes amheuaeth bod pob person ifanc yn wynebu ystod o *newidiadau mawr*, ar wahanol adegau a chyfnodau yn eu bywydau. A gall y rhain fod yn newidiadau anodd - maent yn aml yn darparu cyfle, ond maent hefyd yn cynnwys lefelau o risg, yn enwedig ar gyfer y plant a'r bobl ifanc fwyaf diamddiffyn, nad oes ganddynt y gwydnwch a'r 'cyfalaf cymdeithasol' i'w helpu i gael hyd i ffordd lwyddiannus ac effeithiol heibio i'r fath groesffyrdd. Ac, i barhau â'r trosiad hwn, gall y rheiny sy'n mynd ar hyd 'llwybr anghywir' neu sy'n cyrraedd cul-de-sac ganfod bod y prif lwybr wedi diflannu o'r gorwel.

Dywed ymchwil ieuencid wrthym fod newidiadau mawr – wrth ddysgu, mewn perthnasoedd personol, ym maes tai a bywyd teuluol, ac ym myd hamdden – wedi cymhlethu, yn estyn o hyd, ac o bosib yn wrthdroadwy (Furlong a Cartmel 1997). Yn sicr nid ydynt yn dilyn ffurf ragweladwy, linellol y gorffennol. Mae i hyn ddau oblygiad sylfaenol sy'n ymddangos fel petaent yn gwrthddweud ei gilydd. Mae angen mwy o ymreolaeth ar bobl ifanc. Mae angen mwy o gefnogaeth ar bobl ifanc.

Mae ymreolaeth yn rhan o roi i bobl ifanc y sgiliau a'r hyder i 'reoli eu bywydau' personol, fel nad yw grymoedd afreolus yn eu hergydio'n ormodol. Mae'n annatod glwm wrth brosesau sy'n ymwneud â gwrando ar blant a phobl ifanc, hybu 'cyfranogiad' ieuencid, a chynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae cefnogaeth yn rhan o gynorthwyo pobl ifanc gyda phenderfyniadau a chyfeiriad eu bywydau, pan allant fod yn cael eu gorlethu â gwybodaeth ac wedi'u hynysu gan nerfau ac ansicrwydd. Gall cyngor personol, cefnogaeth, gwybodaeth a mentora gadw pobl ifanc 'ar y llwybr' gydag ymdeimlad o friad ynghylch y llwybr hwnnw. Dywed ymchwil wrthym mai *datgysylltu* cymdeithasol, yn llawer mwy nag anfantais gymdeithasol, sy'n cynhyrchu pryder a phroblemau iechyd meddwl dyfnach ymhlith plant a phobl ifanc (Rutter a Smith 1993).

Sut, felly, mae troi'r wybodaeth 'academaidd' hon yn fesurau cadarnhaol ac ymarferol? Mae'n gyfuniad o gynnig lle ar gyfer archwilio personol (chwarae i blant, darpariaeth ieuencid 'agored' yn yr arddegau), a phan fyddant ar gael, oedolion galluog sy'n barod i greu cysylltiadau gyda phlant a phobl ifanc pan ofynnir am hynny neu pan ymddengys bod angen hynny. Gall yr unigolion hyn fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyfeirio ymlaen i ddarpariaeth datblygu a dysgu mwy penodol neu gefnogaeth unigol.

Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

Mae pobl ifanc yn galw'n gyson am lefelau uwch o 'gyfranogiad ieuencid' ac mae cyfranogiad ieuencid yn egwyddor allweddol yng ngwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn ddyhead cymeradwy, ond beth yn union mae'n ei olygu? Mae'n sicr yn rhan o broses bwysig sy'n cydymffurfio ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, gallai o bosib adnewyddu'r 'diffyg democrataidd', mae'n caniatáu ar gyfer ymarfer dinasyddiaeth go iawn, a thrwy wrando ar brofiadau a phersbectif pobl ifanc, mae'n debygol o arwain at arfer gwell. Ac eto, beth bynnag ydyw, mae'n aml yn cael ei feirniadu, o leiaf, am fod yn rhy arwynebol ac am beidio â chynnwys ystod gynrychioliadol o blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn heriau go iawn, ac yn rhai anodd eu taclo. Mae'n rhaid ystyried barn pobl ifanc mewn perthynas â safbwyntiau a barn eraill. Nid oes gan bob person ifanc ddiddordeb mewn 'cymryd rhan' ac nid yw rhai'n gweld unrhyw ddiben na rheswm i wneud hynny.

Mae llawer o ffyrdd i hybu cyfranogiad plant a phobl ifanc ac ysgrifennwyd llawer am gryfderau a gwendidau gwahanol ymagweddau. Ac, wrth gwrs, mae gan wahanol ffyrdd o wneud pethau wahanol fanteision a diffygion. Rydym yn teimlo, yn gyffredinol, y dylai fod o leiaf tair ffordd i blant a phobl ifanc fedru cyfrannu at lunio'r polisïau sy'n effeithio arnynt ar lefel leol.

Yn gyntaf mae cyfranogiad *democrataidd* - a gefnogwyd drwy bleidlais mewn cynghorau ysgolion, i fforymau ieuencid lleol ac, yn y pen draw, i'r Ddraig Ffynici, Cynulliad Ieuencid Cenedlaethol Cymru.

Yn ail, mae cyfranogiad *categoriadd* – lle ceisir barn grwpiau penodol o bobl ifanc am fod polisi'n mynd i gael ei gyfeirio atynt hwy yn arbennig. Enghreifftiau posib o hyn fyddai pobl ifanc ag anableddau, neu droseddwy ifanc, neu bobl ifanc o'r system derbyn gofal.

Ac yn drydydd, mae math o gyfranogiad *hunan-ddetholedig* – pan yw pobl ifanc yn ddigon egniol, cyffrous neu ddig i ddymuno lleisio barn, ac mae angen i ni ddod o hyd i ffordd i'w galluogi i wneud hynny.

Yn 2000 daeth yr Uned Eithrio Cymdeithasol, yn ei gwaith ar bobl ifanc, i'r casgliad nad oedd dulliau syml o hybu cyfranogiad ieuencid. Yn hytrach, dywedodd y dylai pob sefydliad oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc feddu ar *systemau gweladwy* ar gyfer ymgynghori â'r bobl ifanc hynny yr oedd eu gwasanaethau wedi'u cyfeirio atynt a'u cynnwys (Uned Eithrio Cymdeithasol 2000).

Ymgynghoriad gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Yn 2005 cynhaliodd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ddau ddigwyddiad mawr i blant a phobl ifanc ar draws Cymru. Defnyddiwyd y digwyddiadau hyn yn offeryn i gynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio gwaith Swyddfa'r Comisiynydd. Daethpwyd â phum thema i'r digwyddiadau, a dynnwyd o'r holl wybodaeth a gasglwyd oddi wrth blant a phobl ifanc ac oedolion yn ystod y flwyddyn flaenorol, sef:

- Chwarae a Hamdden
- Addysg ac Ysgolion
- Iechyd Emosiynol
- Cefnogaeth a Gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc y mae arnynt eu hangen
- Parch

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 19eg Gorffennaf 2005 yn Stadiwm y Mileniwm, lle'r oedd 150 o bobl rhwng 11 ac 21 oed yn bresennol, gyda 40 o staff o amrywiol brosiectau a sefydliadau yno hefyd. Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 23ain Tachwedd 2005 lle'r oedd 150 o blant rhwng 7 ac 11 oed yn bresennol gyda 30 o staff yno hefyd.

Crynoir y prif negeseuon a gafwyd gan blant a phobl ifanc yn ystod y ddau ddigwyddiad hwn isod. Yn eu barn nhw addysg, chwarae a hamdden oedd y gwasanaethau cyffredinol roeddent yn fwyaf awyddus iddynt gael eu gwella. Mae'r farn hon wedi bwydo i ddatblygiad y model Rhywun i Wrando, Rhywbeth i'w Wneud, ac felly cânt eu cynnwys yma fel rhan hanfodol o ddatblygiad y prosiect.

Chwarae a Hamdden

Roedd plant a phobl ifanc wedi codi materion gyda Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ynghylch y ffaith nad oedd ganddynt unrhyw beth i'w wneud, nac unman i dreulio amser. Buont hefyd yn codi materion parciau oedd yn cael eu fandaleiddio, cael eu symud o le i le, a theimlo'n annigol wrth dreulio amser y tu allan.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn yn amlinellu peth o'r amrywiaeth barn a fynegwyd:

- ...ychydig iawn o bethau i'w gwneud neu leoedd i fynd (sydd yna) i bobl yn eu harddegau.
- Dwi'n mwynhau treulio amser gyda ffrindiau ond does yna unman i fynd.
- ...(does) dim cyfleusterau ar ôl ysgol.
- ...(mae angen) mwy o weithgareddau ar ôl ysgol, cyfleusterau cerddoriaeth a grwpiau drama.
- ... (Y cyfan dwi'n ei wneud yw) cerdded o gwmpas gyda ffrindiau...(neu) wlio'r teledu.
- ...(Does) dim clybiau ieuencid yn yr ardal.
- ...(Dwi'n hoffi) chwarae mewn band ond does dim gigs.
- ...Dwi'n credu bod gwella cyfleusterau hamdden yn aruthrol o bwysig.



Ac o ran cost gweithgareddau hamdden dywedodd y bobl ifanc:

(Mae’n) ddrud ymuno â chlybiau fel crefft ymladd.

...Nofio (a’r) gampfa, (mae’n) costio gormod.

Mae gweithgareddau’n rhy ddrud.

Addysg ac Ysgolion

Roedd llawer o’r materion a godwyd gan blant a phobl ifanc yn ymwneud ag addysg a’r ysgol. Y materion allweddol oedd peidio â derbyn gwrandawriad, delio’n wael â bwlio, yn aml mewn ffordd a oedd yn gwaethygu’r sefyllfa. Roedd materion eraill yn cynnwys peidio â derbyn adborth, ac felly’n aml peidio â gwybod am ganlyniadau penderfyniadau. Yr ymdeimlad cyffredinol oedd nad oedd unrhyw beth y tu allan i gwricwlwm yr ysgol yn cael ei drin yn dda, ac nad oedd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn derbyn gwrandawriad na pharch.

Mae’r dyfyniadau a ganlyn yn amlinellu peth o’r amrywiaeth barn a fynegwyd:

Mae toriadau yn y gyllideb ym mhob adran mewn ysgolion Cymraeg yn creu prinder adnoddau, e.e. papur.

Dwi’n hoffi fy ysgol anghenion arbennig, ond dwi’n clywed eu bod nhw’n ceisio’u cau.

(Mae gan yr ysgol) ffreutur fach (ond mae) cynifer o blant.

Gormod o blant ym mhob dosbarth ac mae’r bws i’r ysgol bob amser yn hwyr.

Dyw’r cyfleusterau yn yr ysgol fel toiledau a’r ffreutur ddim yn lân. Dyw’r ysgol ddim yn hylan.

Diffyg mynediad i gyfrifiadur yn yr ysgol... mae’n rhaid (i ni) rannu.

Dim gweithwyr ieuenctid neu alla i ddim gweld nhw.

Ac o ran y cwricwlwm dywedodd pobl ifanc:

Byddai cwricwlwm mwy hyblyg yn caniatáu i ystod ehangach o bobl gael mwy o’u haddysg.

Ysgolion gwael, pynciau fydddech chi ddim yn eu hoffi.

Dim digon o amrywiaeth pynciau.

Mwy o wersi ABCh.

Gormod o waith cartref. Gormod o wersi.

Dwy ddim yn credu’n bod ni’n cael digon o wybodaeth am iechyd yn yr ysgol.

Dim digon o gerddoriaeth boblogaidd yn cael ei haddysgu.

Mae rhai pethau’n dda ond weithiau maen nhw mor ddiffas.

Dwi’n casáu mathemateg...(ac) arholiadau.

Dim digon o hwyl.

Mae TG yn ofnadwy achos mae fy athro’n pigo arna i.

Mae’r ysgolion yn poeni gormod am y wisg ysgol.

Gwisg ysgol – mae angen addasu fel bod y disgyblion yn teimlo’n gyfforddus, yn enwedig yn yr haf.

Gormod o waith cwrs a dim digon o wyliau.

Ac o ran bwlio dywedodd pobl ifanc:

...bwlio’n broblem FAWR . .

Helpwch ni i roi stop ar fwlio.

Os ydych chi’n cael eich bwlio a dydych chi ddim am i’r bwlis wybod eich bod wedi dweud wrth rywun, dylai fod ystafell ddosbarth lle gallwch chi weithio a gwneud ffrindiau gyda phobl eraill sydd wedi dioddef.

Mae plant yn cael eu bwlio yn yr ysgol. Rhowch stop ar fwlio mewn ysgolion.

Dydy timau gwrthfwlio ddim yn gweithio...

...dylai cynlluniau cyfeillio fod i bawb ... person yw cyfaill sydd yno i gefnogi’r plant a’r bobl ifanc yn yr ysgol fel eu bod yn llai tebygol o gael eu bwlio. Mae angen i’r cyfaill fod yn hŷn na’r person ifanc, ond ddim yn rhy hen, 16 neu 17 efallai...

Roedd gan y bobl ifanc farn hefyd am y Lwfans Cynnal Addysg

Soniwch fwy am y LCA achos dyw e ddim yn deg.

LCA – dylai pawb ei gael e.

Dwi’n gweithio’n galed, ond dwy ddim yn cael LCA.

Dylai’r rheolau LCA gael eu diwygio – dylai fod rhywbeth i bawb.

Iechyd Emosiynol

Roedd rhai o’r materion a godwyd gan blant a phobl ifanc, trwy’r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth a gynigiwyd gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, yn ymwneud â materion iechyd meddwl megis hunan-niweidio, iselder, anhwylderau bwyta, a chyfnodau o bryder a phanig. Fel arfer yn yr achosion hyn byddai’r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn cyfeirio’r plentyn neu’r person ifanc at y gwasanaeth perthnasol a phriodol. Fodd bynnag, nid oes digon o wasanaethau priodol wedi’u sefydlu yng Nghymru i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl.

Dydy ysgolion ddim yn poeni am les emosiynol disgyblion.

Dylai’r amgylchedd addysg roi mwy o anogaeth i ddisgyblion.

Dydyn ni ddim yn cael digon o drafodaethau am fywyd.

Cefnogaeth a Gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae eu hangen arnyh nhw

Roedd gan blant yn y system Derbyn Gofal rai pwyntiau penodol i’w gwneud. Roedd y materion a godwyd ganddynt yn ymwneud â’r ffaith nad oedd digon o wasanaethau i’w cefnogi y tu allan i’w gwasanaethau ‘prif ffrwd’, pryder ynghylch lefel yr arian poced roedden nhw’n ei dderbyn, sut gall newid gweithiwr cymdeithasol gael effaith negyddol, a beth maen nhw’n ei ddisgwyl gan rieni maeth:

...dydy pum punt yr wythnos ddim yn ddigon...

... (Dwi am gael) digon o arian poced i mi allu ei gynilo a gwneud beth dwi eisiau ag e

...all y gwasanaethau cymdeithasol ddim rhoi yswiriant i fi fynd ar go-cart, nac ar y reidiau yn Oakwood, mae hynny’n hurt...

Dwi’n gadael gofal mewn 9 mis ac maen nhw eisiau newid fy ngweithiwr cymdeithasol i’m symud i i’r tîm PDG. Dwi’n hoffi fy ngweithiwr cymdeithasol. Dwi ddim eisiau newid. Dyw hynny ddim yn gwneud synnwyr pan dwi’n hapus.

Dwi’n teimlo’n bod ni’n cael ein gwthio i adael gofal a byw’n annibynnol.

...dylai (gofalwyr maeth) fod fel rhieni. Dylen nhw wneud i fi deimlo fel rhan o’r teulu, ond dydyn nhw ddim yn dod i nosweithiau rhieni nac yn dod i weld y ddrama dwi ynnddi na diwrnod chwaraeon.

Os ydych chi’n derbyn gofal rydych chi’n cael eich labelu’n blentyn drwg.

Dydy’r rheiny sydd am fynd i Addysg Uwch ddim yn cael cyngor yn ddigon cynnar, hyd yn oed os yw’r syniad o AU yn codi.

Parch

Y mater mwyaf cyffredin a welwyd yn yr holl bwyntiau a wnaed oedd nad oedd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael gwrandawriad na’u cymryd o ddifri gan oedolion a phobl broffesiynol.

Symud Ymlaen

Ym 1997 cyhoeddodd Asiantaeth Ieuenctid Cymru ymchwil ar sut roedd y ddarpariaeth ieuenctid yng Nghymru yn cadw’r bobl ifanc yn rhan o’r hyn roedd yn ei wneud neu’n ei ddarparu. Roedd ymateb y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw yn cyfateb yn agos iawn i rai o’r negeseuon mae pobl ifanc yn dal i’w rhoi heddiw o ran cysylltiadau (rhywle i fynd), gweithgareddau (rhywbeth i’w wneud) a chyngor (rhywun i wrando). Mae cysondeb y negeseuon hyn oddi wrth bobl ifanc yn drawiadol ac yn haeddu sylw.

Pennod Tri:

Egwyddorion Allweddol Ymagwedd Aml-asiantaeth

Gwelir gwaith aml-asiantaeth gan lawer fel un o'r dulliau mwyaf effeithiol o gyflwyno a datblygu gwasanaethau newydd. Ac eto, yn aml iawn gall cymhlethdod ac anawsterau gwaith aml-asiantaeth o ran arfer beunyddiol achosi problemau. Ar draws De Cymru mae ymrwymïadau strategol ac ar lefel polisi i wneud gwaith aml-asiantaeth. Y prafw hanfodol yw i ba raddau caiff yr ymrwymïad hwnnw ei drosi'n arfer ymarferol. Yn rhy aml o lawer gall arfer a pholisi fod yn bell iawn oddi wrth ei gilydd.

Derbynnir yn gyffredinol bod manteision i waith aml-asiantaeth, a rhai o'r amlycaf yw cynhyrchu gwell gwerth am arian, lleihau dyblygu ymdrechion, cynyddu llif gwybodaeth rhwng asiantaethau, cytuno ar dargedau a datblygiadau ar y cyd, gwella cysylltiadau cwsmerïaïd a gwasanaethau, arddangos a chymhwyso'r arfer gorau. Yn gryno, cyflwyno gwell gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon i fwy o bobl.

Gall y canlyniadau negyddol y mae angen mynd i'r afael â nhw gynnwys oedi wrth wneud penderfyniadau, trafferthion wrth rannu gwybodaeth, anghydraddoldeb yn statws yr aelodau, a diffyg gweithredu o ran arfer wrth i bobl ddod at ei gilydd i gynnal cyfarfodydd heb wneud fawr ddim i newid arfer yn ymarferol.

Mae asiantaethau'n atebol o fewn eu trefniadau llywodraethu ac archwilio, ac mewn llawer o achosion gofynnir iddynt ddangos sut maent yn gwneud gwaith amlasiantaeth. Yn wir, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno achos dros weithio ar y cyd yn ei phapur *Creu'r Cysylltiadau*, ac mae gwaith aml-asiantaeth yn offeryn cyflwyno allweddol o fewn y weledigaeth a geir yn *Cymru: Gwlad Well* yn ogystal â bod yn amlwg yn *Cymru'n Ennill a'r Wlad sy'n Dysgu*.

Er bod Deddf Plant 2004 yn gosod y Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc mewn man canolog a statudol, nid yw rolau na chyfraniad holl bartneriaid allweddol eraill, yr asiantaethau perthnasol wedi cael eu hegluro. Mae angen, fel y nodwyd gan y rheiny a gyfrannodd at gyfnodau ymgynghori'r papur hwn, sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn cael eu cynnwys yn y modd mwyaf effeithiol a bod polisïau, mentrau a gwasanaethau perthnasol yn cael eu huno gan fframwaith cyffredin.

Rôl Asiantaethau Allweddol

Er nad yw'r tabl hwn yn darparu rhestr hollgynhwysol o asiantaethau unigol a all chwarae rhan, na chwaith yn gwneud cyfiawnder â holl gwmpas eu cyfraniadau, mae yn dangos hyd a lled y sgiliau a'r profiad a all gael eu cyfrannu i'r bartneriaeth.

Pwy	Beth maen nhw'n ei wneud	Sbardunau Trefniadol
Gwasanaethau Plant	Amddiffyn plant Plant sy'n derbyn gofal Eiriolaeth a chefnogaeth Mabwysiadu Maethu Asesu Plant mewn angen	Deddfau Plant 1989 a 2004. Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Cynlluniau Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol. Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau. Ymestyn hawliau. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Cytundebau Polisi. Awdurdodau Lleol ar gyfer cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Menter Plant yn Gyntaf. Deddf Plant (yn gadael Gofal) 2000, Rheoliadau Plant (yn gadael gofal) (Cymru) 2001.

Pwy	Beth maen nhw'n ei wneud	Sbardunau Trefniadol
		Strategaeth Gofal Plant Cymru: ar gyfer Plant mae Gofal Plant. Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.
Grwpiau Cymunedol	Gwybodaeth leol Cyfranogiad cymunedol	Hunan-les. Gwelliannau ansawdd bywyd. Cymunedau'n Gyntaf. Prosiectau adfywio cymunedol.
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Partneriaeth aml-asiantaeth. Goruchwyllo archwilio a strategaeth diogelwch cymunedol yn lleol, rhoi mentrau ar y cyd ar waith. Aelodaeth: Prif Gwnstabl, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, y Tim Troseddau Ieuencid, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Tân, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Sefydliadau Gwirfoddol. Mae'n cynnwys y Strategaeth ar gyfer Troseddwyr Blaenoriaeth a Thoreithiog, yn enwedig y llinyn Atal a Rhwystro.	Deddf Troseddu ac Anhrefn 1989 (Adran 17). Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Strategaeth a gyhoeddwyd yn lleol. Cyllido: asiantaethau cyfranogol unigol, y Swyddfa Gartref, Uned Diogelwch Cymunedol LICC. Cymorth grantiau o Ewrop a grantiau eraill. Taclo Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: ymagwedd partneriaeth. Fframwaith Trin Plant a Phobl Ifanc.
Gwasanaeth Addysg	Cyfeiriad strategol Cefnogaeth ac ymyrraeth yn ganolog Anghenion Addysgol Arbennig	Cynlluniau Strategol Addysg Awdurdodau Lleol Targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol, gwaharddiadau o ysgolion. Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau. Ymestyn Hawliau. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer Cymru. Deddf Addysg 2004 adran 175 – dyletswydd i hybu lles.
Gwasanaethau Amgylcheddol	Rheoli sŵn/llygredd Cael gwared ar graffiti. Goleuadau stryd a glanhau	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Cynllun Gofodol Cymru. Ymwybyddiaeth o Wastraff Cymru.



Pwy	Beth maen nhw’n ei wneud	Sbardunau Trefniadol
Gwasanaethau Tân ac Achub	Gwaith gyda phobl ifanc ar atal llosgi bwriadol	Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ODPM 05/06. Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub LICC ar gyfer Cymru. DPA ar leihau a chanlyniadau tanau damweiniol yn y cartref, lleihau nifer a chanlyniadau tanau bwriadol, lleihau nifer y canlyniadau neu’r damweiniau ar y ffordd.
Gwasanaethau Iechyd	Iechyd a lles corfforol ac emosiynol	Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru. Her Iechyd Cymru. Busnes Pawb. Strategaeth CAHMS.
Tai	Rheoli’r stoc tai Data/casglu gwybodaeth	Stoc tai. Lleihau tai gwag/ cynyddu meddiannaeth. Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Cynllunio: Cyflawni dros Gymru. Cynllun Gofodol Cymru. Gwell Cartrefi i Bobl Cymru. Strategaeth Ddigartrefedd Cymru 2006-08.
Canolfan Byd Gwaith	Gweithio gyda phobl i sicrhau cyflogaeth Budd-daliadau a chyngor ar fudd-daliadau Gwaith gyda chyflogwyr Rheoli data	Targedau’r Adran Addysg a Sgiliau a Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Gwasanaethau Hamdden	Rheoli canolfannau hamdden Parciau a mannau agored	Ymestyn hawliau. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau. Cynllun Gweithredu’r Polisi Chwarae – Chwarae yng Nghymru 2006. Her Iechyd Cymru. Cynllun Gofodol Cymru.
Yr Heddlu	Gorfodaeth, gwrthweithio terfysgaeth a throseddu trefniadol, cysylltiadau cymunedol a rhoi sicrwydd, arweinyddiaeth gymunedol	Amrywiol ddeddfwriaeth. Cynllun Plismona Lleol. Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Swyddfa Gartref.

Pwy	Beth maen nhw’n ei wneud	Sbardunau Trefniadol
	a chefnogaeth, atal troseddu, casglu gwybodaeth droseddol a chymunedol, canfod troseddau ac ymchwilio iddyn nhw, gwaith mewn ysgolion a chefnogi pobl ifanc, cyngor a chysylltiadau gydag asiantaethau eraill, datblygu partneriaeth.	Model Plismona Cymdogaeth.
Y Gwasanaeth Prawf	Cadw rheolaeth ar droseddwyr yn y gymuned	Gwasanaeth Cenedlaethol. Rheoli Troseddwyr. Ymestyn Hawliau.
Ysgolion	Cyflwyno’r cwricwlwm Addysg ac asesiadau cyrhaeddiad, gwaith gyda rhieni, contractau ymddygiad, clybiau ar ôl ysgol a brecwast, dinasyddiaeth, gwrthfwlio, hybu lles plant, addysg a dysgu Ysgolion Cymunedol	Deddf Plant 2004 Adran 175 dyletswydd i hybu lles. Ymgyrch Ysgolion Iach. Ymestyn Hawliau. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau Ymgyrch Brecwast Ysgol. Y Wlad sy’n Dysgu. Ysgolion yn eu Cymunedau. Dechrau’n Deg.
Y Sector Gwirfoddol	Gwybodaeth leol Annibyniaeth Mynediad i gyllid Arbenigedd	Trefniadau cytndebau lleol. Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau. Ymestyn Hawliau. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Cynllun Gofodol Cymru.
Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc	Gweithio gyda phobl ifanc Casglu gwybodaeth/data Rôl gomisiynu	Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau. Ymestyn Hawliau. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Gwella Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc: fframwaith ar gyfer partneriaeth.
Tim Troseddau Ieuencid	Nodi pobl ifanc sydd mewn perygl. Profiad o asesiadau risg, gweithio gyda phobl ifanc a throseddwyr ifanc	Deddf Troseddau ac Anhrefn. Strategaeth Troseddau Ieuencid Cymru Gyfan. Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Cynlluniau Cyfiawnder Ieuencid. Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau. Ymestyn Hawliau. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.



Pwy	Beth maen nhw’n ei wneud	Sbardunau Trefniadol
Gwasanaeth Ieuenctid	Gweithio gyda phobl ifanc y tu allan i oriau ysgol Gwaith annibynnol ac allgymorth	Y cwricwlwm gwaith ieuenctid. Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau. Ymestyn hawliau. Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Egwyddorion Allweddol Ymagwedd Aml-asiantaeth

At ddibenion y papur hwn, sy’n canolbwyntio’n bennaf ar gyflwyno gwasanaethau integredig a chefnogaeth i blant a phobl ifanc, mae’r model arfer a amlinellir ym Mhennod Pedwar isod yn nodi’r egwyddorion allweddol o ran gwaith mewn ardaloedd neu ar ystadau. Er y byddai’n rhaid addasu’r egwyddorion at yr amgylchiadau unigol, nid oes unrhyw reswm pam na ellid eu haddasu ar gyfer cymunedau trefol, lled-wledig, gwledig neu gymunedau’r cymoedd. Mae’n gweithio ar yr egwyddor bod datblygu ymagwedd integredig a chyfannol yn galw am ymagwedd eang mewn ardal ddaearyddol yn hytrach na ffocws unigol. Serch hynny, mae’n amlwg, fel y disgrifir ym Mhennod 5 isod, mae’r integreiddio rhwng gwasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol yn hanfodol os ydym i gynnal llwyddiant.

Model Arfer Cyfannol Integredig

Mae gwaith partneriaeth effeithiol a sefydlu model cyfannol integredig o gefnogaeth a gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn dibynnu ar i ba raddau y gellir cyflynu’r holl wasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol mewn unrhyw ardal benodol. Mae’n bwysig bod asiantaethau’n defnyddio’r un iaith a bod dealltwriaeth gyffredin o ystyr gwasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol.⁶

O ystyried ystod yr ymyriadau a’r asiantaethau (statudol, gwirfoddol ac annibynnol) sydd â diddordeb uniongyrchol neu anuniongyrchol yng nghyflwyniad y gwasanaethau hynny, daw maint y dasg o gydlynu’r gweithgaredd hwnnw, oddi mewn i ymagwedd gydlynus a chyfannol, i’r amlwg.

Mae’r papur hwn yn dadlau mai’r unig ffordd ystyrlon o fynd ati i wneud hynny yw dull aml-asiantaeth, gan sicrhau cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc, oddi mewn i ffin ddaearyddol benodol. Dylid canolbwyntio ar gyflwyno gwasanaethau cyffredinol, gan ddefnyddio gwasanaethau wedi’u targedu ac unigol yn ôl y galw. Mewn llawer o achosion bydd hyn yn gwyrddio’r trefniadau presennol, sy’n blaenoriaethu ymyriadau arbenigol neu argyfwng, weithiau ar draul gwasanaethau cyffredinol.

Mae’r papur hwn yn rhagdybio rhoi blaenoriaeth i gysylltu ag unigolion a grwpiau risg uchel, a gweithio gyda nhw, neu gyda’r rhai anoddaf i’w cyrraedd, neu’n nad ydynt yn creu cysylltiadau yn yr ysgol, mewn clwb ieuenctid, neu mewn darpariaeth strwythuredig arall yn eu hamser hamdden. Mae hefyd yn rhagdybio bod ymagwedd partneriaeth ddaearyddol yn dymuno cydlynu ac integreiddio cyflwyniad yr holl wasanaethau a phrosiectau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Rhaid sicrhau mai’r prif nod yw llunio gwahanol ymagweddau sydd wedi’u cyflunio at bob ardal neu gymuned. Mae ymagwedd ar sail anghenion yn galw am fwy o ymdrech, ond ceir mwy o ganlyniadau yn sgîl hynny nag o ymagwedd sydd yn syml yn ceisio atgynhyrchu rhywbeth sydd wedi gweithio’n dda mewn man arall.

Pennu Ardal neu Ffin ar gyfer y Gwaith

Gall fod nifer o ffactorau (gweler *risg a ffactorau amddiffynnol* isod) sy’n golygu bod cymdogaeth, ystâd neu ardal benodol yn safle amlwg ar gyfer mabwysiadu ymagwedd y model. Mae ffactorau eraill hefyd, megis edrych ar waith a gyflawnwyd eisoes.

Mae rhai ardaloedd bron â bod wedi syrffedu ar fentrau os ydynt wedi bod yn destun amrywiaeth o raglenni newydd neu ymagweddau peilot. Mae’n bwysig cofio bod y model hwn yn ymwneud â sicrhau newid tymor hir, felly gallai fod yn synhwyrol cychwyn drwy ystyried sut gellir ailgyflunio gwasanaethau ac adnoddau presennol i gynnig ymagwedd fwy integredig a chyfannol at wasanaethau plant a phobl ifanc.⁷ Wrth ystyried y materion sy’n codi o ran ailgyflunio gwasanaethau presennol, mae’n bwysig sylweddoli y gall fod angen rhyw fath o adnodd neu arian sefydlu i sicrhau bod gwasanaethau presennol yn cael eu cynnal wrth i drefniadau fynd yn eu blaen i addasu cyflwyniad gwasanaethau yn y dyfodol.

Ardaloedd Clystyrau Ysgolion

Un ffordd o fynd ati i bennu ardal ddaearyddol yw ystyried defnyddio ardal glwstwr yr ysgol uwchradd leol (gan gwpasu’r ysgolion cynradd a iau sy’n ei bwydo) fel ffin, gyda’r ysgol ei hun yn ganolbwynt i’r model cyflwyno. Y system ysgol yw’r unig wasanaeth sy’n dod i gysylltiad â phob plentyn a pherson ifanc mewn ardal. Mae ysgolion yn cynnig cyfle neu leoliad dihafal i wasanaethau statudol a gwirfoddol ddod at ei gilydd ac ystyried sut gall eu darpariaeth gyffredinol, wedi’i thargedu ac unigol weithio’n fwyaf effeithiol. Er na fyddai safleoedd ysgolion o reidrwydd yn or-ddeniadol fel lleoliadau ar gyfer rhai gweithgareddau a fwriadwyd ar gyfer y bobl anoddaf i’w cyrraedd, gellir defnyddio safle ysgol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau wedi oriau ysgol, yn ogystal â darparu canolbwynt o ran arfer beunyddiol a gweinyddol ar gyfer cydlynu gwaith aml-asiantaeth. Ni fydd hyn o reidrwydd yn ychwanegu at y baich ar staff addysgu yn yr ysgolion nac yn creu rhagdybiaeth mai’r pennaeth lleol ddylai gydlynu’r gwaith. Mae’n syml yn adlewyrchu’r sefyllfa mewn llawer o gymunedau, lle mae’r ysgol leol yn ganolbwynt bywyd y gymuned neu’n meddu ar y potensial i ddatblygu felly. Yn wir, mae’n bosib y byddai rheolwr penodedig ar gyfer prosiect y clwstwr neu gydlynnydd sydd â’r gallu i ganolbwyntio ar gyflawni pethau yn fwy llwyddiannus.

Ymagwedd Hyblyg

Wrth ddisgrifio ymagwedd ddaearyddol nid bwriad y papur yw negyddu gwerth ymagweddau eraill. Y mae cymunedau angen annaearyddol, wrth gwrs, megis plant ag anableddau a’r rheiny ag anghenion ieuchyd meddwl. Gallai ardaloedd clystyrau ysgol hefyd fod yn anaddas ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi’u gwahardd o addysg brif ffrwd neu o’r rheiny sydd y tu allan i’r oed ysgol statudol. Serch hynny, wrth ymgynghori ar y papur hwn, roedd yr adborth a dderbyniwyd yn dangos yn amlwg bod llawer o fanteision i’r model clystyrau ysgol. Yr hyn sy’n hanfodol yw sicrhau nad yw mabwysiadu ymagwedd ddaearyddol at ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc heb gadw peth hyblygrwydd i dargedu cymunedau angen annaearyddol.

Ffactorau Risg ac Amddiffynnol

Er mwyn pennu sut mae angen cyflunio gwasanaethau a deall pa fylchau sy’n bodoli mewn gwasanaethau mae’n bwysig archwilio’r risg a’r ffactorau amddiffynnol sy’n bodoli yn y gymuned lle rydych yn gweithio. Mae’r gwaith ar risg a ffactorau amddiffynnol a ddatblygwyd gan Communities that Care (CtC) UK yn darparu model defnyddiol ar gyfer ceisio nodi’r ffactorau risg sy’n bresennol, a’r ffactorau amddiffynnol y mae eu hangen i leddfu’r risg. Y prif ffactorau risg ac amddiffynnol y mae CtC yn eu targedu yw:

Ffactorau Risg ac Amddiffynnol CtC UK⁸

Ffactorau risg teuluol:

- Goruchwyliaeth a disgyblaeth wael gan rieni
- Gwrthdaro teuluol
- Hanes o ymddygiad trafferthus yn y teulu
- Cyfranogiad rhieni/eu hagweddau o ran goddef ymddygiad trafferthus
- Incwm isel a thai gwael

Ffactorau risg yn yr Ysgol:

- Cyflawniad isel, yn cychwyn yn yr ysgol gynradd
- Ymddygiad ymosodol, gan gynnwys bwllo
- Diffyg ymrwymiad, gan gynnwys triwariantiaeth
- Diffyg trefniadaeth yn yr ysgol

⁶ Gweler Pennod Pump isod.

⁷ Gweler Pennod Pump isod.

⁸ Addaswyd o Communities that Care UK *A Guide to Promising Approaches* (Ail Argraffiad) 2005.



Ffactorau risg Cymunedol:

- Cymdogaeth ddifreintiedig
- Diffyg trefn yn y gymuned ac esgeulustod
- Argaeledd cyffuriau
- Trosiant uchel a diffyg ymlyniad â’r gymdogaeth

Ffactorau risg sy’n ymwneud ag unigolion/ffrindiau/cyfoedion:

- Ymddieithrio a diffyg ymrwymiad cymdeithasol
- Agweddau sy’n goddef ymddygiad trafferthus
- Cyfranogiad cynnar mewn ymddygiad trafferthus
- Cyfranogiad cyfeillion mewn ymddygiad trafferthus

Mae’r ffactorau amddiffynnol mae CtC yn eu nodi’n cynnwys:

Ymddygiad iach – annog y mathau o ymddygiad a fydd yn helpu pobl ifanc i ddod yn oedolion iach a chyfrifol yn y gymuned.

Safonau clir – mae pobl ifanc yn fwy tebygol o ymddwyn yn iach, ac yn gymdeithasol gyfrifol pa fo rhieni, athrawon a’r gymuned o’u hamgylch yn gosod safonau clir. Mae angen cymhwyso’r rhain yn gyson, gyda chanlyniadau clir ar gyfer ymddygiad annerbyniol.

Bondio cymdeithasol – bydd cysylltiadau neu berthnasoedd cryf gyda’r rheiny sy’n gosod safonau clir yn darparu ysgogiad i bobl ifanc fabwysiadu’r safonau hynny drostynt eu hunain. Mae plant sy’n creu cysylltiad agos â’u teuluoedd a’u ffrindiau ac ymdeimlad o ymrwymiad i’w hysgolion a’u cymunedau â diddordeb personol mewn osgoi ymddygiad gwrthgymdeithasol a fyddai’n peryglu’r perthnasoedd hynny.

Prosesau amddiffynnol – mae bondio’n fwyaf tebygol pan fydd gan blant:

- **Gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad** – fel eu bod yn teimlo eu bod yn cymryd rhan ac yn cael eu gwerthfawrogi
- **Sgiliau cymdeithasol a dysgu** – manteisio’n llawn ar y cyfleoedd sy’n cael eu cynnig
- **Cydnabyddiaeth a chlod** – sicrhau bod cyfraniadau ac ymddygiad positif yn cael eu cydnabod, gan eu hannog i barhau.

Yn ei waith ar atal troseddau datblygiadol,⁹ mae Ross Homel o Brifysgol Griffith yn Awstralia’n edrych ar drefniadaeth a darpariaeth adnoddau a sut gall y rhain atal troseddau a phroblemau eraill ar gyfer unigolion, teuluoedd, ysgolion a chymunedau. Mewn erthygl ddiweddar mae’n disgrifio pa mor effeithiol y gall gwaith ar risgiau a ffactorau amddiffynnol fod, gan ddweud:

Mae ymchwil i ffactorau risg yn hynod o ddefnyddiol am ei bod yn ein cyfeirio at rai o nodweddion penodol plant, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau sy’n fwyaf tebygol o ymwneud â throseddau ieuencid a phroblemau eraill. Her ymchwil o’r fath yw gweddnewid ecoleg datblygiad dynol fel bod y systemau a’r cyd-destunau cymdeithasol y mae plant a phobl ifanc yn tyfu i fyny oddi mewn iddynt yn cael eu cryfhau, yn hytrach na’u tanseilio.

Bydd hyn yn galw am lawer mwy nag ymatebion i anghenion plant a niweidiwyd gan deuluoedd diofal neu dreisgar neu y mae byw mewn cymunedau dan anfantais wedi gadael ei ôl arnynt – er bod ymatebion o’r fath yn hollbwysig. Cynnyrch arfer sefydliadol a threfniadau cymdeithasol sy’n bytholi ac yn mwyhau anghydraddoldeb yw tlodi, amgylchiadau teuluol dryslyd, a phlant sydd wedi’u niweidio. Yn fy marn i, ystyr ataliaeth yw mynd i’r afael â’r mynegiant hwn o baradocs moderniaeth.¹⁰

Yn Ne Cymru, comisiynodd y Grŵp Arweinyddiaeth Trosgynnol adolygiad llenyddiaeth a phapur ymchwil ar y negeseuon allweddol o ran ymyrraeth ataliol gyda phlant 4 i 11 oed. Dengys y papur ymchwil hwn fod:

Mae’r llenyddiaeth yn cyflwyno darlun rhyfeddol o gyson y gall ymyrraeth gynnar gyda phlant yn y grŵp oedran canolig hwn (a’u teuluoedd) wedi’i thargedu at leihau ffactorau risg a nodwyd a chryfhau ffactorau amddiffynnol gael effaith gadarnhaol ar ymddygiad trafferthus, presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad, a hefyd wella cyfleoedd bywyd plant sydd mewn perygl...Un o’r negeseuon cyson yw mai’r model mwyaf effeithiol yw cefnogaeth hyblyg wedi’i thargedu a ddarperir oddi mewn i fframwaith o wasanaethau cyffredinol wedi’u seilio ar bartneriaethau rhyngasiantaeth cadarn¹¹.

Plant a Phobl Ifanc a’u Teuluoedd

Yng nghyfnod ymgynghori’r adroddiad hwn pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen am edrych yn benodol ar y ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar, chwarae plant, rôl magu plant a chefnogaeth i deuluoedd a manteision ymyrraeth gynnar. Gallai neu dylai ystod o ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar mewn unrhyw leoliad penodol gynnwys:

- Darpariaeth meithrinfa ddydd neu ofal plant
- Cyfleusterau chwarae a chyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc chwarae
- Cefnogaeth magu plant
- Cyngor a chymorth ieuchyd a lles
- Cefnogaeth i blant a’u teuluoedd ar adegau pontio allweddol (o’r meithrin i’r cynradd, ysgolion iau ac uwchradd)

Amrywiaeth

Mae De Cymru’n elwa o ehangder y cymunedau diwylliannol, ieithyddol a ffydd ar draws yr ardal. Wrth weithio gyda chymunedau, ac o fewn unrhyw ardal ddaearyddol, mae’n bwysig sicrhau bod y gwaith yn sensitif i anghenion ieithyddol a diwylliannol.

Mae llawer wedi’i ysgrifennu a llawer o ddadlau wedi bod ynghylch y ‘gagendor’ sydd fel petai’n cynyddu’n barhaus rhwng y plant a’r bobl ifanc ‘leiafrifol’ a’r boblogaeth hŷn sydd yn y ‘mwyafrif’, yn enwedig y rheiny sy’n cynrychioli’r ‘sefydliad’ neu ‘awdurdod’.

Dyna’r rheswm pam cyfeirir at blant a phobl ifanc yn aml fel grŵp anodd ‘i gysylltu â nhw’, a gallant brofi rhagfarn, gwahaniaethu a stereoteipio. Fel y cyfeirir ar hyd y papur hwn, mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn elfen allweddol yn y model. Wrth wneud hyn mae’n bwysig ei gyflawni drwy gydnabod a gosod gwerth ar amrywiaeth diwylliant pobl ifanc ac ymateb yn briodol i’w hanghenion.

Mae cymdeithas wedi dod yn llawer mwy agored yn y degawdau diwethaf o ran deall a thrafod hawliau cymunedau ethnig lleiafrifol, diwylliannau, a grwpiau lleiafrifol eraill.

Mae rhai agweddau ar iaith neu arferion gwahaniaethol neu amhriodol a oedd o bosib yn cael eu derbyn gan fwyafrif y boblogaeth, oedd yn wyn yn bennaf, rai blynnyddoedd yn ôl, bellach yn cael eu cydnabod yn briodol gan y rhan fwyaf o bobl fel elfennau anaddas mewn cymdeithas fodern a chyfartal.

Er ein bod yn byw mewn byd mwy ‘ymwybodol’, mae rhagfarn, hiliaeth, ac anoddefgarwch yn llawer rhy amlwg, gwaetha’r modd. Mae digwyddiadau diweddar ar draws y byd ac yn y DU wedi amlygu’r rhaniadau hiliol, crefyddol a ffydd sy’n bodoli, weithiau gyda chanlyniadau difrifol. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys y problemau yn sgîl y rhaniadau hyn yw creu mwy o oddefgarwch a dealltwriaeth trwy addysg a gwybodaeth. Mae ein plant a’n pobl ifanc yn tyfu i fyny yng nghanol adroddiadau mynych am anghydfod o’r fath. Byddant wrth gwrs yn trafod yr hyn sy’n digwydd ac yn dod i farn a fydd yn effeithio ar eu hagweddau a’u gwerthoedd.

Mae cyfle’n bodoli, o fewn y model hwn, i sicrhau bod datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth a manteision gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau diwylliannol ac eraill yn flaenoriaeth uchel. I gyflawni hyn, rhaid sicrhau llinyn amrywiaeth cadarn ym mhob agwedd ar y model, a rhaid iddo chwilio’n barhaus am gyfleoedd addysgol neu ddysgu sefyllfaol ar gyfer y rheiny sydd dan sylw.

Mae hwn wedi bod yn faes anodd i lawer o sefydliadau sy’n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn rhai ardaloedd. I’r diben hwn dylid defnyddio pobl sy’n arbenigwyr ym maes amrywiaeth wrth ystyried y rheiny sy’n arwain ar agweddau o’r model. Gyda’u cymorth nhw gellir amlygu’r cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu amrywiaeth a’u gwneud yn weithgareddau prif ffrwd, gyda dangosyddion perfformiad neu ganlyniadau arfer yn cael eu hychwanegu fel sy’n briodol.

Anwybodaeth yn aml sy’n achosi hiliaeth a mathau eraill o ragfarn yn y bôn. O roi ffocws priodol ar amrywiaeth ar hyd y model hwn bydd manteision ehangach a mwy cynaliadwy i’n cymunedau wrth i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd, rhannu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, goddefgarwch a pharch.

⁹ Gweler y Llyfryddiaeth am ddarllen pellach.

¹⁰ *The Puzzles and Paradoxes of Youth Crime Prevention*. Erthygl gan Ross Homel, Athro Sylfaen Troseddiaeth a Chyfiawnder Troseddol ym Mhrifysgol Griffith, Brisbane, Awstralia, yng nghylchgrawn *Safer Society* Nacro, Gaeaf 2005.

¹¹ *Preventative Intervention with 4-11 year olds: Key Messages from Research*. Red Kite Research and Consultancy, Tachwedd 2005. Comisiynwyd gan OLG De Cymru.

Cyfranogiad Gweithredol Plant a Phobl Ifanc

Dylai cyfranogiad gweithredol geisio gweithio i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ran yn nyluniad a chyflwyniad yr holl wasanaethau yn eu hardal. Ai tuedd naturiol pobl ifanc yw dweud *I'm not bothered – do I look bothered?*¹² oherwydd mai dyna’u safbwynt gwirioneddol, neu ydyn nhw heb arfer ag oedolion yn cymryd diddordeb gwirioneddol yn yr hyn sydd ganddyn nhw i’w ddweud? Mae problem hefyd o ran sut mae oedolion yn ymateb i ddull plant a phobl ifanc o fynegi’u hunain. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd oedolion yn deall yn llawn yr iaith a ddefnyddir neu’r ystyr a roddir i rai geiriau. Er enghraifft, mae’r geiriau *bad* neu *wicked* yn Saesneg pobl ifanc yn disgrifio rhywbeth cadarnhaol a da.

Dylai cyfranogiad gweithredol roi teimlad i bob person ifanc bod eu barn yn bwysig ac y byddant yn cael gwrandawriad. Mae hyn yn gwbl wahanol wrth gwrs i’r rhagdybiaeth y bydd cyflwyno barn gan berson ifanc yn ddigon i sicrhau cytundeb neu weithredu ar y farn honno ym mhob achos. Mae dimensiwn arfer effeithiol yma a ddylai weithio tuag at ddealltwriaeth pobl ifanc o sut deuir i gytundeb a sut mae democratiaeth yn gweithio ar sail ystyried pob barn. Bydd cyfranogiad gweithredol pobl ifanc yn cyfoethogi datblygiad ffyrdd newydd o weithio ac yn hybu dinasyddiaeth weithredol a chadarnhaol.

Tri Dimensiwn Allweddol i Gyfranogiad Gweithredol:

- 1. Cyfranogiad ar wahanol lefelau o’r sefydliad** – er enghraifft, gall pobl ifanc gymryd rhan mewn:
 - Grŵp sy’n diffinio safonau ansawdd neu’n dylunio gwasanaeth newydd (lefel strategol)
 - Llunio cylchlythyr neu ddethol staff (lefel weithredol)
 - Cynllunio’u datblygiad personol (lefel bersonol)
- 2. Y dimensiwn pŵer** - ar ba lefel bynnag o’r sefydliad maen nhw’n gweithio, mae cyfleoedd i chwarae rhan ar amrywiaeth o lefelau o bŵer a chyfrifoldeb. Er enghraifft, wrth lunio gwasanaeth newydd, gallai pobl ifanc fod (yn nhrefn ostyngol pŵer a chyfrifoldeb):
 - Yn bersonol gyfrifol am agweddau penodol ar y dyluniad
 - Yn rhan o weithgor sy’n penderfynu ar gylch gorchwyl y gwasanaeth newydd
 - Yn cysgodi oedolyn ar agwedd benodol o ddatblygiad y gwasanaeth
 - Yn cymryd rhan mewn arolwg ar yr angen am y gwasanaeth newydd
- 3. Y dimensiwn gweithredol-oddefol** – mae rhai dulliau cyfranogiad, er enghraifft, grwpiau ffocws, yn fwy gweithredol a diddorol yn eu hanfod nag eraill, megis llenwi holiaduron. Mae sefydliadau a phobl ifanc yn debyg o gael mwy o fudd o ddulliau cyfranogiad **gweithredol**.

13

Yn amlwg ni fydd pob person ifanc am chwarae rhan ar y lefel uchaf neu ddwysaf, ond i’r rheiny sydd am wneud hynny bydd angen llawer o waith i baru eu sgiliau, eu diddordebau a’u potensial â phrosiect neu ddull gweithio penodol. Mae hyn yn golygu bod angen i bob sefydliad partner gofleidio’r dull gwaith hwn er mwyn darparu amrywiaeth o gyfleoedd a’u rheoli’n effeithiol ar y cyd.

Mae tri phrif fuddiolwr yn sgîl cyfranogiad gweithredol:

Mae Plant a Phobl Ifanc eu hunain yn caffael cyfleoedd i:

- Ddysgu amdanynt eu hunain a sut brofiad yw derbyn cyfrifoldeb.
- Datblygu sgiliau newydd yn benodol yng nghyswllt y prosiect, ond hefyd o ran gweithio mewn tîm, sut i gyfathrebu’n effeithiol mewn amrywiaeth o leoliadau.
- Gall sgiliau newydd arwain at dderbyn cyfleoedd addysg a hyfforddiant na fuasai’n bosib yn y gorffennol.
- Mwy o hunan-barch, hyder, hunanymwybyddiaeth a meithrin ymdeimlad o berthyn i’r gymuned leol.
- Datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfoedion, mentoriaid ac aelodau hŷn o’r gymuned.

Mae asiantaethau’n elwa o ddealltwriaeth fwy manwl o’r bobl ifanc maen nhw’n gweithio gyda nhw ac ar eu rhan, gan gynnwys:

- Deall eu lefelau amrywiol o angen a’u dyheadau.
- Dod â phersbectif newydd i *hen* broblemau.
- Dod i well dealltwriaeth o sut brofiad yw derbyn gwasanaeth, a sut gellid cyflwyno neu ddatblygu’r gwasanaeth hwnnw’n well.
- Gweithio gyda phobl ifanc i ddeall pa rwystrau maen nhw’n eu canfod i gyrchu gwasanaethau a sut gellid gwneud y gwasanaethau hynny’n fwy deniadol.

Byddai’r gymuned yn elwa petai pobl ifanc yn defnyddio’r sgiliau maent newydd eu caffael a’u dinasyddiaeth weithredol i:

- Wella’r amgylchedd ffisegol
- Datblygu gwasanaethau newydd
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau wrth i bobl ifanc chwarae mwy a mwy o ran mewn gweithredoedd cadarnhaol.

Mae nifer o ddulliau ac ymagweddau a werthuswyd ar gyfer mynd ati i gynnwys pobl ifanc ac i gyrraedd y bobl ifanc ar y cyrion neu’r rhai anoddaf i’w helpu.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch:

Anna Skeels
Uned Cyfranogiad
Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru
d/o Amddiffyn y Plant
2il Lawr
Tŷ Ffenics
8 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ
Rhif ffon: 029 2039 6838
Ebost: a.skeels@savethechildren.org.uk

¹² Dyfyniad o The Catherine Tate Show. Teledu’r BBC. Awst 2005
¹³ Addaswyd o ddarn o waith yn *The Active Involvement of Young People in Developing Safer Communities*. Y Swyddfa Gartref, Yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol, Government Office for the West Midlands. Mawrth 2002



Rhai Ystyriaethau Ymarferol – Trosolwg o Gyfranogiad Gweithredol		
Pobl Ifanc	Goblygiadau hynny i asiantaethau	Awgrymiadau
Angen gwybod beth ddisgwylir ganddynt a pham mae eu cyfranogiad yn bwysig.	Mecanweithiau ar gyfer cyrraedd pobl ifanc – yn enwedig y rheiny sy’n anoddaf i’w helpu.	- Dysgu oddi wrth eraill sydd wedi ymdrechu. - Symud ymlaen ar sail sicrhau perthynas wirfoddol – bod yn amyneddgar a gweithio ar gyflymdra’r bobl ifanc. - Nodi ble mae pobl ifanc yn ymgynnull neu’n cwrdd a defnyddio gwaith annibynnol ac allgymorth. - Datblygu rhwydweithiau cyswllt a gweithio gyda chydweithwyr ac aelodau o’r gymuned. - Cysylltu ag asiantaethau arbenigol (e.e. y rheiny sy’n gweithio gyda’r digartref). - Defnyddio cynllun clir, lliwiau llachar a dyluniad da ar gyfer deunydd wedi’i argraffu. - Defnyddio’r rhyngrwyd a’r e-bost. - Defnyddio negeseuon testun i gadw mewn cysylltiad.
	Gwneud gwybodaeth yn ddeniadol i bobl ifanc	- Gosod rhai rheolau sylfaenol ar gyfer cyfranogiad - Ystyried cylchlythyron fideo. - Cyfoedion a mentoriaid i siarad â phobl ifanc am gyfleoedd a gweithgareddau. - Egluro’r disgwyliadau o’r ddeutu. - Cytuno ar amcanion a dulliau gwaith. - Esbonio’r ffiniau. - Cytuno ar faterion sy’n agored i’w trafod.
Angen medru cymryd rhan	Sicrhau nad oes unrhyw rwystrau	- Archwilio polisi a gweithdrefnau. - Darparu sesiynau briffio i staff ac uwch-reolwyr ar fanteision cyfranogiad gweithredol. - Sicrhau bod gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol cyfredol ar gyfer yr holl staff sy’n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc.
	Edrych ar broffil ieithyddol y gymuned	Sicrhau bod proffil staff a gwirfoddolwyr yn cyfateb i gyfraddau’r Gymraeg, y Saesneg a’r ieithoedd eraill a siaredir yn y gymuned.
	Edrych ar ethnigrwydd y gymuned leol	- Sicrhau bod y gwaith yn ystyried anghenion cymunedau ethnig. - Sicrhau bod y gwaith yn digwydd ar adegau nad ydynt yn gwrthdaro â digwyddiadau diwylliannol neu ddefodau crefyddol.

Pobl Ifanc	Goblygiadau hynny i asiantaethau	Awgrymiadau
	Helpu’r rheiny ag anawsterau dysgu	- Estyn yr amrywiaeth o fformatau ar gyfer darparu gwybodaeth. - Darparu dulliau cyfathrebu i helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau hunan-ddysgu – symud ymlaen o ofalu i ymagwedd sy’n galluogi ac yn grymuso pobl ifanc i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. - Defnyddio cefnogwyr cyfoedion. - Cadw cofrestr o asiantaethau gwirfoddol ac eraill sy’n gallu cynorthwyo mewn gwaith gyda phobl ifanc ag anawsterau dysgu.
	Helpu’r rheiny ag anawsterau corfforol neu seicolegol	- Darparu cludiant yn ôl y galw. - Darparu cefnogaeth gofal plant ar gyfer rhieni ifanc. - Dileu rhwystrau (rampiau ar gyfer grisiau, er enghraifft). - Gwneud lleoliadau mor groesawgar â phosib. - Cynnal cyfarfodydd a gweithgareddau y tu allan i oriau swyddfa ac ar adegau cyfleus neu pan fo angen gwirioneddol amdanynt (gyda’r hwyr, ar benwythnosau, yn ystod gwyliau’r ysgol) - Os oes gan bobl ifanc gysylltiadau neu brofiadau negyddol o’r ysgol neu leoliad arall ar gyfer cyfarfod neu weithgaredd, defnyddio tir newydd neu niwtral.
Angen deall pa fudd ddaw iddyn nhw o gyfranogi’n weithredol	Defnyddio arfer gwrth-ormesol	- Sylweddoli bod gennych bŵer fel asiantaeth neu oedolyn - bod yn barod i rannu’r pŵer hwnnw. - Sylweddoli y bydd angen i bobl ifanc o gyrion y gymdeithas deimlo croeso – mae’r gwasanaeth yn eu cefnogi. - Dysgu adnabod a herio syniadau a phrosesau (ynoch eich hun, mewn unigolion ac asiantaethau eraill) sy’n cyfrannu at stereoteip (materion rhyw, dosbarth, hil a rhywioldeb), labelu, beio, gwadu a/neu ddiffyg gweithredu. - Sylweddoli bod rhai bywydau ifanc yn ddryslyd yn ogystal â chymhleth.

Pennod Pedwar: Y Model Arfer – Gwneud Gwahaniaeth

Pobl Ifanc	Goblygiadau hynny i asiantaethau	Awgrymiadau
	Gwneud cyfranogiad yn ddifyr ac yn hwyl	
	Gwneud cyfranogiad yn werth chweil	- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwaith ieuenctid (gwaith grwpiau, cwisiau, gweithdai rhyngweithiol, celf a chrefft, mecaneg ceir, gweithdai cerddoriaeth). - Sbardunau eraill (hyfforddiant diogelwch personol, gwobrau – teithiau, talebau, sinema, cyngerddau pop etc). - Gweithio ar ddod o hyd i unigolyn allweddol (oedolyn neu un o’u cyfoedion) y gall y person ifanc ddysgu ymddiried ynddynt (byddwch yn amyneddgar), rhywun a fydd yn gwrandao, a fydd yn parchu eu barn, sydd â synnwyr digrifwch, ac sy’n gallu helpu i gael mynediad i gymorth ac arweiniad pellach. - Peidio ag addo mwy nag y gallwch ei roi – peidiwch â gosod nodau anymarferol. - Cyflawni rai <i>llwyddiannau cyflym</i> drwy weithredu ar rywbeth sy’n sicrhau canlyniad ar unwaith drwy gyfranogi. - Rhoi cyhoeddusrwydd i dystiolaeth (monitro) ar sut gall cyfranogiad pobl ifanc wneud gwahaniaeth gwirioneddol i’w bywydau. - Dathlu pob llwyddiant.
	Gwrthweithio teimladau neu agweddau negyddol	

Mae Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn gweithio i adeiladu gallu o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae Safonau Cenedlaethol Drafft ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn cael eu paratoi fel bod modd i:

- Blant a phobl ifanc wybod beth i’w ddisgwyl o chwarae rhan.
- Sefydliadau wirio eu bod yn gweithio yn y ffordd iawn i gynnwys plant a phobl ifanc.
- Sefydliadau fesur beth sydd wedi newid oherwydd bod plant a phobl ifanc wedi chwarae rhan yn eu gwaith.

Mae chwe cham allweddol i sicrhau gwaith effeithiol ar y cyd:

- Sicrhau bod y Ffeithiau’n Gywir
- Gweithio mewn Partneriaeth
- Cyfranogiad Gweithredol Pobl Ifanc
- Cynnwys y Gymuned Leol
- Cytuno ar Gynllun Lleol a’i roi ar waith
- Adeiladu ar Lwyddiant – Monitro a Gwerthuso

Sicrhau bod y Ffeithiau’n Gywir

Targed, ardal, cymdogaeth neu gymuned	- Bod yn eglur ynghylch pam mae’r ardal yn ffocws ar gyfer y fenter. - Diffinio’r ardal lle rydych yn gweithio. - Ydy pob asiantaeth sy’n rhan o’r cynllun wedi cytuno i gydweithio?
Casglu gwybodaeth gywir i greu llinell sylfaen ar gyfer mesur cynnydd.	- Dylai pob asiantaeth fedru rhannu gwybodaeth am faterion a phroblemau rydych yn ceisio’u datrys (troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwahardd o’r ysgol, diffyg cyfleusterau neu wasanaethau i bobl ifanc). - Adolygu unrhyw archwiliadau presennol (e.e. archwiliadau troseddu ac anhrefn, ymgynghori gyda phobl ifanc) i osgoi dyblygu gwaith blaenorol. - Pa fylchau sydd yn eich gwybodaeth – sut byddwch chi’n eu llenwi?
Gwasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol	A oes modd edrych ar y cysylltiad ymarferol rhwng y tair set yma o wasanaethau? Allwch chi nodi bylchau gwasanaeth neu feysydd lle nad yw’r gwasanaethau sy’n cael eu cynnig yn cyrraedd pobl ifanc?
Cynhyrchu dadansoddiad o’r sefyllfa bresennol	Cyhoeddi adroddiad ar y cyd yn amlinellu dadansoddiad o’r ardal, y gwasanaethau sy’n cael eu cynnig, a’r bylchau rydych chi’n eu gweld.



Gweithio mewn Partneriaeth

Arweinyddiaeth a chyfeiriad	- Ydy'r holl brif swyddogion perthnasol yn gefnogol? - Sut gellir derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? - Ydy'r gwaith yn cael ei gefnogi gan aelodau etholedig lleol? - Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried pwy fydd yn cadeirio neu'n cydlynu'r gwaith ar ran y prif swyddogion a sut gwneir adroddiadau cynnydd. - Ydy'r gwaith yn symud ymlaen gyda chefnogaeth weithredol uwch-reolwyr a rheolwyr canol (rhoi amser i staff gyfranogi)?
Egwyddor rhoi a derbyn	- Wrth gytuno ar sut i ymdrin â phroblemau a materion a/neu ddatblygu gwasanaethau newydd neu well gall gwrthdaro godi rhwng asiantaethau. Sut cyfryngir yn yr achosion hyn? Gallai cyflogi cadeirydd annibynnol i helpu i ddatrys pethau fod o ddefnydd. - Gall cyfnewid gwybodaeth fod o gymorth.
Statws yr holl bartneriaid	Mae'n hollbwysig bod pob asiantaeth sy'n bartner, boed y rheiny'n statudol, yn breifat, yn wirfoddol, yn gymunedol, neu'n gynrychiolwyr unigol yn mynychu ac yn meddu ar statws cydradd o fewn y bartneriaeth. A yw pob asiantaeth yn cefnogi hyn, yn enwedig y cyrff statudol, ac a yw eu harweinyddiaeth yn cydnabod hyn fel un o egwyddorion allweddol cydweithio'n effeithiol?
Paru Dangosyddion Perfformiad Allweddol unigol	Drwy rannu gwybodaeth am DPA asiantaethau byddant yn deall ei gilydd yn well a gallai cydweithio helpu pob asiantaeth i gyflawni'i hamcanion ar y cyd.
Nodi amcanion cyffredin	Gall amcanion cyffredin arwain at gydweithio cadarnhaol.

Cyfranogiad Gweithredol Plant a Phobl Ifanc

Gwelir cyfranogiad gweithredol fel elfen allweddol	- Mae'r gwaith yn cofleidio'r cysyniad o orfod bod yn atebol i bobl ifanc a gweithio gyda nhw ac ar eu rhan. - Mae pobl ifanc eu hunain yn gweld bod eu cyfranogiad yn allweddol i gyflawni atebolrwydd llawn.
Cydnabyddir amrywiaeth pobl ifanc	- Mae cyfranogiad gweithredol yn golygu bod anghenion, dyheadau a diddordebau pob person ifanc yn cael eu hystyried. - Estynnir cydraddoldeb mynediad i gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad i bob plentyn a pherson ifanc yn yr ardal. - Llunnir cyfranogiad gweithredol yn y fath fodd ag i ganiatáu i bobl ifanc chwarae rhan mewn gwahanol ffyrdd, ac ar lefel a chyflymdra addas ar gyfer eu diddordeb a'u gallu.
Gosodir gwerth ar bobl ifanc	- Gwrandewir ar bobl ifanc a'u cynnwys yn weithredol wrth ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau. - Mae'r berthynas rhwng ymarferwyr a phobl ifanc yn cydnabod potensial a gallu pobl ifanc. - Mae'r cyfathrebu rhwng ymarferwyr a phobl ifanc yn agored ac yn onest, heb godi gobeithion ffug. - Mae'r gwaith yn cynorthwyo pobl ifanc i ddod yn adnodd iddynt eu hunain o ran datblygiad personol yn ogystal â chyfrannu at ddatblygiad eu cyfoedion a'r gymuned ehangach.
Gellir gosod adnoddau digonol yn eu lle (arbenigedd, systemau a phrosesau)	- Cefnogir cyfranogiad gweithredol gan adeiladu gallu ffurfiol ac anffurfiol a hyfforddiant. - Mae datganiadau polisi clir yn sefydlu egwyddor cyfranogiad gweithredol ac yn cael eu darparu. - Mae recriwtio a datblygu staff yn helpu i adeiladu timau ymarferwyr sydd â'r agweddau, y rhinweddau a'r sgiliau angenrheidiol i wneud gwaith gweithredol gyda phobl ifanc. - Pennir ffiniau clir ynghylch yr hyn sy'n bosib a'r hyn nad yw'n bosib wrth gyflwyno gwasanaeth. - Mae gweithdrefnau a phrosesau clir ac agored yn eu lle o ran awgrymiadau, cwynion, canmolïaeth, apeliadau, cyfrinachedd, casglu data a'i storio. - Mae strwythurau yn eu lle i sicrhau cynrychiolaeth pobl ifanc.
Systemau a phrosesau ar gyfer gwella cyfranogiad pobl ifanc yn barhaus.	- Monitro gan ymarferwyr yn ogystal ag yn annibynnol i adolygu cynnydd a defnyddio'r gwersi i lunio trefniadau at y dyfodol. - Pobl ifanc i chwarae rhan weithredol yn y broses fonitro ac ymwneud â dylunio, profi a rhoi cynnig ar brosesau neu drefniadau newydd.



Cynnwys y Gymuned Leol

Mae cynnwys pobl ifanc yn hanfodol ond hefyd mae angen cefnogaeth a chysylltiadau cymunedol ehangach	- Sicrhau eich bod yn cyfathrebu’ch cynlluniau’n gynnar i’r gymuned ehangach. - Cynnal cyfarfodydd agored i esbonio beth sy’n cael ei awgrymu a cheisio barn ar flaenoriaethau. - Ceisio sicrhau cefnogaeth weithredol unigolion allweddol (e.e. cadeirydd neu gynrychiolydd canolfan gymuned leol, llywodraethwyr ysgol, grwpiau cymunedol neu gymdeithas drigolion).
Cynnwys y gymuned fusnes lleol	Mae gan fusnesau lleol rôl allweddol fel partner yn y bartneriaeth, fel darparwr cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli, ac fel cyflogwyr lleol. Sicrhewch eich bod yn cynnwys y gymuned fusnes lleol ym mhob cam.
Cyfranogiad aelodau etholedig	Mae gan aelodau etholedig rôl bwysig fel cynrychiolwyr ac eiriolwyr ar ran pobl leol.
Perchnogaeth gymunedol	Er na fydd angen cynnwys y gymuned leol yn weithredol o reidrwydd o ddydd i ddydd, mae’n bwysig bod pobl yn meddu ar beth perchnogaeth ac ymwybyddiaeth o’r hyn sy’n cael ei gynnig.
Manteision i’r gymuned	Heblaw am wella gwasanaethau’n gyffredinol, mae’r manteision cymunedol eraill (y gellir eu defnyddio’n ofalus fel offeryn marchnata cadarnhaol) yn cynnwys darparu cyfleoedd cadarnhaol i bob plentyn a pherson ifanc, sicrhau gwelliannau i’r amgylchedd ffisegol, i fod yn aelodau actif yn eu cymuned.

Cytuno ar Gynllun Lleol a’i Roi ar Waith

Datblygu cynllun gweithredu	- Datblygu cynllun gweithredu wedi’i seilio ar wybodaeth leol (<i>sicrhau bod y ffeithiau’n gywir</i>), ymrwymiad asiantaethau (<i>gweithio mewn partneriaeth</i>), anghenion, dyheadau a syniadau pobl ifanc (<i>cyfranogiad gweithredol pobl ifanc</i>), a chyda chydweithrediad y gymuned leol (<i>cynnwys y gymuned leol</i>). - O ran atebolrwydd mae angen i bob partner gytuno i weithredu fframwaith rheoli perfformiad ar y cyd.
Gosod nodau ymarferol y gellir eu cyflawni: Pobl ifanc unigol Grwpiau targed Y gymuned ehangach	- Gosod nodau neu amcanion tymor byr, canolig a hir. - Bod yn glir ynghylch pwy sy’n arwain pa dasg neu weithgaredd. - Pennu amserlen glir ar gyfer pob tasg neu weithgaredd. - Bod yn glir ynghylch sut cyflawnir dangosyddion perfformiad allweddol neu dargedau asiantaethau unigol drwy ymwneud â’r cynllun neu’r tasgau a’r gweithgareddau sy’n rhan ohono.
Mentrau newydd	Bod yn glir ynghylch sut bydd mentrau neu wasanaethau newydd, neu ddatblygu gwasanaethau cyfredol i gyfeiriad newydd, yn mynd ati i ddiwallu angen a fynegwyd.
Dyrannu adnoddau	- Mae angen i’r cynllun fod yn glir ynghylch pa adnoddau sy’n cael eu defnyddio. Gallai fod modd cyflawni gwerth am arian ac arfer gorau trwy ail-gyflunio adnoddau a chyllidebau presennol. - Lle gwneir cais am arian newydd byddwch yn glir ynghylch yr opsiynau sy’n bodoli, pwy fydd yn cyflwyno’r cais, a sut bydd yr arian newydd yn cael ei ddefnyddio a’i reoli ar ôl ei sicrhau.



Adeiladu ar Lwyddiant – Monitro a Gwerthuso

Monitro perfformiad yn erbyn y targedau	Mae’n arfer da meddwl am fethodolegau a systemau monitro a gwerthuso cyn cychwyn ar y gwaith.
Mesurau llwyddiant	- Bod yn glir ynghylch yr hyn rydych am ei weld yn digwydd o ganlyniad i’r gweithgaredd. - Pennwch linell sylfaen ar gyfer y gweithgaredd a chofnodi’r newid (data meintiol).
Tystiolaeth hunan-adroddedig	- Sicrhau eich bod yn gofyn i bobl ifanc sut mae’r gweithgaredd wedi’u helpu neu eu newid (gwybodaeth ansoddol). - Gofynnwch i’r gymuned ehangach a allan nhw weld unrhyw fanteision o’r gweithgaredd (gwybodaeth ansoddol).
Cadw’r cydbwysedd	Sicrhau eich bod yn cydbwyso’r data meintiol (beth) gyda’r wybodaeth ansoddol (sut a pham) i gael darlun llawn. Fel hyn bydd y dystiolaeth wedi’i seilio ar yr arfer presennol a gall y dystiolaeth a gasglwyd gennych hysbysu datblygiadau arfer yn y dyfodol.
Cymharu data	- Mae bob amser yn ddefnyddiol mesur data lleol yn erbyn y ffigur rhanbarthol, awdurdod lleol neu genedlaethol i wneud cymariaethau (<i>ydy ein problem/cynnydd ni’n waeth/well nag unrhyw le arall?</i>) - Os ydych yn profi ymagwedd, a oes modd cynnal gwerthusiad dwbl yn cwmpasu ardal reoli lle nad yw’r gwasanaeth neu’r gweithgaredd newydd yn gweithredu? - Allwch chi weld bod y broblem rydych yn ceisio’i datrys wedi symud o gwbl – er enghraifft, ydy eich gweithgaredd wedi lleihau y nifer o bobl ifanc sydd yn hongian o gwmpas, ond iddyn nhw fynd i hongian o gwmpas rhywle arall.
Hysbysu newid a datblygiad	Ni ddylid gweld monitro a gwerthuso fel gweithgaredd er ei fwyn ei hun. Nid oes iddo ddiben ymarferol go iawn oni bai ei fod yn hysbysu ac yn helpu i fireinio a datblygu gwasanaethau.

Ymagwedd Pedwar Cam

Dylai deinameg yr ymagwedd strategol aml-asiantaeth a nodwyd uchod alluogi’r pedwar cam allweddol i ddigwydd. Cofiwch fod pob cam yn cyfrannu at yr un nod o greu newid cadarnhaol yn y maes:

Cam Un: Datblygu Polisiâu a’u Halinio

- Asiantaethau’n gofyn iddynt eu hunain *beth yw’r peth iawn i’w wneud fel bod y lle yma’n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well?* Mae ymagwedd hunan-archwiliol onest ac agored sy’n edrych ar yr hyn sy’n cael ei gyflwyno, pa allu sydd ar gael a sut gellir gwella pethau’n fan cychwyn defnyddiol.
- Sefydlu ymagwedd bartneriaeth i sicrhau trosolwg strategol a rhoi rhaglenni ymarferol integredig o gefnogaeth a gwasanaethau ar waith yn y maes.
- Sefydlu ymrwymiad i rannu cyfrifoldeb, adnoddau a gwybodaeth er mwyn cyflawni’r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.
- Mynd ati i weithio gyda phobl ifanc ym mhob cam.
- Mae amseru’n hollbwysig – er enghraifft, sut mae amserlen tymhorau ysgol yn creu amrywiaeth yn yr angen? Pa flaenoriaethau cenedlaethol a Chymreig sy’n dod i’r golwg ar y gorwel a sut gellir eu defnyddio orau?

Cam Dau: Rhoi ar waith

- Hybu arweinyddiaeth ar bob lefel.
- Dod i wybod beth yw gwaith eich gilydd.
- Dysgu’n gyflym a dal i wrando ar bobl leol.
- Casglu tystiolaeth a sicrhau bod y ffeithiau’n gywir.
- Ystyried safbwyntiau gwahanol a allai fod yn cystadlu â’i gilydd. Meddyliwch yn ofalus sut gellid cysoni’r rhain ac ymateb iddynt.
- Gosod targedau heriol, ond rhai y gellir eu cyflawni.
- Edrych ar sut gall egwyddorion rheoli prosiectau gynorthwyo cydlyniad.
- Bod yn atebol – pennu systemau a gweithdrefnau.
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol, yn enwedig gyda phobl ifanc a rhwng ymarferwyr yn y maes.

- Edrych ar sut gellir cysylltu cyfleoedd i fuddsoddi â’r rhoi ar waith.
- Bod yn barod i herio dulliau sefydledig o weithio.
- Dileu rhwystrau a chyfyngiadau diangen.

Cam Tri: Creu Newid

- Cadw at y prif ffocws – bod yn amyneddgar ac yn barod i oresgyn unrhyw fethiannau.
- Bod yn glir bod oedolion a’u gwasanaethau proffesiynol wedi methu o safbwynt pobl ifanc yn y gorffennol mewn rhai meysydd, felly byddwch yn barod i bobl ifanc brofi’r trefniadau newydd. Peidiwch â rhoi’r bai ar neb arall – galwch unigolion i gyfrif am eu gweithredoedd, ond cadwch ddrws agored fel bod modd i bobl ifanc ddychwelyd atoch.
- Cefnogi buddsoddiad mewn datblygu proffesiynol.
- Sicrhau bod monitro’n weithredol ac yn hysbysu datrys problemau.
- Dathlu llwyddiannau – pa mor fach bynnag maent yn ymddangos.

Cam Pedwar: Cynnal Newid

- Cynnal ffocws.
- Dysgu o brofiadau cadarnhaol a negyddol i hysbysu datrysiadau cynaliadwy.
- Gweithio’n galed i sicrhau hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd.
- Hyrwydd gwaith a chyfranogiad pobl ifanc lle bynnag bo modd – gwneud chwarae rhan yn y prosiect a’r amrywiol weithgareddau’n ddeniadol.
- Canmol eraill am lwyddiant.



Nid cysyniad newydd yw gweithio mewn partneriaeth ac ar draws De Cymru mae llawer o drefniadau partneriaeth ardderchog, sydd wedi hen ennill eu plwyf, yn eu lle. Gellir dysgu llawer o'r profiad hwn. Mae gwerthusiad o Brosiect Cymuned a Ieuenctid Elai, mor bell yn ôl â 1985, yn disgrifio rhai o'r gofynion ar gyfer llwyddiant partneriaeth.

Mae'r gofynion llwyddiant hyn mor ddilys heddiw ag yr oeddent dros 20 mlynedd yn ôl:

Rhai gofynion ar gyfer llwyddiant¹⁴

Mae angen i aelodau grŵp rhyngasiantaeth fod yn perthyn i'w ddiben.

Mae angen i holl aelodau grŵp rhyngasiantaeth ddeall y diben yn glir.

Mae angen i'r aelodau wybod pam maent yn cymryd rhan: beth yw'r disgwyliadau ganddynt o ran eraill?

Mae angen i aelodau gael eu symbylu i fod yn rhan o'r grŵp (boed hynny am resymau personol, proffesiynol, sefydliadol neu wleidyddol).

Mae angen i'r aelodau deimlo y byddant yn cyflawni rhywbeth drwy'r grŵp rhyngasiantaeth na fyddent yn debygol o'i gyflawni ar eu pen eu hunain (h.y. yn eu hasiantaeth eu hunain).

Mae angen i'r holl aelodau fod yn barod i gydnabod a pharchu cyfraniad ac arbenigedd eraill.

Mae angen i'r holl aelodau fod yn barod i dderbyn y cyfyngiadau ar gyfranogiad a all fodoli yn achos eraill.

Mae angen gwasanaeth effeithlon (ysgrifenyddol/gweinyddol) ar grŵp rhyngasiantaeth.

Does dim angen i gadeirydd grŵp rhyngasiantaeth fod yn “niwtral”, ond mae'r dewis o gadeirydd yn bwysig am ei fod yn dweud rhywbeth am y grŵp.

Mae angen i grŵp rhyngasiantaeth fod yn barod i dderbyn methiant – ni fydd modd cyflawni rhai nodau, o leiaf nid ar unwaith.

Ni ddylai grŵp rhyngasiantaeth fod yn or-uchelgeisiol nes ei fod wedi goroesi cyfnod o gydgyrnhoi.

Chwe Rheol Aur ar gyfer Partneriaethau (gyda statws cydradd, a heb fod yn nhrefn blaenoriaeth)

- 1) Byddwch yn strategol bob amser – dim prosiectau na gweithgareddau wedi'u hynysu oddi wrth y bartneriaeth.
- 2) Peidiwch â gadael i unrhyw asiantaeth unigol feddiannu'r bartneriaeth a'i hawlio iddi'i hun yn unig.
- 3) Sicrhewch fod un asiantaeth neu unigolyn yn gyfrifol am bob gweithgaredd neu dasg benodol.
- 4) Sicrhewch fod yr holl asiantaethau dan sylw'n berchen ar y strategaeth mewn partneriaeth.
- 5) Byddwch yn agored ac yn onest yn holl drafodion y bartneriaeth.
- 6) Cynhwyswch bobl ifanc ym mhob cam.

Prosiect Rhywbeth i'w Wneud (Bethl'wWneud) Enghraifft o'r Model Arfer

Gan ddefnyddio'r egwyddorion a nodwyd uchod ac wedi nodi cymuned ar gyfer gweithio ynddi, mae enghraifft ymarferol y prosiect Rhywbeth I'w Wneud (*Bethl'wWneud*) yn darparu ymagwedd cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dangos sut gallai'r model arfer weithio. Mae'r model yn un darluniadol sy'n ymagweddu'n uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy, a gellir defnyddio elfennau ohoni yn ôl y galw. O ystyried y gellid dadlau mai plant a phobl ifanc yw'r rhan bwysicaf o unrhyw gymuned does dim o'i le mewn anelu'n uchel os darperir amgylchedd yr ymddiriedir ynddo o ganlyniad i bob person ifanc ei ddefnyddio pan allent gael eu denu i sefyllfaoedd peryglus fel arall.

Yr Her

Yn yr enghraifft hon lluniwyd y Prosiect Bethl'wWneud i ymateb i achosion sylfaenol ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymdogaeth, yn hytrach na'r symptomau yn unig. Mewn geiriau eraill, mabwysiadu ymagwedd gyfannol sy'n pwysleisio pwysigrwydd twf unigol yn ogystal â chanolbwyntio ar y materion unigol, megis lleihau niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu, gwaharddiadau o'r ysgol neu leihau camddefnyddio alcohol a sylweddau ymhlith pobl ifanc. Mae'r Prosiect yn caniatáu i bobl ifanc gyfranogi a dylanwadu'n uniongyrchol a dylunio'r broses o newid, ymagwedd sy'n mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol drwy ddatblygu ieuenctid a buddsoddi. Bydd pobl ifanc yn medru gweithio ochr yn ochr â'r heddlu, gweithwyr ieuenctid, ymarferwyr timau troseddau ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr addysg a gweithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal â chyda gwirfoddolwyr o'r gymuned leol, i greu amgylchedd mwy diogel ac ar yr un pryd weithio i wireddu'u dyheadau eu hunain. Elfen allweddol yn yr ymagwedd hon fydd gosod meincnodau ar gyfer gwelliannau yn ansawdd bywyd ac amgylchedd ffisegol y gymuned.

Her ychwanegol ar gyfer y prosiect yw cydnabod yr ystod gynyddol o isddiwylliannau sy'n bodoli ar gyfer pobl ifanc, a ganfyddir yn lleol fel rhai sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer enillion economaidd anghyfreithlon i unigolion.

Mae'r rhain yn arbennig o amlwg mewn cymunedau lle mae'r cyfraddau tlodi a throseddu'n uchel. Un o'r materion allweddol sy'n parhau yw sut gall asiantaethau sector statudol a gwirfoddol gydweithio i sicrhau newid yn y dull o daclo a lleihau troseddu a drefnir a throseddu ar hap. Mae pobl ifanc sy'n dioddef troseddau hefyd yn faes pwysig i'w gynnwys.

Rheoli'r Prosiect

Er y gellir cyflawni llawer gan asiantaethau sy'n cydweithio mewn modd wedi'i gynllunio, ni ellir amau bod y dasg o reoli'r prosiect yn un sylweddol. Mae'n rhaid yn ddiamau i gyfarfodydd partneriaeth neu brosiect gael pwerdy er mwyn i bethau ddigwydd. Byddai cydlynydd lleol penodol gyda chefnogaeth swyddogion, a allai fod yn drefniant secondio neu benodiadau prosiect i swyddi newydd, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr lleol, yn fodel da i'w ystyried.

Rôl y cydlynydd a'r tîm fyddai:

- Cynnal archwiliadau a chynlluniau gweithredu drafft.
- Monitro cynnydd a darparu adroddiadau cynnydd i grŵp neu fwrdd rheoli lleol.
- Cydlynu'r holl weithgareddau y cytunwyd arnynt a sicrhau trosolwg o sut mae pob asiantaeth neu fenter unigol yn cyfrannu at y cynllun cyffredinol.
- Cysylltu ag asiantaethau partner i unioni unrhyw broblemau neu faterion a all godi.
- Cydlynu cynigion am arian.
- Hwyluso rhannu gwybodaeth yn lleol a phrosesau cyfeirio cyffredinol.
- Darparu cefnogaeth weinyddol i'r bartneriaeth neu'r prosiect.
- Bod yn bwynt cyswllt canolog i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Bod yn bwynt cyswllt canolog ar gyfer asiantaethau allanol, gan gynnwys busnesau lleol.
- Sicrhau bod yr holl systemau, protocolau lleol a gweithdrefnau'n gweithio hyd at y safonau gofynnol.

¹⁴ Williamson H. a Weatherspoon K. *Strategies for Intervention – An Approach to Youth and Community Work in an Area of Social Deprivation*. 1985. Coleg Prifysgol Cymru Caerdydd.



Model Arfer Bethl’wWneud – Pedair Haen Gwasanaethau a Chefnogaeth

Yn yr enghraifft hon, sefydlir sylfaen i'r prosiect gyda thîm o staff, sy'n gweithio ar y cyd gyda'r heddlu, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol, athrawon, hyfforddwyr galwedigaethol, a gweithwyr proffesiynol eraill, y gall rhai ohonynt fod wedi'u secondio. Mae Tîm y Prosiect hefyd yn elwa o ddefnyddio mentoriaid a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol. Goruchwylir y gwaith gan Fwrdd Rheoli'r Prosiect sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith pobl ifanc a grwpiau cymunedol, cynrychiolwyr busnesau lleol, yn ogystal â staff o'r prif sefydliadau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio yn yr ardal. Y cadeirydd yw aelod etholedig lleol yr awdurdod lleol.

Mae Model y Prosiect Bethl’wWneud yn darparu pedair haen o wasanaethau a gweithgareddau:

Haen Un

Gwaith blynyddoedd cynnar a chefnogaeth a chymorth i blant oed ysgol ar ôl oriau ysgol

Haen Dau

Gwaith allgymorth i gyrraedd plant a phobl ifanc ar y cyrion gyda'r nod o ddatblygu cynllun cefnogi unigol

Haen Tri

Darparu hyfforddiant galwedigaethol sy'n cydweddu'n agos â'r gwasanaethau cyflogaeth i bobl ifanc a cholegau ac yn diwallu anghenion cyflogwyr lleol a'r gymuned leol

Haen Pedwar

Mynediad i wasanaethau unigol yn ôl y galw

Haen Un – mae'r Prosiect Bethl'wWneud ar gael yn ystod ac ar ôl ysgol bum niwrnod yr wythnos, gan gynnig lle diogel i blant a phobl ifanc dderbyn:

- help gyda gwaith cartref.
- tiwtora.
- dysgu gyda chyfrifiaduron.
- cefnogaeth gymdeithasol a thechnegau hunan-ddisgyblu (ar gyfer yr ysgol a bywyd personol).
- mynediad i weithgareddau hamdden i ddiwallu anghenion a fynegwyd ac wedi'u seilio ar y model hunangymorth.
- mynediad i fentor i helpu gyda phwysau bywyd beunyddiol.
- hyfforddiant sgiliau bywyd (sut i ddatrys gwrthdaro, sut i ddweud na, gwaith ar fod yn bendant, paratoi ar gyfer cyflogaeth, cael hyd i waith ar y penwythnos ac yn yr haf, agor cyfri banc, cynilo arian).

- iechyd a lles a chynghor ar ddeiet.
- cyfleoedd ar gyfer chwarae.
- cefnogaeth deuluol a rhaglenni magu plant.
- darpariaeth feithrin.
- gwasanaethau cwnsela a chynghori.

Haen Dau – gan weithio gyda'r gwasanaethau statudol, mae'r Prosiect hefyd yn estyn ei wasanaethau i bobl ifanc ar y cyrion a'r rheiny a eithriwyd. Gan ddefnyddio ymagwedd cynllunio rhaglenni unigol bydd y prosiect yn darparu:

- gwaith allgymorth i gysylltu â phobl ifanc ar y cyrion.
- ffordd gytunedig ymlaen i ailgyflwyno i'r ysgol neu i geisio cymorth ac arweiniad arbenigol o ran addysg.
- help i gyrchu hyfforddiant a sgiliau a help wrth chwilio am waith.
- cyfleoedd i bobl ifanc ar y cyrion ymwneud â phrosiectau gwella'r amgylchedd.
- gwasanaethau eiriolaeth a chefnogaeth.
- mynediad i weithgareddau hamdden a chefnogaeth mentor.

Haen Tri – darparu canolfan hyfforddiant galwedigaethol i'w defnyddio gan ysgolion lleol, cyfeiriadau unigol ac ar gyfer grwpiau cymunedol eraill. Mae'r ganolfan yn ceisio diwallu anghenion cyflogwyr lleol ac ystyried sut gellir annog entrepreneuriaeth. Mae'r ganolfan hefyd yn defnyddio'r hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer gwelliannau penodol i'r gymuned. Mae gweithgaredd y ganolfan yn cynnwys:

- Hyfforddiant galwedigaethol – e.e.: sgiliau adeiladu, celf a chrefft, mecaneg ceir, trin gwallt, garddio a garddwriaeth, peintio ac addurno, gwaith coed, plymio, ac ati.
- Gwaith gwella'r gymuned – e.e.: gardd gymunedol, garddio ar gyfer pobl leol, creu maes chwarae antur, gwasanaethau addurno a pheintio, trefnu gŵyl gelfyddydau gymunedol, ac ati.
- Datblygu mentrau busnes cydweithredol cadarn yn y gymuned.

Haen Pedwar – Mynediad i wasanaethau unigol yn ôl y galw:

- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Camddefnyddio sylweddau
- Amddiffyn Plant
- Troseddau Ieuenctid
- Prawf
- Eraill a nodir

Mae'r Prosiect Bethl'wWneud ar agor yn ystod yr wythnos ysgol, gyda'r hwyr yn yr wythnos, ac ar y penwythnos pan fo pobl ifanc yn fwyaf tebygol o fod yn actif yn y gymdogaeth ac felly yn y perygl mwyaf o gael eu cynnwys mewn troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel dioddefwr neu droseddwr. Mae'r Prosiect hefyd ar agor yn ystod hanner tymor a chyfnodau gwyliau'r ysgol, gan ddarparu lle go iawn i bobl ifanc fynd iddo, i deimlo'n ddiogel a chael rhywbeth difyr, addysgiadol a chadarnhaol i'w wneud ar adegau pan fo mwyafrif y ddarpariaeth ar eu cyfer ar gau.

Yn ddelfrydol, byddai'r Prosiect yn elwa'n fawr o bartneriaeth gyda busnesau a diwydiant lleol. Er y gall busnesau a diwydiant lleol ddarparu nawdd ariannol a chefnogaeth ymarferol (e.e. rhoi deunyddiau a cherbydau), gallai partneriaeth gyda busnesau lleol helpu hefyd i dargedu hyfforddiant galwedigaethol a helpu i feithrin datblygiad entrepreneuriaid sydd â syniadau busnes unigol.

Gweithgaredd craidd y Prosiect Bethl'wWneud yn yr enghraifft hon yw darparu cefnogaeth, addysg a gwasanaethau hyfforddiant i blant a phobl ifanc oed ysgol, gan dargedu rhai 11-17 oed yn benodol. Rhaid nodi fodd bynnag mai athroniaeth sylfaenol y gwaith yw sicrhau polisi drws agored fel bod modd ymateb i anghenion plant iau nag 11 a phobl ifanc dros 17 petaent yn cael eu cyflwyno. Yn wir, o ystyried y sylfaen gynyddol o ymchwil sy'n ffafrio ymyrraeth gynnar ar oed llawer iau, gellid targedu'r egwyddorion a rhai o'r ymagweddau arfer a ddisgrifir yn yr adran hon at blant 5-10 oed a phlant cyn-ysgol. Byddai'n rhaid sicrhau bod darpariaeth ar wahân neu ategol ar gael, fel bod anghenion y gwahanol grwpiau oedran yn cael eu diwallu. Rhoddir blaenoriaeth i fentora plant a phobl ifanc risg uchel, na fydd cysylltiad rhwng llawer ohonynt a gwasanaethau presennol. Bydd yn rhaid i'r gwaith gyd-fynd â'r cynllun plismona lleol, gwaith Partneriaeth y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, y tîm troseddau ieuenctid, y cwricwla ysgol a gwaith ieuenctid a'r gwasanaeth prawf.

Cynllun Cyflwyno Enghreifftiol ar gyfer y Prosiect Bethl’wWneud

Ni ddylid darllen y braslun hwn o gynllun fel enghraifft hollgynhwysol, gan ei fod yn darlunio’r math o weithgaredd a allai ddigwydd mewn ardal.

Canlyniad a Gynlluniwyd	Sut bydd y Prosiect Bethl’wWneud yn helpu i’w Gyflawni
Lleihau’r cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol	- Cynnig amgylchedd diogel dan do i bobl ifanc ymgynnull – wedi’i reoli a’i gefnogi gan y bobl ifanc eu hunain mewn partneriaeth gyda’r tîm o staff. Digon o adnoddau fel bod pobl ifanc yn medru archwilio’u diddordebau a’u dyheadau. - Cynnig gwasanaethau annibynnol ac allgymorth i bobl ifanc na ddenir i’r gweithgaredd yn y ganolfan. - Monitro cyfraddau’r galwadau niwsans a dderbynnir gan yr heddlu.
Lleihad o 25% mewn fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans gan bobl ifanc	Defnyddio gweithwyr mentora’r heddlu a datblygu ieuenctid ar gyfer gwaith allgymorth a chyfeirio ar unwaith i gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau rhagflas sy’n arddangos mantais go iawn ac yn annog ymrwymiad a datblygiad yn y tymor hwy.
Lleihau ymwneud â chamddefnyddio sylweddau	Cynnig cyngor, cwnsela a chefnogaeth. Cyfeirio at raglenni triniaeth.
Gwaith ar leiafu gafael delwyr cyffuriau/gangiau	Cefnogi’r cynllun plismona lleol.
Lleihad o 10% yn y tanau bwriadol a gynheuir gan bobl ifanc	Gwaith gyda’r Gwasanaeth Tân ac Achub ar ddatblygu ystod o ymyraethau (cymdeithas yr ymladdwyr tân ifanc, gwaith addysgol yn yr ysgolion).
Lleihau nifer y disgyblion a waharddwyd neu sy’n triwanta o’r ysgol fwyfwy	- Darparu cefnogaeth ar ôl ysgol sy’n cynnwys rhifedd, astudiaethau llythrennedd ac amgylchedd astudio diogel a chefnogol. - Edrych ar sut gall mentoriaid gynorthwyo dychwelyd i’r ysgol. - Edrych ar sut gall cefnogaeth rhieni helpu i ddarparu cefnogaeth fwy cadarnhaol a chyson yn y cartref oddi mewn i berthynas gynnes a chefnogol rhwng y rhiant a’r plentyn.
Cynyddu cyflawniadau yn yr holl Gyfnodau Allweddol	Partneriaeth agos gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr ardal glwstwr. Monitro cynnydd defnyddwyr rheolaidd gwasanaethau’r Prosiect Bethl’wWneud (fel y’u hanogir gan yr hunan, yr ysgol, rhieni neu asiantaeth).

Canlyniad a Gynlluniwyd

Sut bydd y Prosiect Bethl’wWneud yn helpu i’w Gyflawni

Gwaith gyda phobl ifanc i ddylunio mentrau a’u rhoi ar waith	Gwneud cyfranogiad gweithredol pobl ifanc yn weithgaredd prif ffrwd yn hytrach nag ymarfer ymgynghorol goddefol ar draws rhaglen o ailgyflunio a datblygiadau newydd penodol.
Datblygu deialog effeithiol rhwng pobl leol a’r asiantaethau partneriaeth	Mae’r Prosiect Bethl’wWneud yn dod yn ganolbwynt ar gyfer newid canfyddiad y gwasanaethau a ddarperir i gymunedau mewn partneriaeth lle darperir gwasanaethau gyda chefnogaeth a chymorth uniongyrchol y gymuned.
Edrych ar sut gall pobl ifanc fod yn rhan o adfywio’r ardal leol.	- Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau newydd. - Prosiectau gyda phobl ifanc yn helpu i ddileu graffiti a thacluso ardaloedd cymunedol i adfer balchder yn yr ardal leol. - Datblygu parciau a mannau diogel i blant chwarae wedi’u dylunio a’u hadeiladu gyda chymorth uniongyrchol gan bobl ifanc. - Prosiect gardd gymunedol. - Trefnu gŵyl gymunedol - Annog partneriaeth rhwng y Prosiect Bethl’wWneud a chyflogwyr lleol i gytuno ar raglenni penodol.
Cynyddu hyder trigolion, gan wella diogeledd adeiladau newydd a phresennol.	Plismona cymunedol gweithredol sy’n cynnwys rhaglen hyfforddi, arddangosiadau a chyfranogiad. Gallai cyfleoedd i wirfoddoli godi hefyd.
Potensial i gynyddu’r rheiny sydd mewn cyflogaeth a lleihau ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol mewn cenedlaethau i ddod.	- Sefydlu partneriaeth gyda cholegau lleol i annog a chynyddu’r sylfaen sgiliau ar gyfer entrepreneuriaid ifanc a mentwyr cymdeithasol lleol. - Gwaith gyda chyflogwyr a busnesau lleol a chenedlaethol i ychwanegu gwerth at y gweithgareddau sy’n cael eu cynnig.
Lleihau ofn troseddau, fandaliaeth, niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.	- Hyrwyddo llwyddiannau. - Cynyddu’r llif gwybodaeth i drigolion drwy ystod o gyfryngau ar y gweithgareddau a’r mentrau sydd ar waith. - Bod yn agored i dderbyn awgrymiadau newydd, cwynion a syniadau ar gyfer rhaglenni newydd. - Troi presenoldeb yr heddlu’n llai o ymateb ar unwaith i droseddu ac yn fwy tuag at ddarparu ffynhonnell ar gyfer mentora a datrys problemau.



Enghreifftiau o Arfer

Rhai Dangosyddion Arfer Da ar gyfer y Prosiect Bethl’wWneud:

Gellir defnyddio’r rhestr wirio ganlynol i ddatblygu ffocws y Prosiect Bethl’wWneud ac i gynorthwyo datblygiad arfer gorau:

- Mae’r prosiect yn rhan o’r strategaeth diogelwch cymunedol leol ac yn bodoli ochr yn ochr ac oddi mewn i raglen o wasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac unigol a ail-gyfluniwyd.
- Cefnogir y prosiect gan yr holl asiantaethau lleol.
- Mae’r prosiect wedi datblygu mewn ymateb i angen lleol cytunedig.
- Mae’r prosiect yn cydweddu â strategaethau lleihau troseddu, gofal plant, cyffuriau ac alcohol, iechyd ac adfywio lleol.
- Datblygir y prosiect gyda chyfranogiad gweithredol pobl ifanc.
- Nid yw’r prosiect yn dyblygu darpariaeth ieuencid leol arall.
- Mae’r prosiect yn cyflogi tîm bychan o staff ymroddedig, staff wedi’u secondio o asiantaethau partner, a hefyd yn recriwtio mentoriaid a gwirfoddolwyr o’r gymuned leol.
- Mae’r prosiect wedi sefydlu cysylltiadau gyda’r gymuned fusnes leol.
- Mae gan y prosiect bwyllgor llywio neu reoli aml-asiantaeth gyda chynrychiolwyr o blith pobl ifanc a thrigolion eraill.
- Mae rhaglen hyfforddi yn ei lle ar gyfer yr holl staff, y rheiny ar secondiad, mentoriaid a gwirfoddolwyr.
- Mae gallu ieithyddol y tîm staff cyfan yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol yr ardal a wasanaethir gan y prosiect.
- Mae’r prosiect wedi nodi safle i’w ddefnyddio’n fan ymgynnull diogel ar gyfer pobl ifanc.
- Mae’r prosiect yn defnyddio rhaglenni annibynnol ac allgymorth.

- Mae’r prosiect yn diwallu anghenion pobl ifanc ac yn defnyddio ystod o weithgareddau i gysylltu â grwpiau targed.
- Mae’r rhaglen waith yn destun adolygiad parhaus sy’n cynnwys cyfranogiad pobl ifanc.
- Mae prosesau monitro a gwerthuso yn eu lle.

Mae gan y prosiect dargedau mesuradwy ar gyfer:

- 1) Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad i ystod o weithgareddau difyr, addysgol, cefnogol a chadarnhaol.
- 2) Ailgynnwys pobl ifanc ym myd addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gwirfoddoli.
- 3) Cynyddu cyrhaeddiad addysgol.
- 4) Gwelliannau i’r amgylchedd ffisegol.
- 5) Cynyddu lefelau cyfranogiad plant a phobl ifanc.
- 6) Lleihau troseddu.
- 7) Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 8) Lleihau troseddau ar y stryd.
- 9) Lleihau galwadau niwsans.
- 10) Lleihau ofn troseddau.

Casglwyd yr enghreifftiau hyn o arfer yn ystod y gwaith ymchwil ac ymgynghori ar gyfer y cyhoeddiad hwn. Rydym yn ddiolchgar i’r holl gyfranwyr. Er nad yw’r enghreifftiau o arfer a restrir yma’n cynnwys yr holl waith sy’n digwydd ar draws De Cymru nac mewn mannau eraill, maent yn dangos yr ehangder a’r creadigrwydd sy’n bodoli. Roeddem ni’n teimlo y byddai’n fuddiol rhannu’r enghreifftiau yma, ac rydym yn ddiolchgar unwaith eto i’r cyfranwyr am eu parodrwydd i rannu manylion cyswllt ar gyfer unrhyw ddarllenrydd a hoffai gael mwy o wybodaeth.

Enghraifft o Arfer 1

Yr Ymagwedd Ar Drywydd

Mae gan Dde Cymru ddau Brosiect Ar Drywydd. Roedd Ar Drywydd yn rhan o’r Rhaglen Lleihau Troseddu bwysig a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ym 1998 i sefydlu ‘beth sy’n gweithio’ o ran ymyrraeth diogelwch cymunedol. Mae Ar Drywydd yn fenter hirdymor, y bwriedir iddi barhau am saith mlynedd. Ei nod yw gwella cydweithio rhwng asiantaethau a datblygu gwasanaethau wedi’u targedu at blant rhwng 4 a 12 oed y bernir eu bod mewn perygl o droseddu’n ddiweddarach yn eu bywydau. Mae eu nodi’n gynnar yn golygu bod y plant a’u teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth ddwys y mae arnynt ei hangen. Y bwriad yw bod ymyraethau sy’n llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio dros gyfnod y prosiectau.

Mae 24 o Brosiectau Ar Drywydd wedi’u dewis ar gyfer y rhaglen ac mae 2 o’r rhain yn Ne Cymru – Tylorstown yn Rhondda Cynon Taf a’r Caerau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae’r ddau brosiect dan arweiniad awdurdodau lleol, gyda’r timau Ar Drywydd wedi’u lleoli yn y gymuned. Mae Ar Drywydd yn cwmpasu ystod o ymyraethau penodol gan lunio sylfaen profedig ar gyfer hysbysu datblygiad polisi yn y dyfodol ym maes gwaith ataliol yn y gymuned gyda phlant a’u teuluoedd.

Cyswllt:

Prosiect Tylorstown, RhCT: Mick Millman
E-bost: mick.millman@rhondda-cynon-taff.gov.uk

Prosiect y Caerau, Pen-y-bont ar Ogwr: John Williams
E-bost: ontrack@bridgend.gov.uk

Rhannu Gwybodaeth a defnyddio Data Asiantaeth i Dargedu Ymagweddau Penodol

Enghraifft o Arfer 2

Grŵp Arweinyddiaeth Trosynnol (OLG) De Cymru – Protocol ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth o dan Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1998.

Ar 31ain Ionawr 2002 cytunodd yr holl gyrff statudol oedd yn ymwneud â Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998 i gyfranogi yn y Protocol ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth. Diben y Protocol yw hwyluso cyfnewid gwybodaeth, fel y nodir yn Adran 115 Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998, ond ar yr un pryd cydymffurfio â’r holl ofynion cyfreithiol o ran cyfrinachedd, lles y cyhoedd a Deddf Diogelu Data.

Cyswllt:

Dave Francis
E-bost: david.francis@south-wales.pnn.police.uk

Enghraifft o Arfer 3

Prosesau Rhannu Gwybodaeth, Cyfeirio ac Asesu Cyffredin Ar Drywydd

Mae’r ddau Brosiect Ar Drywydd yn Ne Cymru wedi datblygu systemau aml-asiantaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ogystal â phrosesau cyfeirio ac asesu cyffredin ar gyfer gwasanaethau plant a theuluoedd.

Cyswllt:

Prosiect Tylorstown, RhCT: Mick Millman
E-bost: mick.millman@rhondda-cynon-taff.gov.uk

Prosiect y Caerau, Pen-y-bont ar Ogwr: John Williams
E-bost: ontrack@bridgend.gov.uk

Rheolaeth ar Brosiect Amlddisgyblaeth

Enghraifft o Arfer 4

Communities that Care (CtC) UK – Ochr Ddwyreiniol Abertawe

Ym 1998 dewisodd CtC Bonymaen ar Ochr Ddwyreiniol Abertawe yn safle ar gyfer prosiect peilot. Yr ardal a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth yn y bôn oedd dalgylch Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, ac un o'r rhesymau am y dewis hwnnw oedd y ffaith fod yr ysgol eisoes wedi cymryd camau i ddod yn ysgol uwchradd a oedd yn cynnwys y gymuned yn ei holl weithgareddau. Y cam cyntaf oedd cynnwys y prif swyddogion ym mherchnogaeth y prosiect. Maent yn cwrdd sawl gwaith y flwyddyn i fonitro'r prosiect ac i leihau unrhyw rwystrau a wynebir gan staff mwy lleol. Gweithredwyd y rhaglen gyfan fel partneriaeth, gyda dwy haen o gyfranogwyr. Roedd grŵp yr Arweinyddion Allweddol yn caniatáu i brif swyddogion awdurdod lleol, iechyd, yr heddlu a'r sectorau gwirfoddol a ffydd gyfarfod, ac roedd y Bwrdd Cymunedol yn cynnwys pobl sy'n gweithio wyneb yn wyneb â phobl ifanc yn y gymuned fel staff cyflogedig neu wirfoddol neu rieni. Dirprwyir y prif swyddogaethau o ran cynllunio a gwneud penderfyniadau i'r Bwrdd Cymunedol a'u seilio ar ganlyniadau arolwg pellgyrhaeddol o bobl ifanc 11-16 oed sy'n byw yn yr ardal. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer monitro cynnydd.

Yn 2000 datblygwyd cynllun gweithredu a'i roi ar waith gyda nifer o gamau'n ymateb i'r ffactorau risg a oedd wedi eu nodi a'u cytuno'n gyffredinol.

Cwblhaodd CtC werthusiad sy'n parhau o effaith y rhaglen ar broffil risg ac amddiffyn y bobl ifanc yn yr ardal fel rhan o drydydd archwiliad o lefelau risg ac amddiffyniad a gynhaliwyd yn 2005. Dengys canlyniadau hyn ostyngiad sylweddol iawn yn lefel 9 o'r 17 o ffactorau risg a fesurwyd, heb gynnydd mewn unrhyw un o'r risgiau eraill. Mae hefyd ostyngiadau sylweddol yn y defnydd hunanadrodedig o alcohol, cyffuriau a thybaco ac yn y lefelau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ieuenctid. Mae hyn yn cyd-fynd â phrofiadau pobl ac asiantaethau lleol sydd i gyd yn adrodd bod pethau'n llawer gwell nag y buont.

Cyswllt:

Ann Fairington
E-bost: ann@communitiesthatcare.org.uk

Mentoriaid a Delfrydau Ymddwyn

Yn ystod yr ymgynghori cyn cyhoeddi'r papur hwn pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd mentora ar gyfer plant a phobl ifanc. Cyfeiriodd llawer at werth mentora gan gyfoedion a disgrifio'r lefel hon o gefnogaeth fel rhywbeth hanfodol ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd yn y perygl mwyaf o gael eu denu i drafferthion neu sy'n arddangos problemau emosiynol neu ymddygiad a all arwain at broblemau o ran presenoldeb yn yr ysgol a/neu lefelau cyrhaeddiad isel.

Enghraifft o Arfer 5

Prosiect Mentora Sova

Roedd Paul* yn 17 pan gafodd ei gyfeirio at brosiect Sova i dderbyn mentor gwirfoddol. Ar yr adeg hon roedd Paul yn ddyn ifanc a ddeuai o dan ddylanwad ei ffrindiau a'i gyfoedion yn hawdd. Roedd Paul wedi mynd i drafferth gyda'r heddlu, ac arweiniodd hynny at ei roi ar Orchymyn Goruchwyliaeth gan y llys ieuenctid lleol. Ni theimlai Paul ei fod yn medru mynd allan yn y dref lle roedd yn byw am ei fod wedi dadlau gyda'i "ffrindiau" ac yn pryderu am ganlyniadau hynny. Er ei fod ar y pryd yn byw gartref gyda'i fam a'i deulu, nid oedd ei berthynas gyda'i fam bob amser yn hapus, ac weithiau roedd yn cael trafferth rheoli'i dymer. Roedd yn ddi-waith ac nid oedd yn derbyn addysg. Gyda chaniatâd Paul, cyflwynodd ei Ymgynghorydd Personol Gadael Gofal gyfeiriad ar gyfer mentor yn y gobaith y gallai mentor gefnogi Paul i ddatblygu ei annibyniaeth, archwilio cyfleoedd ar gyfer addysg a chyflogaeth, diddordebau cymdeithasol a mynd i'r afael â'i ymdeimlad o fod wedi'i ynysu o'i gyfoedion a'i gymuned.

Parwyd mentor gwirfoddol, Sue*, ag achos Paul i'w gefnogi a'i dywys i gyflawni ei nodau a'i botensial. Roedd gan Paul ddiddordeb mewn beiciau modur a cheir ac roedd Sue'n rhannu'r diddordeb hwn, a gwnaeth hynny'r cyfeillgarwch mentora'n fwy "cadarn". Dros gyfnod o ryw 12 mis, cefnogodd Sue Paul i edrych ar gyfleoedd cyflogaeth a'i annog i gyflwyno cais am swyddi oedd yn addas ar gyfer ei sgiliau a'i ddiddordebau, dod yn fwy annibynnol, a derbyn cyfrifoldeb.

Buont hefyd yn cael hwyl ac amser difyr drwy eu cyfeillgarwch, a byddent yn aml yn mynd i McDonald's neu'n gwyllo rasio ceir. Mae perthynas Paul gyda'i fam ac aelodau eraill y teulu wedi gwella'n sylweddol. Mae gan Paul ymdeimlad gwell o gyfeiriad ac roedd yn gwneud ceisiadau am swyddi'n rheolaidd. Cafodd hyd yn oed gyfweiliad, er iddo fod yn aflwyddiannus y tro hwnnw! Daeth y mentora i ben pan adawodd Paul yr ardal gyda'i deulu. Mae'n ddiweddar wedi sicrhau swydd sydd â chyfleoedd i symud ymlaen. Mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair i Paul.

Helpodd mentora i sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r person ifanc hwn, gan i Sue fedru helpu Paul i wireddu ei nodau a'i ddyheadau personol. Serch hynny, parodrwydd Paul i greu cysylltiadau â mentor a'i awydd i newid er gwell oedd ei brif asedau. Bu gwasanaethau Gadael Gofal eraill a oedd ar gael i Paul hefyd yn chwarae rhan yn ei lwyddiant. Gan weithio gyda'i gilydd, helpodd Paul, Sue, a'r gwasanaethau Gadael Gofal hyn i gyd Paul i gyflawni ei nodau, datblygu'i hyder a gweithio tuag at gyflawni ei botensial.

** Newidiwyd pob enw i sicrhau cyfrinachedd.*

Cyswllt:

Chris Arnold, Sova Cymru
E-bost: carnold@sova.org.uk



Enghraifft o Arfer 6

Prosiect Mentora Sova

Roedd Sarah* yn 16 oed pan gafodd ei chyfeirio yn gyntaf at y prosiect i dderbyn mentor gwirfoddol. Roedd Sarah wedi symud yn ddiweddar o ofal preswyl awdurdod lleol i lety gyda chefnogaeth mewn ardal led-wledig. Nid oedd Sarah'n gyfarwydd â'r ardal ac nid oedd eto wedi llwyddo i sefydlu cysylltiadau yn ei chymuned leol. Trafododd Sarah y posibilrwydd o gael mentor gyda'i Hymgyngorydd Personol Gadael Gofal ac roedd hi am gael cefnogaeth i gael mynediad i weithgareddau cymdeithasol ac i helpu gyda datblygu sgiliau rheoli cyllideb.

Parwyd mentor gwirfoddol, Jayne*, gyda Sarah i gynnig cefnogaeth ac i'w helpu hi i greu cysylltiadau yn ei chymuned leol. Dros gyfnod o ryw 16 mis bu Jayne yn cwrdd â Sarah unwaith yr wythnos. Byddai Sarah a Jayne yn defnyddio'r llyfrgell, canol y dref leol, caffis a'r gwasanaeth ieuenctid. Roedd Sarah'n fenyw ifanc ddiamddiffyn iawn a allai gael ei chamarwain yn rhwydd, ond roedd Jayne yn gallu ei chefnogi a'i thywys, a helpodd hi i wneud rhai penderfyniadau pwysig am ei dyfodol a'i lles yn ogystal â chodi unrhyw bryderon gyda'i Gweithiwr Gadael Gofal.

Helpodd Jayne Sarah i reoli ei chyllideb drwy ei helpu i ddeall gwerth arian, ei hincwm a'i gwariant. Dechreuodd Sarah ymddiried yn Jayne, ac roedd hi'n teimlo'i bod yn gallu trafod unrhyw faterion oedd yn destun pryder iddi.

Daeth y cyfeillgarwch mentora i ben am fod hyder a hunanbarch Sarah wedi gwella i'r fath raddau nes iddi wneud ffrindiau newydd, ac roedd hi'n teimlo nad oedd angen cefnogaeth mentor arni bellach.

** Newidiwyd pob enw i sicrhau cyfrinachedd.*

Cyswllt:

Chris Arnold, Sova Cymru
E-bost: carnold@sova.org.uk

Datblygu Fforwm Ieuenctid

Mae gwaith fel hyn yn aml yn dilyn ymlaen yn naturiol o ymgynghori â phobl ifanc a gall fod yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod cyfranogiad gweithredol yn cael ei gynnal. Mae fforwm o bobl ifanc yn fodd i fynegi barn pobl ifanc yn effeithiol. Gall fforwm hefyd helpu i gynorthwyo person ifanc i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ac i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb os yw'n rhoi cyfle iddynt leisio barn ar sut caiff gwasanaethau eu rheoli neu eu llunio. Dylai fforymau gynnwys pob math o bobl ifanc er mwyn sicrhau bod unrhyw waith i wella ansawdd eu bywydau'n cael ei gefnogi gan yr holl grwpiau, gan gynnwys y rhai anodd eu cyrraedd a'r rhai a eithrir yn gymdeithasol.

Enghraifft o Arfer 7

Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn dyddio o'r cyfnod cyn ffurfio'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Pobl ifanc a gychwynnodd y broses o'i ffurfio ac fe'i cefnogwyd drwy benodi Gweithiwr Cyfranogiad Ieuenctid yng Ngwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Recriwtiwyd i'r Cyngor Ieuenctid yn wreiddiol, yn unol ag awgrym a phenderfyniad y bobl ifanc eu hunain, drwy ymgyrch hysbysebu a recriwtio yn y gadwyn leol o fwytai byrgers. Mae hyn wedi golygu bod croestoriad da o bobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Cyngor Ieuenctid. Mae'r Maerau Ieuenctid wedi cynnwys menyw ifanc a oedd wedi gadael gofal y Cyngor yn ddiweddar, dyn ifanc a oedd wedi bod yn ddigartref am beth amser, a menyw ifanc mewn cyflogaeth amser llawn yn lleol.

Cydnabyddir y Cyngor Ieuenctid yn ffurfiol gan GBS Pen-y-bont ar Ogwr, gyda'r Maer Ieuenctid a Maer y Fwrdeistref yn dod i'w swyddi yn yr un seremoni, yn annerch Cyngorau ei gilydd, ac yn cael eu cydnabod ar ddau Fwrdd Maerol sy'n hongian yn Siambr y Cyngor. Yn rhannol o ganlyniad i'r trefniant hwn, cyflwynwyd Gwobr *Most Youth Friendly Council in the UK* cylchgrawn Young People Now yn ddiweddar i GBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Partneriaeth Pobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr, lle cynrychiolir y Cyngor Ieuenctid, yn gweld y Cyngor Ieuenctid fel eu "cynghorwyr" neu eu "hymgynghorwyr" ar gyfer datblygu cyfranogiad. Ddwy flynedd yn ôl, wedi iddi gael ei chyflwyno yn y Gynhadledd Fframwaith flynyddol, mabwysiadodd y Bartneriaeth Strategaeth Gyfranogiad y Cyngor Ieuenctid a'i chynnwys yn y Strategaethau Fframwaith a PPI. Cyfrifoldeb y Cyngor Ieuenctid yw rhoi'r ymagwedd hon ar waith, a seiliwyd ar ddatblygu fforymau ardal lleol neu ddiddordeb arbennig, a gwneir hynny drwy grant Cymorth a Chytundeb Lefel Gwasanaeth tair blynedd.

Cyswllt:

Les Jones. Cydlynnydd Fframwaith, Parnteriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr
E-bost: joneslm@bridgend.gov.uk

Darpariaeth Chwarae

Yn ei waith ar fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae, mae Chwarae Cymru (Play Wales) yn amlinellu pam mae chwarae’n rhan mor hanfodol bwysig o fywyd pob plentyn:

*Drwy fynd ar ôl ystod eang o brofiadau, gweithgareddau ac ymddygiad wrth chwarae, caiff plant gyfle i ddarganfod hyd a lled eu gallu a gwireddu eu potensial ar gyfer cyflawni pethau. Bydd amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn penderfynu i raddau helaeth y math o berson y byddant yn nes ymlaen. Yn amlwg ni fydd diffyg profiadau chwarae ysgogol o werth os ydym am ddatblygu person hyderus, hapus a galluog.*¹⁵

Enghraifft o Arfer 8

Darpariaeth Chwarae ym Mhowys¹⁶

Mae Canolfannau Integredig i Blant yn cael eu sefydlu yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae chwarae mynediad agored wedi’i staffio yn un o elfennau craidd y gwasanaeth a ddarperir yno.

Cynullwyd tîm o ymarferwyr a oedd yn gyfarwydd â gweithio gyda phlant a phobl ifanc (Ysgolion Fforest, y Comisiwn Coedwigaeth, Celfyddydau Dramatig, Gwaith Chwarae, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, a’r Blynnyddoedd Cynnar ac Addysg). Dewiswyd safleoedd coetir a chanolfan gymunedol fel lleoliadau, a lluniwyd rhaglen. Gwahoddwyd plant a phobl ifanc 8-16 oed oedd yn byw’n ddigon lleol i gyrraedd y safleoedd i fod yn bresennol (daeth llawer o blant draw yn annibynnol, er bod modd mewn rhai achosion i fws mini eu casglu a’u gollwng mewn man cyfarfod). Cynhaliwyd y rhaglen am chwe wythnos a chysylltwyd â dros 130 o blant. Dewisodd tua dau draean fod yn bresennol fwy nag unwaith.

Bu’r plant yn atgyfodi hen sleid fwd yn ystod y bore a gwnaethant ymdrech lew i’w hestyn ryw 15 metr, gan gael gwared ar greigiau a mieri a’i ‘hiro’ â bwceidiau o ddŵr a godwyd o’r afon drwy gadwyn ddynol. Daeth y sleid yn fwyfwy poblogaidd ar hyd y dydd, a chlymodd y gweithwyr chwarae raff gadarn wrth goeden yn y pen uchaf fel bod modd i’r plant eu tynnu eu hunain yn ôl i fyny.

Cafodd rhai gweithgareddau a phropiau chwarae eu paratoi ymlaen llaw (er enghraifft ffyn wedi’u torri i adeiladu cuddfan ar un o’r safleoedd yn y goedwig), ond câi’r plant eu hannog i chwarae yn eu ffordd eu hunain (a daeth adeilad y cuddfan yn gêm ffantasi lle roedd y plant yn mynd i ‘hela’). Ymhlith llawer o gyfleoedd eraill ar safle’r goedwig, dangoswyd i’r plant sut i gynnau a rheoli tân (y buon nhw’n coginio’u cinio arno), cawsant gefnogaeth wrth iddynt benderfynu ‘hedfan’ oddi ar fryn gan ddefnyddio parasiwt, a hwyluswyd pysgota (gan ddefnyddio cynrhon coch a balwyd o lannau’r afon a ‘gwialennau’ o frigau sycamorwydd).

Roedd un o’r cynlluniau peilot yn cynnwys nifer o bobl ifanc sydd â namau corfforol a meddyliol, a dyma oedd y tro cyntaf i rai ohonynt gael profiad o fwd a thanau.

Cyswllt:

Mike Greenaway
Chwarae Cymru am wybodaeth, cyngor, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori ar bob agwedd ar y ddarpariaeth chwarae
E-bost: mike@playwales.org.uk

Gwaith mewn ysgolion

Enghraifft o Arfer 9

Ysgol Gyfun Sandfields, Castell-nedd Port Talbot

Mae Ysgol Gyfun Sandfields wedi sefydlu canolfan adnoddau cefnogi astudio newydd, a luniwyd gyda chymorth ariannol gan General Electric (GE) ac sy’n cael ei staffio gan gynorthwy-ydd llyfrgell sy’n amlwg gyfrifol am gynnal gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae ariannu hefyd yn galluogi’r Pennaeth i ychwanegu at yr hyn a gynigir ar ôl ysgol drwy gynnwys y gymuned ar ffurf gweithiwr Rhaglen Cynhwysiad Ieuenctid (RhCI). Mae’r deilliannau yn sgîl hyn yn newid bywydau llawer o ddisgyblion risg uchel yr ysgol yn ôl y Pennaeth:

Mae Sandfields mewn ardal Cymunedau’n Gyntaf, lle mae angen yr ymagwedd feithringar rydym ni’n ei chynnig ar nifer sylweddol o’r plant er mwyn helpu i gynyddu eu cyflawniad.

Mae’r ganolfan adnoddau ar agor o 3.30pm i 5pm bob diwrnod ysgol. Mae hanner cant o blant yn ei defnyddio, ac yno ceir cyfrifiaduron, teledu sgrîn lydan, clwb llyfrau a gêmiau fel scrabble. Mae technegydd TG yn helpu gyda’r gweithgareddau meddalwedd a chyfrifiadurol. Mae’r gweithiwr RhCI yn canolbwyntio ar ddau grŵp o ddisgyblion risg uchel yn y ganolfan. Neilltuwyd man arall lle gall y disgyblion hyn drafod eu problemau gyda’r gweithiwr RhCI sy’n trefnu unrhyw gamau dilynol neu gyfeirio angenrheidiol. Drwy fod ar y safle mae’r gweithiwr ieuenctid wedi gallu annog llawer o’r plant i fynychu grwpiau ieuenctid ar ôl ysgol yn y gymuned ac mae wyth yn awr yn mynd i glwb arlwygo a choginio ar ôl ysgol.

*...Mae’n rhaid i chi fod yma i brofi awyrgylch ein canolfan – mae fel cartref arall ac yn hafan i gynifer o’n plant.*¹⁷

Cyswllt:

Mike Gibbon, Pennaeth
E-bost: m.gibbon@neath-porttalbot.gov.uk

Enghraifft o Arfer 10

Communities that Care (CtC) UK – Ochr Ddwyreiniol Abertawe, Gwaith yn yr Ysgol

Cyflawniad academiaidd isel a nodwyd gyntaf yn yr ysgol gynradd oedd un o’r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer gwaith yn Ochr Ddwyreiniol Abertawe. Mae’r Adran Addysg a’r Ysgolion wedi gweithio’n galed yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf i godi safonau, ac mae nifer y graddau A-C ar lefel TGAU yn yr ysgol uwchradd leol wedi codi o 20% ym 1997 i 41% yn 2003.

Sefydlwyd Prosiect Charlie, rhaglen addysg cyffuriau sgiliau bywyd ABChI, mewn un ysgol gynradd yn 2000 ac mae wedi dod yn rhan o’r ymagwedd ysgol gyfan at amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camddefnyddio cyffuriau. Mae’r rhaglen yn cynnwys cyfres o ryw 20 gwers sy’n trafod hunanbarch, perthnasoedd, gwneud penderfyniadau, gwrthsefyll pwysau cyfoedion a gwybodaeth am gyffuriau, ac mae’n cael ei chyflwyno gan yr athrawon dosbarth gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau. Canfu gwerthusiad o’r rhaglen yn Llundain fod y plant oedd yn cymryd rhan yn cael mwy o wybodaeth am effeithiau cadarnhaol a negyddol cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon na’u cyfoedion mewn grŵp rheoli a chanfu astudiaeth ddilynol fod cyfranogwyr yn llai tebygol o smygu neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon o’u cymharu â grŵp o’u cyfoedion 13 a 14 oed yn y dosbarth.

Cyswllt:

Ann Fairington
E-bost: ann@communitiesthatcare.org.uk

¹⁵ *The First Claim... a framework for playwork quality assessment.* 2004. Chwarae Cymru (Play Wales)

¹⁶ Addaswyd o erthygl gan Nick Waller a ymddangosodd yn *Play for Wales* Rhifyn 16 Haf 2005, Chwarae Cymru

¹⁷ Addaswyd yr enghraifft hon o arfer o erthygl a ymddangosodd yn *Extra Time Special: Supporting Out-of-School-Hours Learning*, tymor yr hydref 2005, Rhifyn 125, ContinYou: www.continuity.org.uk



Enghraifft o Arfer 11

Ar Drywydd Pen-y-bont ar Ogwr-
Cymodwyr yr Iard Chwarae

Mae'r Athro Arbenigol Ar Drywydd ar gyfer Cefnogi Ymddygiad, ynghyd â Chynorthwyr Cefnogi Dysgu, yn cynnig hyfforddiant i ddisgyblion, menywod cinio ac athrawon er mwyn sicrhau cymodwyr ar yr iard. Mae hyn yn annog datrys gwrthdaro a phroblemau, gan leihau bwllo ac agweddau ymosodol wrth chwarae.

Bydd cymodwyr yr iard chwarae yn mynd â'r rheiny sy'n dadlau i ardal benodol, yn esbonio'r rheolau, ac yn hwyluso sesiwn datrys problemau lle deuir i gytundeb neu gyfaddawd a'i gofnodi.

Gwerthuswyd y rhaglen drwy holiaduron ysgol a grwpiau ffocws. Roedd yr effaith sylweddol yn cynnwys:

- 43% o ostyngiad yn y myfyrwyr oedd yn dweud eu bod wedi cael eu taro neu eu cicio o fewn 12 mis
- 56% o ostyngiad yn y merched oedd yn teimlo'n ofnus
- 35% o ostyngiad yn y disgyblion oedd yn dweud eu bod wedi cael eu trin yn gas

Cyswllt:

John Williams, Ar Drywydd Pen-y-bont ar Ogwr
E-bost: ontrack@bridgend.gov.uk

Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd

Amlygodd adolygiad o effeithiolrwydd rhaglenni cefnogi magu plant¹⁸ fod ymyriadau cynnar yn arwain at ganlyniadau gwell a mwy parhaol, ond bod ymyrraeth hwyrach yn well na dim o gwbl.

Enghraifft o Arfer 12

Cyfranogiad Plant a Theuluoedd,
Pen-y-bont ar Ogwr

Bob blwyddyn ers 2002, mae'r Bartneriaeth Blant ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal Arddangosfa a Diwrnod o Hwyl i blant a'u theuluoedd. Fe'i cynhelir yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae'r Diwrnod yn darparu gweithgareddau thematig i blant oddi mewn i arddangosfa o wasanaethau a chyfleoedd i blant a'u theuluoedd. Mae rhieni hefyd yn cael cyfle i leisio barn ar wasanaethau a chyfrannu at ddatblygiad blaenoriaethau'r Bartneriaeth.

Mae'r digwyddiad wedi tyfu bob blwyddyn, ac yn 2005, roedd dros 2,500 o blant, gyda'u rhieni/gofalwyr, yn bresennol (a'r themâu oedd Straeon Tylwyth Teg a Rhigymau).

Cyswllt:

Les Jones, Cydlynnydd Fframwaith
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr
E-bost: joneslm@bridgend.gov.uk

Enghraifft o Arfer 13

Prosiect Ataliol ar gyfer plant 4-11 oed – Grŵp Arweinyddiaeth Trosgynnal
(OLG) De Cymru. Braslun o Gynnig.

Mae OLG De Cymru'n paratoi cynnig ariannu i sefydlu prosiectau mewn un neu ddau o ardaloedd clystyrau ysgol sy'n darparu rhaglenni cefnogi teuluoedd. Mae'r cynnig wedi'i seilio ar y model a ddatblygwyd gan Ar Drywydd (gweler yr enghreifftiau o arfer uchod) a bu Ar Drywydd Tylorstown yn rhan o'r gwaith drafftio.

- Gwasanaethau arbenigol wedi'u targedu o fewn cyd-destun o gefnogaeth a rhwydweithiau cyffredinol gwell.
- Nodi'r rheiny sydd yn y perygl mwyaf o gael eu heithrio'n gymdeithasol yn gynnar.
- Continwrm o wasanaethau ataliol.
- Cynllunio a chyflwyno aml-asiantaeth.
- Gwella integreiddiad gwasanaethau.

Mae'r pwyslais ar sefydlu llawer o arfer proffesiynol ar y cyd, gan fynd y tu hwnt i waith mwy cyfarwydd sy'n pwysleisio creu rhwydweithiau a strategaeth aml-asiantaeth, ac mae wedi'i seilio ar ddarparu ymyriadau lluosog sy'n pontio ffiniau confensiynol a phroffesiynol. Mae'r ymyriadau hyn hefyd wedi'u targedu at sawl lefel, o ddarparu gwasanaethau cyffredinol i unrhyw deulu sydd yn yr ardal i drefniadau cefnogi dwys ar gyfer plant a theuluoedd unigol. Mae'r cynnig hefyd yn troi o gwmpas cyfranogiad a chynhwysiad y gymuned, fel cleientiaid ac wrth gyfrannu at gyflwyno gwasanaethau.

Nodweddion allweddol y cynnig hwn yw ei fod:

- Yn wirioneddol ar sail aml-asiantaeth
- Yn canolbwyntio ar y gymuned (ar sail ardal glwstwr yr ysgol)
- Yn cyfuno ymyriadau cyffredinol ac wedi'u targedu
- Yn integreiddio ac yn cydleoli gwasanaethau
- Wedi'i seilio ar dystiolaeth
- Yn adeiladu ar ffactorau gwydnwch a lleihau risg
- Yn dileu rhwystrau i rannu gwybodaeth
- Yn datblygu ymagwedd gydweithredol

Ar ben hyn bydd nifer o elfennau trosgynnal i'r prosiect a fydd yn gweithredu ar draws y saith maes, ac mae'r elfennau sy'n cael eu trafod yn cynnwys:

- Cyfnewid hyfforddiant ac arfer
- Gwasanaethau arbenigol
- Astudiaeth arhydol o'r plant sy'n derbyn gwasanaethau (elfen allweddol o'r fframwaith monitro a gwerthuso cyffredin)
- Dadansoddiad manwl o'r gost/manteision

Cyswllt:

James Cawley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
E-bost: jwcawley@valeofglamorgan.gov.uk

¹⁸ What Works in Parenting Support? Adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol (Moran, Ghatе & Van der Merwe, 2004).

Enghraifft o Arfer 14

Communities that Care (CtC) UK Adolygiad o Raglenni Magu Plant

In *A Guide to Promising Approaches* (2005), mae CtC yn nodi nifer o raglenni magu plant llwyddiannus sydd i gyd yn dangos lefelau gwahanol o dystiolaeth o newid cadarnhaol yn ymddygiad plant yn achos y teuluoedd hynny a fu'n ymwneud â'r rhaglenni.

Mae'r rhaglenni'n cynnwys:

- **Parenting Positively** (3-5 oed a 6-10 oed) – llyfrynau cyngor i rieni ar wobrwyo ymddygiad cadarnhaol a dileu ymddygiad negyddol. Mae sesiynau 'hybu' yn dilyn y prif gwrs. Roedd y gwerthusiad yn dangos gwell ymddygiad gan y plant ac arweiniodd hynny at estyn nifer ac amseriad y sesiynau hybu mewn ymateb i dystiolaeth fod yr enillion yn dechrau pylu gydag amser.
- **The Incredible Years (Webster-Stratton)** (3-12 oed) – ffocws ar wella rhyngweithio rhwng rhieni a phlant gan gynyddu sgiliau datrys problemau. Dengys ymchwil o'r UD fod plant sy'n cyfranogi yn hyn yn arddangos llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol a negyddol, yn ymateb yn fwy parod i rieni, yn arddangos mwy o ymddygiad cadarnhaol ac yn fwy cariadus gyda'u rhieni ac yn fwy parod i fynd i'r ysgol. Mae astudiaethau'n awgrymu bod y cwrs fideo 10-12 wythnos wedi cyflawni canlyniadau cymaradwy i lawer mwy o oriau o therapi unigol. Mae gwerthusiad o raglen magu plant grŵp Webster-Stratton gyda rhieni plant cyn ysgol 'mewn perygl' mewn Canolfannau Cychwyn Cadarn yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru wedi dangos gwell perthynas rhwng plant a rhieni a gwell ymddygiad gan y plant.

- **Triple P (Positive Parenting Programme)** (0-16 oed) – strategaeth ar sawl lefel sy'n ceisio atal problemau difrifol o ran ymddygiad, emosiwn a datblygiad plant, drwy wella sgiliau gwybodaeth a hyder rhieni. Daeth y cynllun hwn o Awstralia'n wreiddiol, ond mae ar gael yn eang yn y DU. Mae corff sylweddol o dystiolaeth o werthusiadau yn Awstralia sy'n dangos ymddygiad aflonyddgar sylweddol lai gan blant, a hefyd llai o fagu plant camweithredol, gwrthdaro priodasol a straen ac iselder wrth fagu plant, mewn ymateb i'r rhaglen.
- **Handling Children's Behaviour** (3-11 oed) – cwrs 10 wythnos i grwpiau bach o rieni gyda phwyslais ar gynyddu hyder a hunanbarch rhieni a gwella'u dealltwriaeth o ddatblygiad ymddygiad plant. Dangosodd y gwerthusiad welliannau o ran hunanbarch rhieni ac ymddygiad plant.
- **The Family Nurturing Network** (2-12 oed) – ar sail rhaglen 'The Incredible Years'. Cafodd y gwerthusiad hyd i welliannau sylweddol a pharhaol o ran sgiliau magu plant ac ymddygiad y plant.

Cyswllt:

Ann Fairnington
E-bost: ann@communitiesthatcare.org.uk

Enghraifft o Arfer 15

Ar Drywydd RhCT– Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Ar Drywydd Plws

Mae Ar Drywydd RhCT yn gweithio'n agos gydag Ysgol Gymunedol Ferndale a'i grŵp clwstwr mewn amrywiaeth o raglenni i unigolion a grwpiau. Maent wedi datblygu Ar Drywydd Plws, menter bartneriaeth sy'n adeiladu gwasanaeth cefnogaeth aml-asiantaeth i deuluoedd (yn unol ag argymhellion "Gweithredu'r Hawliau" a'r nodau strategol ar gyfer Dimensiwn Cymunedol Ysgolion a chydleoliad gwasanaethau).

Yn ogystal â datblygu canolfan i blant a theuluoedd yn yr ysgol, mae gan Ar Drywydd Plws raglen o sesiynau grŵp a gwaith uniongyrchol gyda rhieni a phlant. Cefnogir hyn gan ymweliadau cartref, a gyflwynir gan weithwyr Ar Drywydd, addysg a gwasanaethau plant, y gwasanaeth ieuenctid, yr Heddlu, yr ysgol, y gwasanaeth ieuchyd, y Tîm Troseddau Ieuenctid, Barnardos, Drugaid a grwpiau cymunedol.

Mae'r sesiynau ar wahân gyda rhieni a phlant yn edrych ar bynciau fel:

- Cyfathrebu effeithiol rhwng rhieni a phlant
- Ymwybyddiaeth o gyffuriau yn y gymuned
- Iechyd rhyw a pherthnasoedd
- Trafodaeth mewn grwpiau – gyda staff ysgolion
- Trafodaeth mewn grwpiau – gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid

Cyswllt:

Mick Millman, Prosiect Tylorstown, RhCT
E-bost: mick.millman@rhondda-cynon-taff.gov.uk



Hyfforddiant a chyflogaeth

Yn aml cyfeirir at ddiffyg hyfforddiant a chyflogaeth mewn ardaloedd difreintiedig lle ceir cyfartaledd uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Gallai ymagweddiad partneriaeth gyda Chanolfan Byd Gwaith helpu i edrych ar gamau gweithredu lleol posib i gynorthwyo pobl ifanc anfodlon i hygyrchu cyfleoedd hyfforddi a'u paratoi ar gyfer cyflogaeth. Gallai'r enghreifftiau gynnwys prosiect penodol i gynorthwyo cyflogwyr a'u cynghori ar arfer cyflogi o ran cyn-droseddwyr, sefydlu rhwydwaith o gyflogwyr i fynychu cyfarfodydd prosiect, edrych ar ffyrdd i bobl ifanc ddatblygu syniadau busnes newydd fel entrepreneuriaid cymdeithasol a chynlluniau gwaith gwirfoddol a hyfforddiant a leolir yn y gymuned i ddarparu profiad gwaith a datblygu isadeiledd ffisegol y gymuned.

Enghraifft o Arfer 16

Canolfan Quinzone, Quinton, Birmingham

Un enghraifft o fodel a bennwyd yn lleol yw “The Quinzone” yn Birmingham. Yma mae adeilad nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar gampws ysgol uwchradd leol wedi cael ei adnewyddu i safon uchel. Gwnaed penderfyniad polisi'n gynnar bod angen i ffabrig yr adeilad adlewyrchu proffesiynoldeb a pharch tuag at y bobl ifanc oedd yn ei ddefnyddio. Talwyd sylw i fanylion ac ansawdd, yn hytrach na dim ond ‘rhoi cot o baent’ ar y waliau i guddio esgeulustod y gorffennol. Yn gynyddol, mae gwasanaethau sector cyhoeddus a phreifat wedi symud i'r adeilad. Bu cwmni codi tai cenedlaethol yn adnewyddu ac yn darparu offer ar gyfer gweithdai galwedigaethol, a oedd yn cynnwys gwaith plymio, gwaith coed a gosod briciau, dan oruchwyliaeth hyfforddwyr medrus. Mae salon trin gwallt fodern mewn rhan arall o'r cyfadeilad, ac mae ganddi gysylltiadau agos â busnesau lleol sy'n darparu cyfleoedd yn y gweithle. Mae rhannau o diroedd yr ysgol wedi cael eu hagor i'r cyhoedd, gyda meinciau, lawntiau a gwelyau blodau wedi'u dylunio a'u cadw mewn trefn gan hyfforddeion ifanc sy'n dilyn prosiect garddwriaeth y ganolfan.

Dechreuodd oes Quinzone ym mis Ionawr 2001 fel Parth Gweithredu Addysg (Education Action Zone), a oedd yn gweithio gyda 7 ysgol gynradd, 1 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig Quinton. Ym mis Tachwedd 2002 agorodd Canolfan Quinzone gyda thri phrif nod:

- Helpu i godi cyrhaeddiad
- Helpu i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu
- Gwellu mynediad y gymuned i ddysgu

Mae Cymuned Dysgu ac Addysgu Quinzone yn awr yn coffleidio amrywiaeth o fentrau gwahanol, sydd i gyd yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth gydag asiantaethau ac unigolion eraill.

Academi Hyfforddi Quinzone / Lovell Construction
Agorodd y bartneriaeth hon rhwng Quinzone a'r cwmni adeiladu lleol Lovell yr academi yn 2003 i ddiwallu'r angen am bobl a fyddai'n hyfforddi i fod yn blymwyr, seiri coed, addurnwyr a gosodwyr briciau.

Hyfforddiant Galwedigaethol
Cynigir hyfforddiant galwedigaethol i bobl ifanc 14-19 oed, ac mae 17 o ysgolion lleol yn defnyddio'r cyfleuster hwn. Gall myfyrwyr gael mynediad i hyfforddiant galwedigaethol ym meysydd Adeiladu, Trin Gwallt, Trin Blodau, Garddwriaeth a lechyd.

Dysgu ac Addysgu
Er mwyn symud tuag at wella lefelau cyrhaeddiad, mae Quinzone yn cyflogi dau athro ar gyfer ymyrraeth dargedig, sy'n gweithio gyda disgyblion yn yr ysgolion lleol. Maent yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn 6 yn bennaf, gan eu cefnogi gyda llythrennedd a rhifedd.

Ystafell TG
Mae'r Ystafell TG yn darparu dosbarthiadau am ddim i oedolion. Gan gychwyn ar lefel dechreuwyr pur, mae'n darparu sylfaen eang ar gyfer datblygu sgiliau cyfrifiadurol. Wedyn gall myfyrwyr ddewis o blith modiwlau amrywiol er mwyn teilwra'r dysgu at yr angen unigol.

Mae Canolfan Quinzone hefyd yn cynnwys oriel gelf, Hafan i Ieuenctid (Safe Haven - gweler isod), ac yn cynnal prosiectau amgylcheddol cymunedol (gweler isod).

Cyswllt:
Keith Slater, Cyfarwyddwr
www.quinzone.bham.org.uk am fanylion cyswllt a gwybodaeth bellach.

Enghraifft o Arfer 17

Canolfan Byd Gwaith yng Nghymru: Bargaen Newydd i Bobl Ifanc 18 – 24 (NDYP)

Bargaen Newydd i Rieni Unigol (NDLP)

NDYP yw un o fentrau rhaglen *Welfare to Work* y Llywodraeth. Mae'n mynd i'r afael â phroblem diweithdra tymor hir ymhlith pobl ifanc 18-24 oed drwy ddarparu hyfforddiant, addysg, profiad gwaith a chefnogaeth o ansawdd uchel wrth chwilio am swyddi. Prif nod NDYP yw symud cyfranogwyr i swyddi cynaliadwy mor gyflym â phosib. Yn ystod eu cyfnod ar y rhaglen, cefnogir y cyfranogwyr gan Ymgynghorydd Personol y Fargaen Newydd. Gall y person hwn fod yn Ymgynghorydd Cyflogaeth i'r Anabl ar gyfer pobl â phroblem iechyd neu anabledd sy'n chwilio am swyddi. Dylai amrywiaeth o gyfleoedd blaengar fod ar gael i ddiwallu gwahanol anghenion, cefndiroedd a phrofiadau'r cyfranogwyr, ac mae'n cynnwys cyfweiliadau diagnostig, i bennu'r Opsiwn gorau ar gyfer unigolion, sy'n cynnwys Addysg a Hyfforddiant, Opsiwn Gwirfoddol, Tasglu Amgylcheddol a Chyflogaeth gyda Chymhorthdal.

Rhaglen wirfoddol yw **NDLP** sy'n darparu cyfle i rieni unigol gwrdd ag ymgynghorydd personol a derbyn help a chefnogaeth i wella'u rhagolygon a'u safonau byw drwy dderbyn a chynyddu gwaith cyflogedig. Cyflwynir y rhaglen drwy gyfres o gyfweiliadau llwyth achosion. Os bydd rhiant unigol yn cytuno i ymuno â'r NDLP byddant yn llunio cynllun gweithredu realistig gyda'u Hymgyngorydd Bargaen Newydd i Rieni Unigol, gan fanylu ar y camau i'w cymryd i helpu'r rhiant unigol i ganfod gwaith. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar fudd-daliadau wrth weithio.

Cyswllt:
Eich Canolfan Byd Gwaith leol

Enghraifft o Arfer 18

Progress 2 Work-Link Up

Nod P2W-Link Up yw gwella mynediad i'r ddarpariaeth bresennol a'i datblygu drwy ganolbwyntio ar anghenion y rheiny sy'n wynebu rhwystrau cyflogaeth lluosog – sef y rheiny sy'n gyn-droseddwyr, yn ddigartref neu sy'n camddefnyddio alcohol. Mae'r problemau hyn yn aml yn gyffredin ymhlith y cwsmeriaid hynny sydd â phroblem camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau ac mae'n bosib bod gan rai darparwyr P2W brofiad eisoes o ymdrin â'r materion ehangach sy'n codi.

Mae cynlluniau peilot P2W-Link Up ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Chymoedd y Dwyrain yn ceisio cyfrannu at agenda'r Llywodraeth o daclo eithrio cymdeithasol. Gan adeiladu ar fentrau presennol, bydd y cynlluniau peilot P2W-Link Up yn targedu'r rheiny sydd fwyaf dan anfantais yn y farchnad lafur ac yn ceisio helpu'r cwsmeriaid hynny i gael hyd i waith neu ddatblygu eu hunain i baratoi ar gyfer gwaith. Bydd y cynlluniau peilot yn ceisio helpu'r rheiny mae Canolfan Byd Gwaith wedi cael y trafferth mwyaf i'w cynorthwyo, gan gynnwys rhai sy'n economaidd segur.

Cyswllt:
Swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn yr ardaloedd hynny

Gweithio gyda phobl ifanc ym maes adfywio cymunedol

Enghraifft o Arfer 19

Prosiect Ieuenctid Fernhill

Mae Achub y Plant yn hybu ymwneud plant a phobl ifanc ag adfywio cymunedol yn rhagweithiol. Maen nhw’n awyddus i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn cyfle i fod yn bartneriaid mewn ymdrechion i daclo tloedi plant ac eithrio cymdeithasol ar lefel leol yn ogystal â lefel genedlaethol.

Mae Achub y Plant wedi gweithio gyda phobl ifanc ar Stâd Fernhill yng Nghwm Cynon ers blynyddoedd lawer, gan ddatblygu, mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth *Groundwork* Cynon a Merthyr, prosiect dan arweiniad cyfoedion sy’n dangos gallu pobl ifanc i ddatblygu eu hymateb effeithiol eu hunain i oresgyn anfantais, gwahaniaethu a chyfleoedd llai cyfartal.

Mae Prosiect Ieuenctid Fernhill yn enghraifft o fanteision a rhinweddau ymarferol cynnwys pobl ifanc mewn adfywio cymunedol o dan fenter *Cymunedau’n Gyntaf* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae’r Prosiect yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned mewn lleoliad anffurfiol. At ei gilydd mae’r bobl ifanc yn rhedeg y gwasanaeth eu hunain.

Gweithgareddau yn y prosiect:

- Gwegaffi – mae pobl ifanc yn defnyddio’r caffi fel man cyfarfod, ac yn cael mynediad i gyfrifiaduron yno
- Cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol – mae pobl ifanc yn cynllunio ac yn codi arian ar gyfer teithiau a digwyddiadau cymdeithasol
- Hyfforddiant – gall pobl ifanc gael mynediad i ystod o gyrsiau hyfforddi wedi’u hachredu i adeiladu eu sgiliau a’u hyder. Mae’r cyrsiau wedi cynnwys ysgogiad a hunanbarch, hawliau plant, cyfathrebu a chyfryngu

- Addysg Cyfoedion – mae pobl ifanc yn defnyddio drama’n gyfrwng i archwilio syniadau ynghylch hawliau plant ac wedyn yn cynnal sesiynau mewn ysgolion lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Hefyd cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth cyffuriau ac alcohol gan bobl ifanc ac ar eu cyfer.

Mae’r prosiect hefyd wedi cynllunio, wedi codi arian, ac wedi bod yn rhan o ymweliadau cyfnewid gyda grŵp o Norwy.

Sut cychwynnodd hyn i gyd:

Roedd Achub y Plant wedi gweithio yn yr ardal ers nifer o flynyddoedd, ond ym 1999 lansiwyd eu Cynllun *Saying Power*, a oedd yn ceisio rhoi cyfle i bobl ifanc ar y cyrion ddod yn weithredol yn y gymuned.

Rhoddwyd grant i fenyw ifanc 17 oed o Fernhill – bu’n ymgynghori gyda phobl leol ynghylch yr hyn yr hoffent ei weld yn cael ei newid ac yn cysylltu ag asiantaethau eraill. Penododd Achub y Plant weithiwr ieuenctid i weithio ochr yn ochr â phobl ifanc ar y stâd. Ffurfiodd y bobl ifanc Bwyllgor Ieuenctid gydag 17 o aelodau sy’n cynllunio, yn cyflawni ac yn datblygu gwaith y prosiect. Yn ôl y cadeirydd, sy’n 16 oed:

Rydyn ni’n gweld y rôl fel un sy’n darparu cyfleoedd hyfforddi i’r bobl ifanc eraill sy’n hygyrchu’r prosiect. Rydyn ni’n cynnal a rhedeg yr adeilad ac yn medru lleisio’n barn yn llawn yn y penderfyniadau sy’n effeithio ar y prosiect a’r hyfforddiant maen nhw’n ei ddilyn. Mae pobl ifanc wedi bod yn rhan o hyn o’r cychwyn cyntaf ac mae gennym ni ymdeimlad go iawn o berchnogaeth ar y prosiect.

Cyswllt:

Les Davies, Rheolwr y Prosiect
E-bost: fernhillyouthproject@btconnect.com

Darparu ystod eang o weithgareddau difyr ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae’n bwysig sicrhau na wneir rhagdybiaethau ynghylch y math o weithgareddau y dylid eu darparu. Y cam cyntaf yw gofyn i’r bobl ifanc beth fyddai o ddiddordeb iddynt, cytuno gyda nhw ar yr hyn sy’n ymarferol i’w ddarparu, ac yna dod o hyd i ffyrdd o ddarparu’r gweithgareddau hynny. Mae rhai llwyddiannau cyflym yn bwysig yma fel bod modd i bobl ifanc weld bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifri. Mae hefyd yn bwysig cynnwys teuluoedd a rhwydweithiau cefnogi eraill i gyfranogi a helpu i lunio rhai gweithgareddau.

Enghraifft o Arfer 20

Communities that Care (CtC) UK – Cynghrair Ieuenctid Dwyrain Tawe

Sefydlwyd Cynghrair Ieuenctid Dwyrain Tawe yn 2001 o ganlyniad uniongyrchol i Gynllun Gweithredu CtC. Mae’n gweithredu fel grŵp cydlynu a datblygu ar gyfer yr holl waith gyda phobl ifanc yn yr ardal ac mae wedi dod â’r sectorau gwirfoddol a statudol at ei gilydd i lunio cynllun ieuenctid cynhwysfawr ar gyfer yr ardal. Mae’r cynllun yn cynnwys darparu gweithwyr ieuenctid allgymorth ac annibynnol yn ogystal â darpariaeth mewn canolfannau. Fel rhan o ddatblygiad y cynllun cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau preswyl a oedd yn cynnwys pobl ifanc o’r gymuned.

Mae canolfan ieuenctid newydd wedi agor, yn rhannu adeilad gyda chlinig ymgynghorol i bobl ifanc sydd yng ngofal y Gwasanaeth Iechyd, prosiect datblygu cymunedol a Chanolfan Byw’n Iach sydd newydd ei sefydlu.

Cyswllt:

Ann Fairnington
E-bost: ann@communitiesthatcare.org.uk



Datblygu rhaglenni dargyfeirio mewn ymateb i weithredoedd neu ymddygiad penodol

Enghraifft bosib fyddai datblygu gweithdy beiciau modur neu geir wedi'i anelu at bobl ifanc sy'n ymwneud â throseddau ceir. Yr elfen allweddol yma eto yw peidio â rhagdybio mai dyma'r ateb cywir. Efallai y bydd siarad â phobl ifanc yn dangos y gellid eu dargyfeirio'n well o droseddau ceir drwy fod yn rhan o fath hollol wahanol o weithgaredd trefnedig (fel ymuno â thîm pêl-droed neu fod yn rhan o raglen gweithgareddau awyr agored), neu drwy ddarparu rhaglen gwnsela sy'n gysylltiedig â gweithgaredd arall sy'n trafod effaith troseddau ceir ar y dioddefwyr.

Enghraifft o Arfer 21

Prosiect y Ffenics. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cwrs ymarferol dwys am bum niwrnod yw rhaglen y Ffenics sy'n rhedeg o 0930 i 1600 awr. Mae'n targedu pobl ifanc 13-17 oed sy'n droseddwy'r hysbys neu sydd mewn perygl o droseddu.

Cyfeirir pobl ifanc at y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) gan y Tîm Troseddau Ieuenctid, Prosiect Cynhwysiad Ieuenctid yr Awdurdod Lleol neu o raglenni cwricwlwm amgen yr Awdurdod Addysg Lleol.

Mae'r cwrs yn gofyn llawer yn gorfforol ac yn feddyliol ac yn troi o amgylch gweithgareddau'r GTA, gan geisio creu tîm drwy gael pobl ifanc i gydweithio mewn criwiau (timau). Mae hefyd yn ceisio datblygu potensial y person ifanc, gan roi hwb i hunanhyder a hyrwyddo sgiliau arwain.

Mae'r cwrs yn cynnwys driliau safonol y GTA ac ymarferion ffug sy'n defnyddio cyfarpar wedi'i addasu'n arbennig. Mae'r wythnos yn cynnwys iechyd a diogelwch, driliau pwmp, trin pibellau, a llithro a phitsio ysgolion – dulliau cywir o'u dringo a dod i lawr.

Mae hefyd yn cynnwys Cymorth Cyntaf sylfaenol, gweithdrefnau Chwilio ac Achub ac ymwybyddiaeth o Ddamweiniau ar y Ffyrdd.

Mae pob diwrnod yn cynnwys mewnbwn yn yr ystafell ddarlithio sy'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth y person ifanc o beryglon tân a chanlyniadau eu gweithredoedd wrth gynnau tanau'n fwriadol, gwneud galwadau ffug a gwefryrru. Ar ddiwrnod olaf yr wythnos ceir ymarferiad a pharêd llwyddiant lle caiff pob person ifanc dystysgrif am fod yn bresennol.

Cyswllt:

Chris Hughes, Swyddog Hyfforddiant a Chysylltiadau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Rhif ffôn: 0870 6060699

Wrth dargedu gwaith ar gychwyn tanau a damweiniau ffordd y cam cyntaf yw nodi faint sy'n ymwneud â phobl ifanc ac wedyn archwilio'r ffactorau risg sy'n golygu eu bod mewn perygl o fod yn rhan o'r achosion hyn neu sbarduno ymddygiad o'r fath. Gall y gwaith hwn wedyn hysbysu dewislen o opsiynau gan gynnwys rhaglenni addysgol i roi gwybodaeth i bobl ifanc a rhoi cyfle iddynt addasu eu hymddygiad ochr yn ochr â rhaglenni wedi'u targedu fel y rheiny a ddisgrifiwyd isod.

Enghraifft o Arfer 22

Cwrs Sgiliau Bywyd. Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) a Chartref Plant Diogel Hillside

Bu Nick Dodd a Gemma Thomas (GTACGC) a Delfryn Thomas (Heddlu De Cymru) sy'n ffurfio'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol (menter a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gwasanaethu ardal Bae Abertawe), ynghyd â Diana Harries (Swyddog Cyswllt Ieuenctid GTACGC) yn datblygu cwrs tri diwrnod o'r enw Sgiliau Bywyd, ar y cyd â staff yng Nghartref Plant Diogel Hillside.

Cymerodd chwech o bobl ifanc ran yn y rhaglen a chawsant eu dewis am eu cefndir troseddau yn ymwneud â tân neu gerbydau. Lluniwyd y cwrs i ddatblygu pedwar maes sgiliau allweddol; cyfathrebu, gwaith tîm, diogelwch a chanlyniadau. Yn ystod y tri diwrnod bu'r bobl ifanc a thri aelod o staff Hillside yn cymryd rhan weithredol mewn driliau, gwaith ysgolion, cymorth cyntaf, chwilio ac achub a thrin pibellau a oedd nid yn unig yn atgyfnerthu'r pedwar maes sgiliau ond hefyd yn helpu i annog y grŵp i ymlacio a siarad yn agored gyda'r tîm.

Bu sesiynau damcaniaethol pellach ar ymddygiad pobl tuag at dân, damweiniau ar y ffordd a dangos sut mae'r gwasanaeth tân yn achub person sy'n gaeth mewn cerbyd o gymorth i ddangos i'r myfyrwyr sut gallai eu hymddygiad gael effaith arnyn nhw eu hunain ac eraill.

Dangosodd y gwerthusiad agwedd ar y diwedd newid o'u hagwedd negyddol at yr Heddlu a gwelliant amlwg yn eu dealltwriaeth o effaith eu gweithredoedd arnynt eu hunain a'r cymunedau lle maen nhw'n byw.

Bwriedir datblygu'r math yma o gwrs ymhellach.

Cyswllt:

Chris Hughes. Swyddog Hyfforddiant a Chysylltiadau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Rhif ffôn: 0870 6060699



Enghraifft o Arfer 23

Panel Cynhwysiad a Chefnogaeth Ieuenctid yn Abertawe

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnal Paneli Cynhwysiad a Chefnogaeth Ieuenctid (YISPs) peilot yng Nghymru a Lloegr. Mae YISP ar waith yn Abertawe. Mae'r model YISP yn cynnwys grwpiau cynllunio aml-asiantaeth sy'n gweithio i geisio atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogi gwirfoddol i blant risg uchel 8-13 oed a'u teuluoedd.

Cyswllt:
Eddie Isles
Tim Troseddau Ieuenctid Abertawe
E-bost: eddie.isles@swansea.gov.uk

Enghraifft o Arfer 24

Y Rhaglen Cynhwysiad Ieuenctid (RhCI)

Mae'r rhain yn gweithredu mewn sawl tîm troseddau ieuenctid. Mae'r RhCI yn ymyrraeth wedi'i thargedu at bobl ifanc ar gyrion bywyd troseddol, er mwyn eu hatal rhag datblygu'n droseddwyr.

Mae cynlluniau RhCI hŷn yn targedu pobl ifanc 13–16 oed yn y gymdogaeth ddifreintiedig, gyda phob un yn targedu 50 y mae cryn berygl iddynt droseddu. Mae'r rhaglen yn darparu gweithgareddau a chymorth strwythuredig i lywio'r bobl ifanc hyn oddi wrth droseddau yn ogystal â helpu i wella presenoldeb yn yr ysgol a lleihau gwaharddiadau.

Gall cyfeiriadau i'r rhaglen ddod oddi wrth yr heddlu, ysgolion a thirgolion lleol, gyda sefydliadau gwirfoddol yn ymwneud â rheoli, dylunio a chyflwyno'r cynlluniau. Mae RhCI yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i gynnwys pobl ifanc a'u teuluoedd, gyda chefnogaeth gwasanaethau wedi'u targedu, sy'n cynnwys: canolfannau cyswllt teuluol mewn ysgolion; clybiau gwaith cartref amser cinio ac ar ôl ysgol, a chlybiau gwyliau ysgol; canolfannau sgiliau sy'n darparu hyfforddiant a chymwysterau; mentora; chwaraeon a mathau eraill o hamdden adeiladol; a gwasanaethau cefnogi i rieni a gofalwyr.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar y 50 o bobl ifanc lle roedd y risg fwyaf, mae'r rhaglen hefyd yn annog grwpiau ehangach o bobl ifanc i gyfranogi yng ngweithgareddau'r rhaglen, gan gynnwys brodyr, chwiorydd a chyfoedion.

Cyswllt:
Joe Hayman, Ymgynhorydd Polisi
Ffôn: 020 72719095

Enghraifft o Arfer 25

Prosiect Safe Haven Canolfan Quinzone, Quinton, Birmingham

Yn rhan o Ganolfan Quinzone (gweler enghraifft o arfer 16) lansiwyd prosiect Safe Haven cyntaf y DU ar gyfer pobl ifanc ym mis Chwefror 2004. Partneriaeth yw hon sy'n cynnwys West Midlands Police, lle caiff heddwes ei secondio i weithio'n benodol gyda phobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn helpu i atal y person ifanc rhag llithro i fywyd o droseddau. Mae'r model wedi'i seilio ar fenter a ddatblygwyd gan Sefydliad Eisenhower yn UDA.

- Ymhlith cyflawniadau eraill mae Safe Haven Quinzone wedi:**
- Rheoli Panel Cynhwysiad a Chefnogaeth Ieuenctid Quinton
 - Sefydlu cyfleusterau galw heibio i bobl ifanc ar draws Quinton mewn sawl lleoliad
 - Cynnal digwyddiadau ymgynghori rhwng pobl ifanc a'r heddlu
 - Sefydlu'r Disgo B32 i'r Arddedau
 - Cynnal cyfarfodydd gyda rhieni mewn ysgolion
 - Ymwneud â rhaglenni dysgu cymunedol
 - Creu cysylltiad â wardeniaid stryd a wardeniaid stryd iau
 - Coladu gwybodaeth ar fannau trafferthus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a thargedau ymatebion
 - Sefydlu Cynghrair X-Box ar gyfer pobl ifanc
 - Cynnal gwaith ar dawelu meddwl y cyhoedd

Cyswllt:
Keith Slater, Cyfarwyddwr
www.quinzone.bham.org.uk am fanylion cyswllt a rhagor o wybodaeth.

Datblygu gweithgareddau chwaraeon

Mae llawer o dystiolaeth ymchwil sy'n cysylltu gwell iechyd a chyfranogiad mewn chwaraeon gyda lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau.

Enghraifft o Arfer 26

Grŵp Strategol Chwaraeon ar Olwynion, Pen-y-bont ar Ogwr

Yn dilyn y Gynhadledd Fframwaith Flynyddol Gyntaf yn 2002, a chyflwyniad gan bobl ifanc, rhoddwyd blaenoriaeth i sglefyrrddio yng Nghynllun Partneriaeth y Bobl Ifanc. Ffuriodd grŵp o bobl ifanc Grŵp Gweithredu *Think Sk8* a chynnal Cynhadledd Sglefyrrddio, gyda chefnogaeth Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ymagwedd gychwynnol hon wedi arwain at sefydlu Grŵp Strategol Chwaraeon ar Olwynion, lle mae pobl ifanc yn chwarae rhan amlwg. Maen nhw wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth, dewis safleoedd ar gyfer parciau sglefrio a chyfleusterau tebyg, dyluniad cyfleusterau, ac, yn fwyaf diweddar, buont yn rhan o'r cyfarfodydd a'r cyfweiliadau yn y broses dendro ariannol lle dewiswyd contractwyr i adeiladu'r safleoedd.

Cyswllt:
Les Jones, Cydlynnydd y Fframwaith
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr
E-bost: joneslm@bridgend.gov.uk

Enghraifft o Arfer 27

Heddlu De Cymru – Hyfforddwyr Pêl-droed Cymunedol McDonalds

I gefnogi ymdrechion Heddlu De Cymru i gysylltu â phobl ifanc, y mae llawer ohonynt ymhlith yr anoddaf i'w cyrraedd a'r mwyaf difreintiedig, a chynnig gweithgareddau amgen iddynt, mae McDonalds wedi darparu hyfforddiant i Swyddogion Cymunedol lleol gael eu hachredu fel hyfforddwyr pêl-droed. Yn dilyn hynny, mae'r swyddogion wedi gweithio gyda thimau pobl ifanc, fel hyfforddwyr a dyfarnwyr, ac maent wedi llwyddo i ddenu llawer o ddiddordeb gan bobl ifanc a fyddai fel arall yn brin o bethau i'w gwneud â'u hamser. Yn ogystal â chynnig mwy o ddewis i'r bobl ifanc, mantais arall yw bod hyn yn darparu cyfle i helpu'r bobl ifanc i weld yr heddlu nid dim ond fel gwisg swyddogol, ond hefyd fel wyneb cyfeillgar y gallant droi atynt am help a chynghor. Yn ei dro, mae'r cyswllt hwn yn galluogi swyddogion yr heddlu i gyfeirio'r bobl ifanc at asiantaethau cefnogi eraill.

Mae llwyddiant y cynllun yn amlwg bob blwyddyn yn Niwrnod Agored Heddlu De Cymru i Gymunedau, lle mae McDonalds yn helpu i lwyfannu cystadleuaeth bêl-droed ar hyd y dydd. Mae bysus yn llawn plant a rhieni o gymunedau ar draws yr ardal yn dod i'r gystadleuaeth i fwynhau, ac i weld sut mae'r heddlu'n gweithio.

Cyswllt:

Neil Kinrade
E-bost: neil.kinrade@south-wales.pnn.police.uk

Gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau

Mewn ardaloedd lle mae pobl ifanc yn arddangos problemau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, gall fod yn briodol taclo'r broblem yn uniongyrchol drwy gyfeirio at wasanaeth cyngor a chwnsela cyffuriau ac alcohol. Yr awdurdod iechyd neu asiantaeth leol arbenigol arall fydd y brif asiantaeth briodol o bosib. Gallai'r datblygiadau eraill gynnwys sefydlu lleoliad cymdeithasol deniadol ar gyfer pobl ifanc tebyg i glwb neu dafarn, ond heb y gwerthiannau alcohol sy'n gysylltiedig â hynny – er y byddai ymagwedd o'r math yma'n galw am sicrhau cryn dipyn o arian.

Gallai fod peth cyfle hefyd i addysg a dysgu gydol oes weithio mewn partneriaeth gyda'r gwasanaethau troseddu ieuencid a phrawf i ddatblygu rhaglenni a gweithgareddau addysgol yn y gymuned er mwyn i'r holl blant a phobl ifanc gynyddu eu hymwybyddiaeth.

Enghraifft o Arfer 28

Communities that Care (CtC) UK – Ochr Ddwyreiniol Abertawe

Un o'r ffactorau risg a nodwyd yn yr archwiliad aml-asiantaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer Ochr Ddwyreiniol Abertawe oedd y ffaith fod cyffuriau, yn enwedig alcohol, ar gael yn rhy hwylus, a hefyd y ffaith fod salwch cyfyngol tymor hir yn cael effaith ddifrifol ar lefelau cyflogaeth yn yr ardal. Dros y blynyddoedd ers i'r cynllun gweithredu gael ei ddatblygu yn 2000 bu nifer o fentrau gan Safonau Masnach, Heddlu De Cymru a Thollau Tramor a Chartref i fynd i'r afael ag argaeledd cyffuriau ac alcohol.

Sicrhawyd arian o Gronfa Cyfleoedd Newydd i sefydlu Canolfan Byw'n lach yn yr ardal a datblygodd y staff raglen sy'n cynnwys gwaith addysg cyfoedion gyda phobl ifanc ar faterion megis alcohol a sylweddau eraill.

Cyswllt:

Ann Fairnington
E-bost: ann.fairnington@communitiesthatcare.org.uk

Cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o wella'r cymunedau lle maen nhw'n byw

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn tyfu i fyny i barchu'r gymuned lle maen nhw'n byw yn ogystal â'r trigolion sy'n byw yn eu hymyl. Yn aml iawn gall brwdfrydedd plant wrth chwarae ac ymddygiad heriol pobl ifanc arwain at fandaliaeth, graffiti a sbwriel. Yn aml caiff pobl ifanc eu beio am yr union reswm hwn.

Un ffordd o ymateb i hyn yw sicrhau bod pobl yn chwarae rhan fwy yn eu cymuned leol drwy:

- Weithio ar brosiectau amgylcheddol sy'n atgyweirio difrod, yn dileu graffiti ac yn tacluso. Byddai hyn yn helpu i adfer ymdeimlad o falchder yn y lleoliad.
- Gweithio ar brosiectau amgylcheddol i greu cyfleusterau newydd yn y gymuned megis ardal chwarae i blant iau neu ddatblygu gardd gymunedol.
- Ddarparu gwasanaethau gwirfoddol i grwpiau cymunedol eraill (er enghraifft, codi arian at achosion lleol, trefnu cyngherddau a gwyliau cymunedol, defnyddio sgiliau newydd eu caffael i helpu i adnewyddu adeiladau cymunedol).

Enghraifft o Arfer 29

Canolfan Quinzone, Quinton, Birmingham

Cysylltu Hyfforddiant Galwedigaethol â Gwelliannau Amgylcheddol i'r Gymuned

Mae Canolfan Quinzone (gweler enghraifft o arfer 16) yn cysylltu ei gwaith ar hyfforddiant galwedigaethol â gwelliannau amgylcheddol i'r gymuned leol pan fo modd.

Dyma rai enghreifftiau:

- Gosod seddau mewn parc lleol yn ymyl arosfan bws (gan roi cysgod a seddau i bobl leol)
- Sefydlu gerddi i bawb eu mwynhau yn yr ardal leol
- Cynlluniau plannu
- Cynnig apwyntiadau gwallt lle gall pobl leol fod yn fodolau
- Prosiectau adeiladu ar raddfa fach – atgyweirio waliau
- Addurno mannau cyhoeddus

Cyswllt:

Keith Slater, Cyfarwyddwr
www.quinzone.bham.org.uk am fanylion cyswllt a rhagor o wybodaeth

Pennod Pump: Gwasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac unigol

Y prawf terfynol ar gyfer unrhyw fodel yw gwneud yr ymagwedd yn rhan annatod o'r arfer yn y maes. Mewn llawer o ffyrdd mae'r egwyddorion a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn *Ymestyn Hawliau* yn pennu'r weledigaeth ar gyfer cyflawni hyn. Er bod llawer wedi cael ei roi ar waith yn dilyn cyhoeddi *Ymestyn Hawliau* mae'n dal yn wir mai ychydig o wybodaeth ymarferol neu ymwybyddiaeth o'r hyn a ddisgrifiwyd fel cyhoeddiad nodedig sydd gan ymarferwyr y tu allan i feysydd addysg a'r gwasanaeth ieuencid. Gan gofio hynny, mae'n ddefnyddiol nodi'r hyn a olygir gan wasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac unigol mewn ymgais i sefydlu iaith gyffredin:

Gwasanaethau cyffredinol – y gwasanaethau hynny a gynigir i bob person ifanc, gan gynnwys addysg, gwaith ieuencid, mynediad i wasanaethau hamdden, cyngor a chefnogaeth. Caiff y gwasanaethau neu'r hawliau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, eu crisialu a'u sefydlu yn *Ymestyn Hawliau* ac weithiau cyfeirir atynt fel y *10 hawl*:

- Addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith – wedi'u teilwra i'w hanghenion.
- Sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn ac yn hybu cynhwysiad cymdeithasol.
- Ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i gyfranogi mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol.
- Gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel sy'n ymatebol ac yn hygyrch.
- Cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd arbenigol ac annibynnol a gwasanaethau cefnogi a chwnsela i fyfyrwyr.
- Cefnogaeth a chynghor personol – yn ôl y galw mewn man a fformat priodol – gyda rheolau sylfaenol eglur ar gyfrinachedd.
- Cyngor ar iechyd, budd-daliadau tai a materion eraill, wedi'i ddarparu mewn lleoliadau hygyrch a chroesawgar.
- Cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch.
- Profiadau chwaraeon, artistig, cerddorol ac awyr agored i ddatblygu doniau, ehangu gorwelion a hybu persbectif crwn sy'n cynnwys cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol.
- Yr hawl i fod yn rhan o ymgynghori a gwneud penderfyniadau, ac i gael eu clywed, ar bob mater sydd o bwys iddynt neu'n cael effaith ar eu bywydau.

Ymestyn Hawliau

Gwasanaethau wedi'u targedu – rhaglenni atal wedi'u cyfeirio at grwpiau neu rwydweithiau o blant a phobl ifanc neu mewn ardaloedd daearyddol penodol lle gwelir bod crynodiad o ffactorau risg sy'n cynnwys tlodi, amddifadedd, llawer o achosion o fod yn absennol o'r ysgol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, llawer o ddefnydd o alcohol a chyffuriau a lefelau uchel o droseddau.

Gwasanaethau Unigol – gwasanaethau ymyrraeth a chefnogaeth wedi'u cyfeirio at blant a phobl ifanc gan un neu fwy o asiantaethau mewn ymateb i ymddygiad trafferthus neu beryglus megis ymwneud â thriwantaeth neu droseddau; neu berygl penodol sy'n cynnwys pryderon ynghylch lles plant, anghenion iechyd meddwl neu gorfforol.

Pan fyddwch yn ystyried yr ystod o ymyriadau ac asiantaethau (sefydliadau statudol, preifat a gwirfoddol) sydd â diddordeb uniongyrchol neu anuniongyrchol yng nghyflwyniad y gwasanaethau hynny yn ardal unrhyw un awdurdod lleol, daw graddfa'r dasg o gydlynw'r gweithgaredd hwnnw, oddi mewn i ymagwedd gyfannol a chydlynus, yn ddigon i godi braw. Dyna pam mae'r papur hwn yn argymhell ymagwedd ddaearyddol neu ardal lle gellir pennu ffiniau clir a gafael yn yr amrywiaeth o asiantaeth sy'n gyfredol i'r ardal a'u hannog i weithio mewn modd mwy cydweithredol. Ni fyddai hyn yn atal awdurdod lleol rhag estyn yr ymagwedd hon ar draws ei ardal a chynnig cefnogaeth i rwydwaith o weithgaredd mewn clystyrau a fyddai'n gweithio yn y modd a amlinellwyd i gynnig y model integredig i bob plentyn a pherson ifanc yn ardal yr awdurdod lleol.

Mewn erthygl yn The Guardian¹⁹, mae Rod Morgan, Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, yn dadlau bod modelau ataliol effeithiol yn llawer mwy tebygol o leihau troseddau na rhoi troseddwy'r ifanc dan glo:

Mae nodweddion pobl ifanc sydd yn y ddalfa'n awgrymu y dylai atal troseddau effeithiol fod yn fater i bob gwasanaeth cyhoeddus. Mae dau draean wedi'u gwahardd o addysg ac mae gan bron hanner y plant oed ysgol sydd yn y ddalfa lefelau llythrennedd a rhifedd is nag eiddo plentyn 11 oed. Mae mwy na chwarter yn methu darllen, ysgrifennu na chyfrif cystal â phlentyn saith oed ar gyfartaledd.

¹⁹ Youth Crime Can Never be Solved by Simply Locking Up Offenders, Rod Morgan, Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. The Guardian, 24.8.05

Mae pedwar o bob 10 wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol. Mae bron pumed ohonynt wedi bod ar gofrestr amddiffyn plant, tra bod 40% yn dweud iddynt fod yn ddibynol ar gyffuriau ac alcohol ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae gan ychydig o dan draean broblemau iechyd meddwl sylweddol. Dyma rai o'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, sydd wedi'u gwrthio i'r ymylon...

Mae'n mynd ymlaen i nodi nad yw mynd i'r afael â'r ffactorau hyn ym bywydau plant yn bosib i'r system cyfiawnder troseddol, ac felly yn sgîl hynny mae'n awgrymu bod cyflwyno gwasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac unigol yn effeithiol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yn debygol o gael effaith lawer mwy:

Dim ond trwy wrando'n ofalus ar droseddwy'r ifanc, ac edrych yn fanwl ar y rôl y mae rhaid i'n gwasanaethau prif ffrwd ei chwarae, y gallwn wneud cynnydd go iawn.

Yn ei rhagair i Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan mae Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn cefnogi'r farn hon:

*...y ffordd orau o atal pobl ifanc rhag troseddau yw sicrhau nad oes cyfle iddo ddigwydd yn y lle cyntaf. Os gallwn ni gadw pobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol, mae gennym fwy o siawns o'u hatal rhag mynd i drafferth gwaeth o lawer yn y dyfodol.*²⁰

Er mwyn ymateb i anghenion unigol plant a phobl ifanc mewn cymunedau dan anfantais a'r rheiny a dargedwyd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu llif arian Cymorth sy'n ceisio darparu rhwydwaith o gefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn fframwaith darpariaeth gyffredinol. Mae wedi ymgynghori yn ddiweddar ar gynigion ar gyfer ei menter Dechrau'n Deg²¹ a fydd yn targedu plant 0-3 oed yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn ychwanegol at hyn mae'r strwythurau Cymunedau'n Gyntaf a'u cynlluniau, a ddatblygwyd gyda chymunedau lleol, sydd bron bob amser yn cynnwys peth darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

²⁰ Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan. Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2004.

²¹ Cyflwynwyd yr ymgynghoriad ar 28 Tachwedd 2005 a daeth i ben ar 20 Chwefror 2006. Yr amcan canolog yw gwella canlyniadau i blant, wrth iddynt baratoi ar gyfer yr ysgol ac yn y tymor hir. Yn y lle cyntaf, bydd plant sy'n elwa o'r rhaglen yn byw yn nalgylchoedd ysgolion babanod a chynradd penodedig, a ddewisir yn ôl y lefelau cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim ymhlith y disgyblion. Canolbwynt y gwasanaethau fydd gofal plant rhan amser o ansawdd da am ddim ar gyfer plant dwy oed.

²² Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ionawr 2004.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau hyn i gyd wedi iddi fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel egwyddor arweiniol wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Er gwaethaf y ffocws hwn, mae llawer o ymarferwyr a rheolwyr yn dal i gydnabod ei bod yn eithaf anodd sicrhau bod Cymunedau'n Gyntaf, y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Llwybrau Dysgu 14-19, Bwrdd Diogelu Plant Diamddiffyn a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gydweithio mewn modd cydlynus, er bod parodrwydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd i wneud i hyn ddigwydd.

Ar ben hyn lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r fenter Ysgolion yn eu Cymunedau yn 2005 yn cyhoeddi cynigion i gefnogi datblygiad Ysgolion yn eu Cymunedau gyda chronfa o £3 miliwn. Mae wedi datblygu a chefnogi gweithrediad Cynghorau Ysgol ac mae hefyd yn gweithio gyda phartneriaethau lleol y Gronfa Cyfleoedd Newydd i ddatblygu o leiaf un ganolfan integredig ym mhob ardal awdurdod lleol:

*...Bydd y canolfannau hyn yn cyfuno chwarae mynediad agored, addysg blyneddodedd cynnar, hyfforddiant cymunedol a gofal plant, ynghyd â gwasanaethau cefnogi eraill i deuluoedd, megis grwpiau rhieni a phlant bach.*²²

Gyda chynifer o gyfleoedd ar gyfer datblygiadau cadarnhaol ar y gweill, mae angen i awdurdodau lleol, mewn partneriaeth gyda'u hasiantaethau darparu, yr heddlu a chymunedau lleol, ystyried ffyrdd o gyflwyno'r holl waith hwn mewn modd cydlynus.

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar gyfer y papur hwn fod y model neu'r weledigaeth o integreiddio gwasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac unigol, gyda ffocws ar gyflwyno gwasanaethau a datblygu arfer enghreifftiol, yn ffordd synhwyrol o symud ymlaen. Byddai'n siom petai manteision posib yr ymgynghoriad strategol hon yn cael eu tanseilio gan ganfyddiad cyffredinol mai ychydig sy'n digwydd ar lefel leol i wella ansawdd bywyd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Ailgyflunio Gwasanaethau Presennol

Os yw'r model arfer integredig a ddisgrifiwyd uchod i gael ei wireddu bydd angen i ni adolygu'r sefyllfa bresennol mewn llawer o ardaloedd lle caiff cyflwyno gwasanaethau statudol arbenigol flaenoriaeth ar draul gwasanaethau cyffredinol. Mae angen rhannu gweledigaeth strategol weithredol newydd ar sail aml-asiantaeth:

Gweledigaeth Strategol Enghreifftiol:

Gwasanaethau cyhoeddus i blant a phobl ifanc yn Ne Cymru yn mabwysiadu cyflwyno ymagwedd gyfannol aml-asiantaeth. Ymagwedd sy'n rhoi'r flaenoriaeth uchaf i gyflwyno gwasanaethau cyffredinol o ansawdd uchel, gan ddefnyddio ac integreiddio adnoddau arbenigol ac asiantaethau yn ôl y galw, ac wedi'i seilio ar gyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc eu hunain.

Mae Deddf Plant 2004 yn darparu cyfle i ailgyflunio gwasanaethau plant a phobl ifanc a gellir symud hyn yn ei flaen drwy fecanwaith canolog y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth a'i offeryn archwilio hunanasesu atodol, yn darparu cyfeirbwynt ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaethau plant a phobl ifanc drwy osod y safonau a'r mesuriadau perfformiad allweddol mewn perthynas â chydrawdoldeb ac ansawdd gwasanaethau.

Mae llawer o asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn statudol neu'n wirfoddol. Gall rhai cymunedau ddisgwyl gweld yr asiantaethau hynny'n gweithio'n uniongyrchol yn y gymuned drwy'r amser, er enghraifft yr ysgol leol, clwb ieuenctid, grwpiau eglwysig, swyddog heddlu cymunedol, meddygfa a grwpiau gwirfoddol. Mae gwasanaethau eraill yn fwy arbenigol ac ni fyddai cymunedau'n disgwyl dod i gysylltiad â nhw ond mewn argyfwng neu lle mynegwyd angen, er enghraifft gwasanaethau plant yr awdurdod lleol, asiantaethau iechyd corfforol a meddyliol, tîm troseddau ieuenctid, swyddogion heddlu ymchwiliol a'r gwasanaeth lles addysg. Gall pob un o'r asiantaethau hynny eisoes fod yn rhan o un neu fwy o brosiectau partneriaeth ac mewn rhai achosion byddant eisoes yn trafod gyda'i gilydd.

Efallai na fydd hyn yn digwydd mewn rhai ardaloedd, neu hyd yn oed os ydyw, efallai nad yw'r ddeialog yn mwyafu'r manteision a'r cyfleoedd sydd ar gael o ymagwedd fwy cydlynus. Mae ailgyflunio'n golygu adolygu'r holl wasanaethau sy'n cael eu cyflwyno a chytuno ar sail aml-asiantaeth o ran sut gellir eu cyflwyno mewn modd mwy cydlynus a chost-effeithiol fel bod adnoddau'n cael eu rhannu, nid eu dyblygu, i ddiwallu angen a nodwyd ag ymagwedd gydlynus, medru darparu canlyniadau positif i holl blant a phobl ifanc yr ardal leol, a medru nodi bylchau yn y ddarpariaeth a ffyrdd o lenwi'r bylchau hynny. Mae ymchwil gan Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington yn nodi'r manteision a all ddod yn sgîl ailgyflunio gwasanaethau:

*Mae ailffocysu cyfredol yn ymwneud â darparu gwasanaethau i bob plentyn (yn hytrach na gwasanaethau i'r tlawd) ac â chyfeirio'r ddarpariaeth at well canlyniadau – llai o rwystrau i ddatblygiad, gwell ansawdd bywyd, gwrthweithio eithrio cymdeithasol – ac felly symud oddi wrth y ffocws ar brosesau ac allbynnau... Y nod yw cyflawni gwell cydbwysedd rhwng y gwasanaethau “yn y blaen” – ataliaeth ac ymyrraeth gynnar sy'n ceisio atal problemau yn y lle cyntaf neu eu dal yn gynnar os byddant yn dechrau datblygu – a'r ddarpariaeth “drymach” – triniaeth ac ataliaeth gymdeithasol a fwriedir i adfer anawsterau difrifol a lleihau effaith negyddol y rheiny sy'n dioddef anawsterau ar eraill.*²³

Nid yw ailgyflunio'n golygu dadelfennu gwasanaethau aciwt neu adferol na chwaith bod angen mwy o fuddsoddi neu adnoddau. Mae'r ymchwl, serch hynny, yn nodi y gallai'r ddwy elfen hon fod yn ddymunol mewn rhai ardaloedd. O ganlyniad mae'n gwneud y pwynt bod cydweithrediad prif swyddogion ar sail aml-asiantaeth yn hanfodol os yw ailgyflunio adnoddau i gael gwell effaith i gael ei wireddu (er enghraifft, nid yw cytuno i bennu ac ailwampio cyllidebau'n debygol o ddigwydd heb gefnogaeth a chyfeiriad yr aelodau etholedig a'r prif swyddogion yng nghyd-destun gwasanaethau awdurdodau lleol).

²³ *Refocusing Children's Services Towards Prevention: Lessons from the Literature.* Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington. Adroddiad Ymchwil 510. 2004. ISBN 1 84478 176 3

Dylai manteision ymagwedd gyfannol, integredig wrth ailgyflunio gwasanaethau presennol gynnwys:

- Cyflawni gwell canlyniadau a gwell gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn yr ardal.
- Gwella gwerth am arian.
- Dileu gwastraff a dyblygu ymdrechion.
- Creu gwelliannau ym meysydd asesu a chynllunio amlddisgyblaeth.
- Darparu cyfle i wella'r ffactorau amddiffynnol mewn cymunedau a lleihau'r ffactorau risg ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Cytuno ble mae bylchau'n amlwg mewn gwasanaethau ac edrych ar sut gellir unioni hynny.

Cwestiynau a Materion Allweddol i'w Hystyried o fewn Ymagwedd Strategol at Ailgyflunio Gwasanaethau

Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad	• Ydy'r holl brif swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu'r un weledigaeth? Fyddan nhw'n barod i <i>hyrwyddo'r</i> dull newydd o weithio? • A ellir ymrwymo i ailgyflunio cyllidebau dros gyfnod penodol er mwyn cyflwyno'r trefniadau newydd yn fwriadol, gan geisio creu newid cynaliadwy?
Trefniadau partneriaeth cyfredol yn cael effaith gyfyngedig ar gyflwyno gwasanaethau	• Ydych chi'n deall bod polisïau a threfniadau partneriaeth presennol yn fawr mwy na <i>siop siarad</i> ym marn llawer o'r rheiny sy'n gyfranogwyr? • Ydych chi'n gwybod sawl cyfarfod partneriaeth sydd – a ellir lleihau nifer y rhain i leihau dyblygu a gofynion o ran amser staff? • I ba raddau mae pobl ifanc yn chwarae rhan weithredol yn y trefniadau presennol – a ellir gwella hyn? • I ba raddau mae'r partneriaid yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd? • Sut gall darparwyr gwasanaethau arbenigol addasu eu dulliau gwaith i ymateb i ymagwedd fwy integredig? • I ba raddau mae sefydliadau gwirfoddol yn chwarae rhan?
Canolbwyntio ar y Plentyn a'r Person Ifanc	• Fyddwch chi'n ystyried sut gall ymagwedd strategol at ailgyflunio gwasanaethau gynnwys cyfranogiad gweithredol gan blant a phobl ifanc wrth helpu i lunio'r trefniadau newydd? • Ydych chi'n barod i ystyried sut gall pob asiantaeth addasu i weithio ar sail clystyrau i gyflwyno gwasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu i blant a phobl ifanc wrth iddynt gyrchu gwasanaethau arbenigol yn ôl y galw?

Pennod Chwech: Monitro a Gwerthuso

- Fyddech chi wedyn yn ystyried cyhoeddi arweiniad arfer ar y cyd ar y model cyffredinol a sut mae gwasanaethau arbenigol yn cydweddu â'r ymagwedd honno?
- Fyddech chi hefyd yn ystyried datblygu hyfforddiant ar y cyd ar gyfer sefydliadau statudol, gwirfoddol, cymunedol a phreifat sy'n gweithio yn yr ardal fel bod pawb yn gyfarwydd â'r trefniadau newydd, y gofynion deddfwriaethol a'r mentrau/rheoliadau newydd?

Strwythurau Syml

- Peidiwch â sefydlu strwythurau cymhleth. Mae angen cadw'r gofynion deddfwriaethol mewn cof ond gall cadw pethau'n syml leihau'r tasgau a ddaw wrth i gymhlethdod fynd yn fwrn.
- Cadwch ffocws ar gyflawni arfer o ansawdd da.
- Er enghraifft, gallai ardal awdurdod lleol sefydlu un Grŵp Arweinyddiaeth Strategol trosgynnol (yn gyfrifol am arolygu datblygiadau, derbyn adroddiadau cynnydd a darparu hyfforddiant, cefnogaeth a chyfarpar at y gwaith yn yr ardaloedd cyflwyno). O fewn ardal yr awdurdod lleol bydd nifer o Grwpiau Cyflwyno Ardal (wedi'u seilio ar ardaloedd clwstwr ysgolion uwchradd o bosib) yn cyflwyno'r gwasanaeth integredig cyffredinol.

Prosesau Cytunedig

- Ystyried cytuno ar gyfres o brotocolau gweithio ar y cyd (os yw'r rhain i gael eu defnyddio bydd angen darparu ar gyfer gofynion asiantaethau unigol):
 1. Protocol rhannu gwybodaeth
 2. Fframwaith asesu a chyfeirio cyffredin ar y cyd
 3. Cytundebau cynlluniau cymunedol ac unigol
 4. Gweithdrefnau adrodd ac atebolrwydd clir a chyson
 5. Safon monitro ar gyfer arfer effeithiol
 6. Gweithdrefn comisiynu ar y cyd

Er mwyn adlewyrchu'n gywir effaith ymagwedd neu brosiect newydd mae'n bwysig monitro a gwerthuso beth sy'n digwydd. Ym Mhennod 3 uchod amlinellir egwyddorion monitro a gwerthuso. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwerthuso effeithiol. Mae llawer o asiantaethau wrth gwrs eisoes yn gwybod hyn o ran eu harfer eu hun, eu hatebolrwydd, a threfniadau llywodraethu ac arolygu.

Er bod monitro a gwerthuso bellach yn cael eu cydnabod yn gyffredinol fel rhan annatod o arfer nid yw bob amser yn eglur a oes gan ymarferwyr a'r bobl ifanc maent yn eu gwasanaethu yn deall y geiriau neu'r termau allweddol yn yr un ffordd.

Monitro a Gwerthuso – Geiriau Allweddol

Monitro

Y broses o asesu cynnydd prosiect yn barhaus o ran cyflawni'i *amcanion* (canolbwyntio ar *allbwn* a *cherrig milltir*)

Gwerthusiad

Darn o ymchwil sy'n defnyddio gwybodaeth fonitro a ffynonellau eraill i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd gweithgaredd/prosiect/polisi ar adeg benodol (er enghraifft wedi 1 neu 3 blynedd). Mae'n edrych ar y *canlyniadau* a gyflawnwyd o'u cymharu â'r *amcanion*.

Ymchwil

Holl weithgaredd archwilio a deall rhaglenni a/neu weithgaredd newid.

Amcanion

Rhywbeth rydych am ei wneud neu ei gyflawni. Er enghraifft, cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaeth; neu leihau nifer y bobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu niwsans.

Targedau

Fel arfer *amcanion* wedi'u mireinio yw'r rhain, er enghraifft, lleihau gwaharddiadau o Ysgol Uwchradd Fan Draw gan 10% erbyn 2007.

Allbynnau

Cynnyrch gweithgaredd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn y mae'n rhaid ei gynhyrchu neu ymgymryd ag ef i'r gweithgaredd gyflawni'r *canlyniad* a ddymunir. Er enghraifft, dosbarthu taflen wybodaeth i bob un o'r tai ar *Stad Tref Rhywle* bob chwarter.

Mewnbynnau

Yr adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniad a ddymunir. Er enghraifft, amser staff, arian newydd, mynediad i fws mini, ac ati.

Canlyniadau

Canlyniadau neu'r hyn sy'n dilyn o weithgaredd penodol (cymhwyso'r *mewnbynnau* a chyflawni'r *allbynnau*).

Cerrig milltir

Amserlenni ar gyfer cwblhau gweithgareddau neu dasgau penodol. Gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd. Er enghraifft, cysylltu â phobl ifanc yn *Nhanffordd Fan Draw* erbyn 1.6.06; sefydlu cyfranogiad pobl ifanc ar y gweithgor llywio erbyn 1.9.06.

Dangosyddion Perfformiad

Eich dulliau o fesur a yw targed neu amcan wedi cael ei gyflawni. Er enghraifft gallai'r DP ar gyfer lleihau cyfradd yr ymddygiad niwsans olygu cofnodi'r gostyngiad yn y cwynion a dderbyniwyd gan yr heddlu.

Llinell Sylfaen

Sefyllfa neu safle rhywbeth neu rywle cyn i'r gweithgaredd neu'r prosiect gychwyn.

Effeithiolrwydd Cost

Amcangyfrif o gost cyflawni amcan ac a yw'r gweithgaredd wedi bod yn fwy neu'n llai drud wrth gyflawni'r amcan hwnnw na mesur neu nifer o fesurau eraill.

Dadansoddi Manteision Cost

Mynd â'r uchod gam ymhellach drwy ychwanegu gwerth ariannol i ganlyniadau ymyriadau, er mwyn cymharu'n uniongyrchol â'r *mewnbynnau*.

24

²⁴ Mae'r tabl diffiniadau hwn wedi'i seilio ar waith yn *Best Behaviour: Shared Learning from the West Midlands on Anti-Social Behaviour and Young People*. Government Office for the West Midlands and the National Youth Agency



Atodiad 1

Mae’n bwysig monitro a gwerthuso oherwydd bod hyn yn:

- Helpu i adeiladu sail tystiolaeth o’r hyn sy’n angenrheidiol.
- Gallu cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau ac olrhain cynnydd.
- Gallu helpu pobl ifanc ac eraill i weld sut cyflawnir gwelliannau.
- Gallu dangos sut caiff arian ei wario mewn ardal leol a sut mae’r adnoddau presennol yn cael eu defnyddio.
- Gallu helpu eraill i sefydlu prosiectau tebyg yn eu hardaloedd eu hunain.
- Gallu dangos sut mae gwaith asiantaethau a gwasanaethau’n diwallu anghenion plant a phobl ifanc (atebolrwydd).

Er y gall asiantaethau fod yn gyfrifol eu hunain, gyda chymorth gweithredol pobl ifanc, am gynnal monitro a gwerthuso cyffredin, gellir ennill llawer o gomisiynu corff allanol i werthuso cynnydd. Gall llygad craff asiant annibynnol helpu i nodi a dilysu llwyddiant a chynorthwyo gyda hybu’r gwaith i gynorthwyo datblygiadau arfer mewn mannau eraill.

Materion Effaith

Mae’n bwysig cofio y gall effaith ymagweddau newydd gael canlyniadau cadarnhaol a negyddol ar y cychwyn. Er enghraifft, os yw prosiect yn llwyddiannus o ran darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau a gall y gymuned ei hun weld bod rhywbeth cadarnhaol yn digwydd mewn ymateb i’w pryderon am niwsans neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, gallech weld cynnydd yn y lefelau adrodd. Ni fyddai hyn ynddo’i hun yn golygu bod yr achosion o niwsans neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu; yn hytrach byddai’n adlewyrchu i ba raddau mae hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau’n cynyddu. Yr unig ffordd o gofnodi’n gywir faint o leihad sydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yw monitro cynnydd dros nifer o flynyddoedd yn hytrach na nifer o fisoedd.

O ganlyniad i roi ymagwedd neu brosiect newydd ar waith gallech ddisgwyl gweld:

- mwy o adrodd am niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau.
- mwy o weithgareddau ataliol, addysgol a dargyfeiriol yn eu lle.
- lefelau uwch o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc.
- lefelau uwch o gyfranogiad gan aelodau o’r teulu.
- lefelau uwch o gyfranogiad gan rieni a gofalwyr.
- mwy o hyder yn y gymuned bod y gymdogaeth yn lle mwy diogel i fyw ynddo.
- gwelliannau i’r amgylchedd ffisegol.
- adfywiad economaidd.
- lefelau cynyddol o foddhad yn y gymuned.
- gwelliannau yn yr ansawdd bywyd a brofir gan blant a phobl ifanc ac aelodau eraill o’r gymuned.
- llai o roi’r bai ar bobl ifanc.
- lleihau’r camddefnydd o alcohol a sylweddau.
- lleihau’r delio trefnedig mewn cyffuriau.
- gwelliannau yn ansawdd bywyd ar draws y gymuned.
- mwy o bobl ifanc yn arddangos dinasyddiaeth weithredol.

Mae amrywiaeth o brosesau a chyfarpar rheoli perfformiad yn bodoli, er enghraifft, yr Offeryn Archwilio Hunanasesu, a ddefnyddir gan asiantaethau ar gyfer eu harfer eu hunain. Wrth benderfynu sut i fonitro a gwerthuso cynnydd bydd yn bwysig myfyrio ar y goblygiadau a geir yn Neddf Plant 2004 a’r symudiad tuag at brosesau a strwythurau arolygu, sicrhau ansawdd a gwerthuso ar y cyd.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn²⁵

Erthygl 1 – Mae gan bawb o dan 18 oed yr holl hawliau yn y Confensiwn hwn.

Erthygl 2 – Mae’r Confensiwn yn berthnasol i bawb, beth bynnag fo’u hil, eu crefydd, eu galluoedd, beth bynnag maen nhw’n ei feddwl neu’n ei ddweud ac o ba fath bynnag o deulu maen nhw’n dod.

Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4 – Dylai llywodraethau sicrhau bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

Erthygl 5 – Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i arwain a chyfeirio’u plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu defnyddio’u hawliau’n briodol.

Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu’n iach.

Erthygl 7 – Mae gan bob plentyn yr hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, yr hawl i genedligrwydd a’r hawl i wybod ac, i’r graddau mae hynny’n bosib, i dderbyn gofal gan ei rieni.

Erthygl 8 – Dylai llywodraethau barchu hawl plant i gael enw, cenedligrwydd a chysylltiadau teuluol.

Erthygl 9 – Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni oni bai bod hynny er eu lles eu hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu’n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu’r hawl i aros mewn cysylltiad gyda’r ddau riant, oni bai bod perygl i hyn niweidio’r plant.

Erthygl 10 – Dylai teuluoedd sy’n byw mewn gwahanol wledydd gael caniatâd i symud rhwng y gwledydd hynny fel bod modd i rieni a phlant aros mewn cysylltiad neu ddod yn ôl at ei gilydd fel teulu.

Erthygl 11 – Dylai llywodraethau gymryd camau i atal plant rhag cael eu cymryd allan o’u gwlad eu hunain yn anghyfreithlon.

Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn ddylai ddigwydd, pan yw oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, ac i gael eu barn wedi’i hystyried.

Erthygl 13 – Mae gan blant yr hawl i gasglu a rhannu gwybodaeth cyhyd ag nad yw’r wybodaeth honno’n eu niweidio hwy neu eraill.

Erthygl 14 – Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu fel y dymunant ac i ymarfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau hwy. Dylai rhieni dywys eu plant yn y materion hyn.

Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gyfarfod â’i gilydd ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, cyhyd ag nad yw hyn yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau hwy.

Erthygl 16 – Mae gan blant hawl i breifatrwydd. Dylai’r gyfraith eu hamddiffyn rhag ymosodiadau yn erbyn eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a’u cartrefi.

Erthygl 17 – Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy o’r cyfryngau torfol. Dylai’r teledu, y radio a’r papurau newydd ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall, ac ni ddylent hyrwyddo deunydd a allai niweidio plant.

Erthygl 18 – Mae’r ddau riant yn rhannu’r cyfrifoldeb am fagu eu plant, a dylent ystyried bob amser beth sydd orau i bob plentyn. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i’w cefnogi, yn enwedig os bydd y ddau riant yn gweithio.

Erthygl 19 – Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn derbyn gofal priodol, a’u hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy’n gofalu amdanynt.

Erthygl 20 – Rhaid i blant na allant dderbyn gofal gan eu teuluoedd eu hunain dderbyn gofal priodol, gan bobl sy’n parchu eu crefydd, eu diwylliant a’u hiaith.

Erthygl 21 – Pan gaiff plant eu mabwysiadu rhaid i’w lles hwy fod yn ystyriaeth flaenaf. Dylai’r un rheolau fod yn berthnasol p’un a gaiff y plant eu mabwysiadu yn y wlad lle cawsant eu geni neu eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

²⁵ O Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu’r Hawliau. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002, wedi’i addasu o daflen a gynhyrchwyd gan Achub y Plant, CEWC-CYMRU a UNICEF.

Atodiad 2

Erthygl 22 – Dylai plant sy’n dod i wlad yn ffoaduriaid dderbyn yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

Erthygl 23 – Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd dderbyn gofal a chefnogaeth arbennig fel bod modd iddynt fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Erthygl 24 – Mae gan blant hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŷ glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân fel eu bod yn parhau’n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 25 – Dylid adolygu’n rheolaidd sefyllfa plant sy’n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol yn hytrach na’u rhieni.

Erthygl 26 – Dylai’r Llywodraeth ddarparu arian ychwanegol ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

Erthygl 27 – Mae gan blant hawl i safon byw sy’n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai’r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio darparu hyn.

Erthygl 28 – Mae gan blant hawl i dderbyn addysg. Dylai disgyblu mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod yn ddi-dâl. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn yn llawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a’u diwylliant eu hun a diwylliannau eraill.

Erthygl 30 – Mae gan blant hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p’un a yw’r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif pobl y wlad ai peidio.

Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Erthygl 32 – Dylai’r Llywodraeth amddiffyn plant rhag gwaith sy’n beryglus neu a allai niweidio’u hiechyd neu eu haddysg.

Erthygl 33 – Dylai’r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o amddiffyn plant rhag cyffuriau peryglus.

Erthygl 34 – Dylai’r Llywodraeth amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol.

Erthygl 35 – Dylai’r Llywodraeth sicrhau nad yw plant yn cael eu herwgipio na’u gwerthu.

Erthygl 36 – Dylid amddiffyn plant rhag unrhyw weithgareddau a allai niweidio’u datblygiad.

Erthygl 37 – Ni ddylid trin plant sy’n torri’r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi yn y carchar gydag oedolion a dylent fedru cadw mewn cysylltiad â’u teuluoedd.

Erthygl 38 – Ni ddylai llywodraethau ganiatáu i blant o dan 15 oed ymuno â’r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel dderbyn amddiffyniad arbennig.

Erthygl 39 – Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin dderbyn cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch.

Erthygl 40 – Dylai plant a gyhuddir o dorri’r gyfraith dderbyn cymorth cyfreithiol. Dylid rhoi dedfryd o garchar i blant yn achos y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

Erthygl 41 – Os yw cyfreithiau gwlad benodol yn amddiffyn plant yn well nag erthyglau’r Confensiwn, dylid defnyddio’r cyfreithiau hynny.

Erthygl 42 – Dylai’r Llywodraeth sicrhau bod pob rhiant a phlentyn yn gwybod am y Confensiwn.

Y Saith Nod Craidd²⁶

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn sail ar gyfer ei holl waith gyda phlant a phobl ifanc. Maen nhw wedi trosi hwn yn saith nod craidd y byddant yn gweithio drwyddynt i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

Yn Cael Dechrau’n Deg mewn Bywyd (Nod Craidd 1)

Canlyniadau a fwriadir:

Plant (0 –3) yn medru datblygu hyd eithaf eu potensial o ran:

- Iechyd a datblygiad corfforol
- Dysgu a datblygiad deallusol
- Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

Yn Derbyn Ystod Gynhwysfawr o Gy-fleoedd Addysg, Hyfforddiant a Dysgu (Nod Craidd 2)

Canlyniadau a fwriadir:

Mae plant a phobl ifanc wedi’u hysgogi ac yn medru datblygu a chaffael y sgiliau addysg a hyfforddiant angenrheidiol, gan gynnwys sylfaen gadarn ar gyfer dysgu.

Yr holl blant a phobl ifanc wedi’u hysgogi ac yn medru datblygu a chaffael y sgiliau personol a chymdeithasol angenrheidiol.

Plant a phobl ifanc yn medru derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwell canlyniadau addysgol ar gyfer:

- Disgyblion lleiafrifoedd ethnig a du, yn enwedig y rheiny y mae’r Saesneg yn ail iaith iddynt, gan gynnwys Teithwyr.
- Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig.
- Disgyblion sy’n derbyn gofal.

Yn Mwynhau’r Iechyd Gorau Posib, Heb Gamdriniaeth, Erledigaeth na Chael eu Hecsbloetio (Nod Craidd 3)

Canlyniadau a fwriadir:

Gwell ansawdd a chydaddoldeb o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bob plentyn a pherson ifanc.

Gwell canlyniadau triniaeth ac ataliaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn dioddef salwch meddwl neu a allai ei ddioddef.

Gwell canlyniadau o ran amddiffyn plant.

Arfer o ansawdd yn diwallu anghenion cymunedau BME.

Opsiynau iach ar gael i blant a phobl ifanc, a hwythau’n eu dewis o ran:

- Rhoi’r gorau i smygu
- Deiet
- Ymarfer corff
- Ymddygiad iechyd rhyw

Yn Cael Mynediad i Weithgareddau Chwarae, Hamdden, Chwaraeon a Diwylliant (Nod Craidd 4)

Canlyniadau a fwriadir:

Lefelau uwch o ddarpariaeth a mynediad iddi.

Gwella lles cymdeithasol a datblygiad personol plant a phobl ifanc ar draws Cymru.

Mwy o gyfleoedd i gynnwys pobl ifanc mewn amrywiaeth o weithgareddau yn eu dewis iaith.

Gwell mynediad i ddarpariaeth trwy gynyddu cludiant a gwella fforddiadwyedd.

Mwy o fynediad i brofiadau diwylliannol a chyfleoedd i gyfranogi ynddynt.

²⁶ Welsh Assembly Government: *Children and Young People: Rights to Action*. January 2004

Atodiad 3

Yn derbyn Gwrandawriad, yn cael eu Trin â Pharch, ac yn cael Cydnabod eu Hil a'u Hunaniaeth Ddiwylliannol (Nod Craidd 5)

Canlyniadau a fwriadir:

Sefydliadau ac oedolion yn ystyried barn a safbwynt pob plentyn a pherson ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac yn symud ymlaen i ddinasyddiaeth weithredol.

Gwell gwasanaeth eiriolaeth ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn Meddu ar Gartref Diogel a Chymuned sy'n cefnogi Lles Corfforol ac Emosiynol (Nod Craidd 6)

Canlyniadau a fwriadir:

Lleihau'r achosion o drosedd, aflonyddu hiliol a rhywiol a bwlio, a darparu cefnogaeth i ddioddefwyr.

Cynyddu argaeledd cartrefi cynnes a diogel a chymunedau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc.

Heb eu rhoi dan Anfantaïs gan Dlodi (Nod Craidd 7)

Canlyniad a fwriadir:

Lleihau niferoedd y plant a'r bobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

Y Deg Hawl²⁷

Mae gan bob person ifanc 11-25 oed yng Nghymru hawl sylfaenol i:

- Addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith – wedi'u teilwra i'w hanghenion
- Sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn ac yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol
- Ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i gyfranogi mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol
- Gwasanaethau a chyfleusterau hygyrch, ymatebol ac o ansawdd uchel
- Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd arbenigol, annibynnol a gwasanaethau cefnogi a chwnsela i fyfyrwyr
- Cefnogaeth a chyngor personol yn ôl y galw mewn fformatau priodol – gyda rheolau sylfaenol eglur ynghylch cyfrinachedd
- Cyngor ar iechyd, budd-daliadau tai a materion eraill, wedi'i ddarparu mewn lleoliad hygyrch a chroesawgar
- Cyfleoedd hamdden a diwylliannol mewn amgylchedd diogel a hygyrch
- Profiadau chwaraeon, artistig, cerddorol ac awyr agored i ddatblygu talent, ehangu gorwelion a hyrwyddo persbectif crwn sy'n cynnwys cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol
- Yr hawl i fod yn rhan o ymgynghori, i gyfranogi mewn penderfyniadau ac i gael eu clywed yng nghyd-destun pob mater sy'n ymwneud â nhw neu sy'n effeithio ar eu bywydau

Mewn amgylchedd lle mae:

- Ffocws cadarnhaol ar gyflawniad cyffredinol a'r hyn sydd gan bobl ifanc i'w gyfrannu
- Ffocws ar adeiladu gallu pobl ifanc i ddod yn annibynnol, gwneud dewisiadau, a chyfranogi yn y broses ddemocrataidd; a
- Dathlu llwyddiannau pobl ifanc

²⁷ The National Assembly for Wales: *Extending Entitlement: supporting young people in Wales*. September 2000

Llyfryddiaeth a Chyfeiriadaeth

Deddf Plant 1989.
www.opsi.gov.uk/acts/acts1989/Ukpga19890041en1.htm

Deddf Plant 2004
www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/20040031.htm

Communities that Care: *Youth at Risk*. 2002.
ISBN 0 9537 53018

Communities that Care: *A Guide to Promising Approaches (Ail argraffiad)*. 2005. ISBN 0 9537 53034

Communities that Care: *Youth at Risk? A national survey of risk factors, protective factors and problem behaviour among young people in England, Scotland and Wales*. Ebrill 2002.

Friedman, M: *Trying Hard is Not Good Enough – How to produce measurable improvements for customers and communities*. 2005 Trafford Publishing.
ISBN 1 4120 6397 3

Furlong, A. and Cartmel, F. (1997), *Young People and Social Change: Individualisation and Risk in Late Modernity*, Buckingham: Open University Press.

Groundwork UK: Worpole, K. *No Particular Place To Go? Children and young people and public space*.
www.groundwork.org.uk

Government Office for the West Midlands, The National Youth Agency *Best Behaviour: Shared Learning from the West Midlands on Anti-Social Behaviour and Young People*.
www.nya.org.uk

Y Swyddfa Gartref: France, A. Hine, J. Armstrong, D and Camina, M. *The On Track Early Intervention and Prevention Programme: from Theory to Action*. 2004.

Adroddiad Ar-lein y Swyddfa Gartref: *The Economic and Social Costs of Crime Against Individuals and Households 2003/04*. Mehefin 2005.

Y Swyddfa Gartref: Respect Action Plan.
Respect Task Force (Y Swyddfa Gartref). Ionawr 2006.
ISBN 1 8447 38477. Lawrlwytho o: www.respect.gov.uk

Y Swyddfa Gartref, yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol, Government Office for the West Midlands *The Active Involvement of Young People in Developing Safer Communities*. Mawrth 2002.

Y Swyddfa Gartref, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Strategaeth Troseddwy Cyson a Throseddwy Eraill â Blaenoriaeth, Papur Cyfarwyddyd 3, Rhwystro ac Atal (Fersiwn i Gymru)*.

Hamel R, School of Criminology and Criminal Justice, Griffith University, Brisbane, Australia *Developmental Crime Prevention*, February 2005. Chapter for Nick Tilley (gol), *Handbook of Crime Prevention and Community Safety* Collumpton, Devon, UK: Willan Publishing.

Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/20000021.htm

Nacro: Towler, K. Walden-Jones, B *Nothing to Do - Nowhere to Go. A practical guide to tackling youth crime and disaffection in the community*. 1992. ISBN 0 8506 9094 3

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Ymestyn Hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru*. Medi 2000. ISBN: 0 7504 2466 4

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Y Wlad sy'n Dysgu*. Awst 2001. ISBN: 0 7504 2735 3

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd *Choice for Parents and the Best Start for Children* www.ndna.org.uk

Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc i Gymru. *Bod â Llais – Bod â Dewis. Safonau Drafft ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc*.

Play Wales / Chwarae Cymru *The First Claim...a framework for playwork quality assessment*. Trydydd argraffiad, 2004. ISBN 0 9540 1300 X www.playwales.org.uk

Rutter, M.a Smith, D. (gol) (1993), *Psychosocial Disorders in Young People: Time Trends and Their Causes*, Llundain: Heinemann

Achub y Plant *Righting the wrongs: The reality of children's rights in Wales*. 2006. www.savethechildren.org.uk

Achub y Plant *Participation Spice it up! Practical tools for engaging children and young people in planning and consultations.* 2002. ISBN 1 84187 062 5

Achub y Plant *Listen Up! Children and young people talk: about poverty.* www.savethechildren.org.uk

Achub y Plant *Empowering Children and Young People.* Treseder, P. 1997.

Uned Eithrio Cymdeithasol (2000), *National Strategy for Neighbourhood Renewal – Report of Policy Action Team 12: Young People*, Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

Asiantaeth Ieuenctid Cymru Archwiliad o Wasanaeth Ieuenctid Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2003/2004. Mawrth 2005

Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr: *Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan.* Gorffennaf 2004. ISBN 0 7054 3470 8

Llywodraeth Cynulliad Cymru. *Ymestyn Hawliau: cefnogaeth i bobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru.* Gorffennaf 2002. ISBN: 0 7504 2975 5

Llywodraeth Cynulliad Cymru Cymru: *Gwlad Well: Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.* Medi 2003. ISBN: 0 7504 9908 7

Llywodraeth Cynulliad Cymru Cymru'n Ennill: *Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru.* Ionawr 2002.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau ac Uned Wybodaeth Llywodraeth Leol, *Pe bai'n blentyn i mi ...Llawlyfr i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da.* Chwefror 2005. ISBN 1 9017 1951 0.

Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gartref: *Diogelwch Cymunedol Cymru Cylchlythyr 13 Rhifyn Arbennig Ar Drywydd Gwanwyn* 2005.

Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau.* Ionawr 2004. ISBN 0 7504 98765.

Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llwybrau Dysgu 14-19 yng Nghymru* 2005 ISBN 0 7504 3999 8

Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Creu'r Cysylltiadau: Cyflwyno Gwell Gwasanaethau i Gymru.* Ionawr 2005

Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.* 30 Medi 2005

Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Report of the Child Poverty Task Group Consultation.* Mehefin 2004. ISBN 0 7504 3439 2

Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Up in Flames – A Report of the Community Fire Safety Working Group into Arson.* Chwefror 2003.

Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Chwarae yng Nghymru – Cynllun Gweithredu Chwarae i Gymru.* Chwefror 2006. ISBN: 0 7504 9758 0

Williamson, H., Afzal, S., Eason, C. a Williams, N. (1997), *The Needs of Young People aged 15 – 19 and The Youth Work Response*, Llinell Newyddion Asiantaeth Ieuenctid Cymru, Caerffili: Asiantaeth Ieuenctid Cymru

Williamson H a Weatherspoon K: *Strategies for Intervention – An Approach to Youth and Community Work in an Area of Social Deprivation.* Uned Ymchwil Gymdeithasol; Coleg Prifysgol Cymru Caerdydd. 1985.